# 5 Sports Extra: Prawf Budd y Cyhoedd

Cyflwyno Prawf Budd y Cyhoedd y BBC

21 Hydref 2024

**Tabl Cynnwys:**


**1. Crynodeb gweithredol ........ 3**

1.1 Cynigion y BBC ar gyfer 5 Sports Extra ........ 4

1.2 Bydd ymestyn 5 Sports Extra yn sicrhau gwerth cyhoeddus uchel ........ 5

1.3 Effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ........ 6

1.4 Prawf Budd y Cyhoedd ........ 8

**2. Cyd-destun ein cynigion ........ 10**

2.1 Yr amrywiaeth a'r defnydd o sain ar gyfer gwrando ar chwaraeon ........ 10

2.2 Mae rhwydweithiau radio chwaraeon yn darparu cynigion unigryw ar gyfer eu cynulleidfaoedd targed, gan adeiladu ar gynnwys hawliau chwaraeon sydd ganddynt 17

**3. Deall heriau 5 Sports Extra ........ 26**

3.1 Mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau'r gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded drwy wneud mwy o'n buddsoddiad mewn cynnwys chwaraeon yn weladwy ar radio rhwydwaith ........ 26

3.2 Rhaid i'r BBC wneud mwy i sicrhau'r cynnwys gorau posibl ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE a chynulleidfaoedd iau ar y radio ........ 28

3.3 Mae diffyg podlediadau chwaraeon unigryw ym marchnad radio'r DU ........ 29

3.4 Gallai'r BBC wneud mwy i wella ehangder y cynnwys chwaraeon ar radio llinol 29

**4. Cynigion y BBC ar gyfer 5 Sports Extra ........ 31**

4.1 Ein cynnig ar gyfer ymestyn oriau darlledu 5 Sports Extra ........ 31

4.2 Cyllideb ........ 42

4.3 Crynodeb o'r cynigion terfynol ........ 43

**5. Darparu mwy o werth i gynulleidfaoedd drwy 5 Sports Extra ........ 45**

5.1 Cyflawni yn erbyn Cenhadaeth y BBC ........ 45

5.2 Ein Fframwaith Gwerth Cyhoeddus ........ 45

5.3 Ein damcaniaeth gwerth cyhoeddus ........ 46

5.4 Ymchwil Cynulleidfa ........ 47

5.5 Gwella gwerth am arian i gynulleidfaoedd radio llinol, drwy wneud mwy o'n cynnwys chwaraeon ar-alw gwych ar gael ar radio rhwydwaith ........ 47

5.6 Gwella'r gwerth y mae cynulleidfaoedd iau a C2DE nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd yn ei gael gan y BBC ........ 52

5.7 Cynrychioli, portreadu a gwasanaethu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU drwy dynnu sylw at gynnwys a lleisiau chwaraeon o'r gwledydd a'r rhanbarthau a darparu llwyfan llinol ar gyfer talent newydd; ........ 55

5.8 Ehangu'r amrywiaeth o chwaraeon sy'n cael eu cynrychioli ar wasanaethau sain llinol y BBC, yn enwedig y rheini sy'n cael llai o sylw darlledu ar hyn o bryd. ........ 58

5.9 Gwella'r broses o ganfod cynnwys chwaraeon ar-alw ar BBC Sounds drwy amlygrwydd ar radio rhwydwaith ........ 62

5.10 Ein casgliadau ynghylch gwerth cyhoeddus ....63

**6. Effaith bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ....64**

6.1 Cynnydd yn y nifer sy'n gwrando ar 5 Sports Extra ....64

6.2 Risg y bydd ein cynnig yn gwthio cystadleuwyr o'u lle ....66

6.3 Casgliadau ynghylch effaith bosibl y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ....72

**7. Prawf Budd y Cyhoedd ....73**

7.1 Y Cefndir....73

7.2 A yw'r newid arfaethedig yn newid sylweddol? ....74

7.3 A yw'r newid arfaethedig yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus?....74

7.4 A yw'r BBC wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol?....74

7.5 A yw gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol? ....75

7.6 Casgliad ....75

**Atodiad 1: Ymatebion i'r ymgynghoriad ....76**

**Atodiad 2: Model ....83**

# 1. Crynodeb gweithredol

Fis Mawrth 2024, amlinellodd Tim Davie dair rôl hanfodol y gall y BBC eu chwarae ar gyfer democratiaeth, yr economi greadigol a chymdeithas, fel bod effaith y BBC yr un mor hanfodol yn y dyfodol ag y bu yn y gorffennol.  Y rhain oedd: mynd ar drywydd gwirionedd heb agenda; cefnogi adrodd straeon cartref; a dod â phobl at ei gilydd.

Fel rhan o'r nodau hyn, mae angen i'r BBC gael ei yrru gan anghenion cynulleidfaoedd ac nid gan rymoedd y farchnad fasnachol yn unig. Mewn sector creadigol cystadleuol iawn, mae'r BBC yn wynebu pwysau enfawr i ddarparu a buddsoddi mewn cynnwys creadigol unigryw o ansawdd uchel, a gwneud hynny'n effeithlon. Ar hyn o bryd mae'r BBC yn buddsoddi mwy mewn cynnwys gwreiddiol o Brydain nag unrhyw un arall, gan hyrwyddo talent newydd o bob rhan o'r DU gyda chefnogaeth gref ffi'r drwydded.

Yn ei araith, roedd Tim Davie hefyd yn nodi uchelgais i barhau i adeiladu'r BBC fel rhywle lle gall mwy o bobl ddod at ei gilydd i brofi pethau, rhannu safbwyntiau, cyfrannu, a theimlo'n rhan o lais y DU. Ochr yn ochr â hyn roedd angen pwysig i sicrhau ein bod yn gwneud y dewisiadau cywir i ariannu gwasanaeth cyhoeddus cyffredinol ar gyfer y tymor hir. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r BBC wedi edrych ar strategaethau i ddiwygio a chynnal gwerth i dalwyr ffi'r drwydded, yn ogystal â denu buddsoddiad a gwneud arbedion yn fewnol.

Er mwyn sicrhau stiwardiaeth effeithlon dros ffi'r drwydded a mynd ar drywydd ein huchelgais i gefnogi ein cynnwys creadigol ac unigryw a dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd, rydym wedi edrych ar ffyrdd o wella ein gwasanaethau i gynyddu gwerth i gynulleidfaoedd, a gwelliannau sy'n dangos potensial sylweddol i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd.

Yn gynharach eleni, fel rhan o'r strategaeth hon, fe wnaethom gyhoeddi cynnig i ymestyn oriau darlledu 5 Sports Extra i'w newid o orsaf 'rhan amser' yn orsaf 'amser llawn'. O dan y cynnig hwn, byddai'r orsaf yn gwella ei darpariaeth bresennol o sylwebaeth fyw ar chwaraeon gyda chasgliad o bodlediadau chwaraeon gorau Prydain sydd ar gael ar BBC Sounds ar hyn o bryd ac ail-chwarae llu o sylwebaethau chwaraeon a ddarlledwyd yn flaenorol.

Ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom gymryd y cam cyntaf ar gyfer Prawf Budd y Cyhoedd ein cynnig drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a nodi'n fanwl ein cynigion ar gyfer y newidiadau hyn ochr yn ochr â'n hasesiad cychwynnol o'r farchnad a'n dadansoddiad o werth cyhoeddus posibl. Yn ogystal ag ystyried ymatebion gan randdeiliaid, ers hynny rydym wedi cynnal ymchwil fanwl i gynulleidfaoedd ac rydym wedi modelu effaith bosibl y newidiadau ar y farchnad. Mae'r ymchwil a'r dadansoddiad hwn wedi'u nodi yn y ddogfen hon.

Ar ôl adolygu ein canfyddiadau a'r ymatebion i'r cynnig, rydym yn credu y bydd y newidiadau fel y nodir yn yr asesiad hwn yn erbyn y Prawf Budd y Cyhoedd[1] yn darparu gwerth sylweddol i'r cyhoedd o ran gwerth am arian, darparu ar gyfer cynulleidfaoedd nad

[1] Fel y nodir yng Nghymal 8 y Cytundeb Fframwaith gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig Rhagfyr 2016.

ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gwella cynrychiolaeth a phortread, darparu amrywiaeth eang o raglenni chwaraeon a helpu i ganfod cynnwys chwaraeon ar-alw ar BBC Sounds.

Dangosodd ein dadansoddiad o'r effaith debygol ar y farchnad effaith niweidiol sylweddol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. O'r herwydd, fe wnaethom benderfynu lliniaru'r effaith hon drwy leihau'r oriau darlledu arfaethedig yn sylweddol.

Rydym o'r farn y gallai'r newid arfaethedig gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ond mae'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r cynnig i liniaru'r risg hon a'r gwerth cyhoeddus uchel posibl a gyflawnir yn cyfiawnhau'r effaith hon. Bydd yr estyniad i 5 Sports Extra yn creu mwy o werth i dalwyr ffi'r drwydded y BBC a bydd yn cyfrannu at wella'n barhaus sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

## 1.1 Cynigion y BBC ar gyfer 5 Sports Extra

Ym mis Chwefror 2024, roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig. Cawsom 11 o ymatebion i'r ymhynghoriad. Roedd 8 gan randdeiliaid yn y diwydiant, a chadarnhaodd 6 rhanddeiliad arall yn y diwydiant na fyddent yn cyflwyno unrhyw beth i'r ymgynghoriad. Cafwyd 3 ymateb gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd yr ymatebion yn bennaf gan randdeiliaid yn y diwydiant, gan gynnwys darlledwyr radio masnachol, cyrff cynrychioli deiliaid hawliau a chwmnïau cynhyrchu annibynnol.

Yn yr asesiad hwn, rydym yn nodi'n fanwl sut rydym wedi ystyried ymatebion rhanddeiliaid ac rydym yn nodi ein cynigion terfynol sydd wedi cael eu hasesu gennym yn erbyn y Prawf Budd y Cyhoedd.

I grynhoi, bydd ein cynigion yn gwneud y canlynol:

- Ymestyn oriau darlledu BBC 5 Sports Extra, i'w newid o orsaf 'rhan amser' yn orsaf heb oriau darlledu penodol, ag oriau estynedig sy'n darlledu bob dydd rhwng 9am a 7pm.
- Ategu'r chwaraeon sy'n cael eu darlledu'n fyw ar hyn o bryd ar 5 Sports Extra gyda chatalog o bodlediadau chwaraeon presennol y BBC a gynhyrchwyd ledled y DU, ac ail-chwarae sylwebaeth chwaraeon a ddarlledwyd yn flaenorol.
- Darparu gwerth sylweddol i dalwyr ffi'r drwydded drwy wneud defnydd mwy effeithlon o'r sbectrwm sydd ar gael a'r cynnwys presennol sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded.
- Cyflwyno mwy o gynnwys sy'n darparu'n well ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC drwy ddarparu gorsaf radio chwaraeon llinol barhaus a nodedig
- Darparu cynrychiolaeth a phortread gwell ar radio chwaraeon llinol drwy ddarparu cynnwys chwaraeon o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r DU.
- Ehangu'r amrywiaeth o gynnwys chwaraeon sy'n cael ei ddarlledu ar radio cenedlaethol ar hyn o bryd, drwy ddod â lleisiau o'r gwledydd a'r rhanbarthau i gynulleidfaoedd a dangos mwy o chwaraeon a fyddai fel arfer yn cael llai o sylw ar radio cenedlaethol.
- Gwella'r broses o ganfod cynnwys chwaraeon ar-alw ar BBC Sounds drwy dynnu sylw at gatalog chwaraeon ar-alw y BBC ar orsaf radio llinol genedlaethol.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'r cynigion hyn yn golygu unrhyw gynnydd i gyllideb hawliau chwaraeon sain y BBC nac oriau darlledu chwaraeon byw. Mae'r cynnig i 5 Sports Extra fod yn orsaf oriau estynedig yn canolbwyntio ar ddefnyddio rhaglenni chwaraeon presennol (sef podlediadau ac ailddarlledu sylwebaeth fyw) ac nid yw'n dibynnu ar gaffael hawliau chwaraeon ychwanegol.

## 1.2 Bydd ymestyn 5 Sports Extra yn sicrhau gwerth cyhoeddus uchel

Mae ein dadansoddiad o werth cyhoeddus – sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan MTM, ymatebion i'n hymgynghoriad (11 ohonynt), a gwaith modelu o'r defnydd – yn dangos y bydd gwerth cyhoeddus ein cynigion yn amlwg yn sylweddol. Rydym wedi asesu'r gwerth hwnnw ar dair lefel: gwerth personol, gwerth cymdeithasol a gwerth i'r diwydiant.

### *1.2.1 Gwerth Personol*

Mae hyn yn golygu i ba raddau y bydd ein newidiadau yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd, yn parhau i gynnig gwasanaeth gwirioneddol gyffredinol iddynt, ac felly'n darparu gwerth da am arian o ran ffi'r drwydded. Yn benodol, mae ymatebion rhanddeiliaid a'n hymchwil cynulleidfa yn cefnogi ein barn y bydd y cynnig yn:

- Cynyddu gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded drwy wneud defnydd mwy effeithlon o'r oriau darlledu a'r sbectrwm sydd ar gael. Mae ein hymchwil cynulleidfa yn cefnogi ein damcaniaeth bod 7 o bob 10 o wrandawyr radio chwaraeon rhwng 25 a 44 oed yn teimlo bod cynnig y BBC yn apelio iddynt.
- Cynyddu'r dewis sydd ar gael i wrandawyr radio chwaraeon drwy ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys sain chwaraeon, sy'n wahanol i'r arlwy masnachol presennol.
- Darparu'n well ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU gyda chynnwys chwaraeon sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u diddordebau.
- Cryfhau ac ehangu'r amrywiaeth o chwaraeon sy'n cael eu cynrychioli ar wasanaeth sain llinol y BBC drwy wasanaethu cynulleidfaoedd radio chwaraeon yn well gyda chynnig unigryw o chwaraeon ar draws amrywiaeth eang o gynnwys.
- Gwella'r broses o ganfod cynnwys sain chwaraeon nad yw'n fyw sydd ar gael gan y BBC ar Sounds.

### *1.2.2 Gwerth i gymdeithas*

Mae hyn yn golygu i ba raddau y gall ein newidiadau hybu gwerth cymdeithasol. Ein prif ddiffiniad ni o hynny yw sut bydd newid yn galluogi'r BBC i gyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn well. Yn benodol, bydd y newid yn gwneud y canlynol:

- Gwasanaethu C2DE a chynulleidfaoedd iau yn well ar radio llinol gyda chynnwys chwaraeon sy'n berthnasol ac o ddiddordeb iddynt. Mae ein hymchwil cynulleidfa yn dangos cefnogaeth gref gan gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd ar draws radio rhwydwaith y BBC. Dywedodd dros hanner (56%) y cynulleidfaoedd iau (25-44) C2DE y byddai'r orsaf arfaethedig yn cynnig gwasanaeth sain o ansawdd uchel, gyda 38% yn dweud eu bod yn debygol o ystyried gwrando. Ar gyfer gwrandawyr C2DE yn gyffredinol, dywedodd 67% eu bod yn debygol o ystyried gwrando ar yr orsaf arfaethedig.

Dywedodd 39% o wrandawyr iau (25-44) eu bod yn debygol o wrando ar yr orsaf arfaethedig.

- Diogelu gallu'r BBC i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus i bob cynulleidfa – gan gynnwys cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol – ac felly cefnogi dyfodol hirdymor y BBC. Canfu ein hymchwil cynulleidfa fod cynulleidfaoedd C2DE yn gadarnhaol y byddai'r newid yn cynnig rhywbeth gwahanol i'r hyn mae radio masnachol yn ei gynnig ac y bydd yn cynnig gwasanaeth sain o ansawdd uchel. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y byddai'r newid yn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer y rheini nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan wasanaethau'r BBC ac roeddent yn credu y byddai'r newid yn cynyddu ymwybyddiaeth o bodlediadau'r BBC, yn gwasanaethu cynulleidfaoedd C2DE ac yn dod â chystadleuaeth gadarnhaol i'r farchnad.
- Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU drwy dynnu mwy o sylw at gynnwys a lleisiau chwaraeon o'r gwledydd a'r rhanbarthau. Bydd yr estyniad yn galluogi'r BBC i wneud defnydd sylweddol o'i bortffolio o gynnwys chwaraeon ar-alw. Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno y byddai cynulleidfaoedd yn elwa o well cynrychiolaeth a darpariaeth o bodlediadau chwaraeon o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r DU.
- Bydd yn darparu amrywiaeth ehangach o gynnwys ar radio rhwydwaith ar draws amrywiaeth eang o chwaraeon gan fanteisio ar ehangder llawn arlwy ar-alw y BBC i lenwi'r amserlen a gwella'r arlwy chwaraeon byw presennol gyda mwy o gynnwys podlediad ar gyfer chwaraeon sy'n cael llai o sylw.
- Cefnogi Cenhadaeth y BBC i ddarparu gwerth da am arian yn gyfnewid am ffi'r drwydded drwy roi cyfle i ddefnyddio cynnwys sy'n cael ei ariannu gan y drwydded i gynyddu cyrhaeddiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU.

### *1.2.3 Gwerth i'r Diwydiant*

Ystyr gwerth i'r diwydiant yw'r graddau y gall ein newidiadau fod yn rym creadigol drwy gefnogi buddsoddiad, hybu arloesedd, a siapio ac ysgogi'r economi greadigol ledled y DU.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn darparu 'ffenestr' ychwanegol ar gyfer podlediadau chwaraeon a bydd yn cynyddu cyrhaeddiad a gwrandawyr cynnwys a gomisiynir gan y BBC, gan gynnwys y rheini gan gynhyrchwyr annibynnol. Gall argaeledd y cyrhaeddiad ehangach hwn annog mwy o arloesi a chreadigrwydd yn y genre er budd y cynulleidfaoedd anos eu cyrraedd y mae ein hymchwil yn awgrymu y byddant yn elwa o'r newidiadau.

Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y bydd ein cynigion yn darparu gwerth cyhoeddus uchel mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gefnogi cenhadaeth y BBC i "wasanaethu ei holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd ac unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu", yn ogystal â chefnogi Dibenion Cyhoeddus y BBC fel y nodir yn y Siarter.

## 1.3 Effaith ar gystadleuaeth deg ac effeithiol

Mae ein dadansoddiad o'r effaith debygol ar y farchnad yn dangos effaith niweidiol sylweddol bosibl ar unig ddarlledwr radio chwaraeon y farchnad. Rydym wedi mynd i'r afael â'r dadansoddiad hwn drwy fodelu senario sy'n creu diwrnod enghreifftiol ar gyfer 5 Sports Extra. Mae'r model hwn yn tybio bod nifer o slotiau yn yr amserlen yn ystod y flwyddyn yn debygol o fod yn slotiau hawliau chwaraeon gyda'r gweddill yn cael eu llenwi

â phodlediadau. Mae'r diwrnod enghreifftiol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn yn arwain at gynnydd o tua 52% yn nifer y gwrandawyr. Rydym wedi defnyddio hyn mewn rhagolwg llinol syml o nifer y gwrandawyr ar gyfer y BBC a nifer y gwrandawyr a refeniw ar gyfer gorsafoedd cymharol.

Oherwydd cyfansoddiad marchnad radio masnachol chwaraeon, ni fydd y newidiadau i orsaf estynedig 5 Sports Extra yn effeithio llawer ar y farchnad. Y rheswm am hyn yw mai dim ond dwy orsaf radio fasnachol yn y DU sy'n darparu rhaglenni chwaraeon yn ei hamserlen amser llawn, sef talkSPORT a talkSPORT 2, ac mae'r ddwy yn eiddo i News UK (ac yn rhedeg fel rhan o uned fusnes News Broadcasting).

O ystyried pwrpas Prawf Budd y Cyhoedd, rydym wedi delio ag ansicrwydd yn ein gwaith modelu mewn ffordd geidwadol – hy, gwyro at oramcangyfrif effaith y BBC ar y farchnad. O'r herwydd, mae'r amcangyfrifon o'r effaith ar y farchnad yn cynrychioli'r 'senario gwaethaf posibl' rhesymol, ond ni ddylid eu dehongli fel amcanestyniadau gwrando'r busnes ar gyfer y sianel estynedig.

Canfu ein dadansoddiad:

- Mae ein model yn awgrymu cynnydd o 33% yn nifer y gwrandawyr ar orsaf estynedig 5 Sports Extra o fewn tair i bum mlynedd i roi'r newid ar waith, gan arwain at 1.6 miliwn o oriau ychwanegol yr wythnos o wrando
- Rydym o'r farn ei bod yn debygol y bydd yr holl gynnydd hwn yn cael effaith ar yr orsaf chwaraeon a'r orsaf nad yw'n chwaraeon, y ffynonellau tebygol mwyaf yw gwasanaethau radio eraill y BBC (gan gynnwys Radio 2, Radio 4 a Radio Lleol), talkSPORT, Global a Bauer. Ar sail y dybiaeth hon, rydym wedi tybio y bydd y cynnydd yn y nifer sy'n gwrando ar 5 Sports Extra yn 25% o wasanaethau radio eraill y BBC, 50% o orsafoedd talkSPORT, a 25% o orsafoedd radio masnachol eraill.
- Ar sail statig, mae'n debygol y bydd y newid yn arwain at ostyngiad o tua 4.2% yn nifer y gwrandawyr ar talkSPORT a talkSPORT 2
- Rydym yn amcangyfrif y gallai hyn leihau cyfanswm refeniw News Broadcasting UK[2] hyd at 1.6%
- Lleihau proffidioldeb News Broadcasting UK hyd at 1.5pc
- Gellir disgwyl yn rhesymol i gystadleuwyr masnachol fod â strategaethau amrywiol i ymateb yn ddeinamig i lansiad 5 Sports Extra er mwyn lliniaru unrhyw golled o ran gwrandawyr ac felly colledion refeniw, ee drwy fabwysiadu strategaethau rhaglennu sydd wedi'u llunio i gadw neu ennill gwrandawyr yn ôl.

Mae'r dadansoddiad a nodir uchod yn statig, hy mae'r model canlyniadau'n cynrychioli'r effaith bosibl cyn caniatáu ar gyfer ymateb deinamig gan News Broadcasting a allai liniaru'r effaith. Rydym o'r farn mai cyfyngedig yw'r ymatebion deinamig posibl sydd ar gael gan News Broadcasting o ystyried argaeledd a chostau cyfyngedig hawliau chwaraeon poblogaidd a heriau amserlennu. Fodd bynnag, byddem yn nodi bod News Broadcasting wedi arloesi'n ddiweddar fel yr orsaf radio fasnachol gyntaf i ddarlledu'r Gemau Olympaidd.

---

[2]News Broadcasting yw uned darlledu radio News UK. Yn ogystal â gorsafoedd talkSPORT, mae'n cynnwys gorsafoedd cerddoriaeth Virgin, Times Radio a Talk Radio.

## 1.4 Prawf Budd y Cyhoedd

Mae'n rhaid i'r BBC ymgymryd â Phrawf Budd y Cyhoedd os yw'n credu bod newid arfaethedig yn sylweddol, hy mae'r newid naill ai'n Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU neu unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Ystyr Prawf Budd y Cyhoedd yw bod yn rhaid i'r BBC fod yn fodlon:

a) Bod y newid arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus yn y DU yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo un neu fwy o Ddibenion Cyhoeddus y BBC;
b) Ei fod wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol;
c) Bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol."

Ar ôl i'r BBC gyhoeddi'r newid arfaethedig, "mae'n rhaid i Ofcom asesu a yw'r newid yn sylweddol". Os bydd Ofcom yn penderfynu bod y newid arfaethedig yn un o bwys, bydd yn rhaid i Ofcom gynnal Asesiad o'r Gystadleuaeth neu Asesiad Byrrach. "Pan fydd Ofcom wedi rhoi gwybod i'r BBC nad yw'n credu bod y newid arfaethedig yn sylweddol, caiff y BBC wneud y newid arfaethedig", a "Pan fydd cyfnod o chwe wythnos wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r newid arfaethedig, ac nid yw Ofcom wedi rhoi gwybod i'r BBC a yw'n credu bod y newid arfaethedig yn sylweddol ai peidio, caiff y BBC wneud y newid arfaethedig."

Bydd ymestyn oriau 5 Sports Extra yn cyfrannu at gyflawni'r Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni'r pedwar diben cyhoeddus drwy: 1) darparu newyddion a digwyddiadau chwaraeon cyfoes; 2) sylwebaeth a phodlediadau chwaraeon sy'n llawn gwybodaeth; 3) rhaglenni creadigol ac unigryw o ansawdd uchel; a 4) adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cynulleidfaoedd iau o bob rhan o'r DU a phob grŵp amrywiol drwy ehangu'r arlwy chwaraeon i gefnogwyr.

Mae ein dadansoddiad o'r effaith debygol ar y farchnad yn dangos effaith niweidiol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, yn benodol ar talkSPORT, yr unig ddarlledwr radio chwaraeon masnachol yn y farchnad (gweler Adran 6 i gael rhagor o fanylion am yr effaith ar y farchnad). Er mwyn lliniaru'r effaith hon a mynd i'r afael â phryderon gan randdeiliaid, rydym wedi lleihau oriau darlledu arfaethedig yr orsaf estynedig. Yn benodol, rydym wedi lleihau'r oriau darlledu ychwanegol arfaethedig 45%, o'n cynnig cychwynnol o 6am i 10:30pm bob dydd i'n cynnig terfynol o 9am i 7pm bob dydd. Byddwn hefyd yn dileu slot cyd-ddarlledu 5 Live ar 5 Sports Extra a oedd yn cynnwys sylwebaeth heb fod yn fyw. Bydd yr orsaf yn dal i gadw'r gallu i gyd-ddarlledu sylwebaeth fyw ar 5 Live. Er gwaethaf y newid hwn, credwn yn gryf y bydd yn dal i'n galluogi i gyflawni amcanion y newidiadau. Rydym yn credu y bydd y cynnig yn darparu gwerth cyhoeddus sylweddol o ran gwerth am arian, gan ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gwella cynrychiolaeth a phortread, darparu amrywiaeth eang o raglenni chwaraeon a helpu i ganfod cynnwys chwaraeon ar-alw ar BBC Sounds. Felly, rydym wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na fydd y newid arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth yn effeithiol a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus.

Ar y sail hon, rydym o’r farn bod y newid arfaethedig yn cyfiawnhau’r effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, a bod y Prawf Budd y Cyhoedd yn cael ei fodloni.

# 2. Cyd-destun ein cynigion

Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r cyd-destun allweddol sy'n sail i'n cynigion, gan gynnwys yr amrywiaeth a'r defnydd o sain ar gyfer gwrando ar chwaraeon, datblygiadau a newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, maint y farchnad radio chwaraeon masnachol, a chyd-destun ariannol a chyfeiriad strategol y BBC ar gyfer 5 Sports Extra.


## 2.1 Yr amrywiaeth a'r defnydd o sain ar gyfer gwrando ar chwaraeon

Mae bron 100 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r digwyddiad chwaraeon awyr agored cyntaf erioed gael ei ddarlledu yn y Deyrnas Unedig, sef gêm ryngwladol Rygbi'r Undeb rhwng Cymru a Lloegr yn Twickenham, gyda sylwebaeth fyw ar radio'r BBC ym mis Ionawr 1927. Yr un mis hwnnw, gwelwyd darllediad radio cyntaf y BBC o gêm gynghrair rhwng clwb pêl-droed Arsenal a Sheffield United yn Highbury.

Dros y 100 mlynedd hwnnw, mae fformat ac arddull darlledu chwaraeon ar y radio wedi newid yn sgil technolegau newydd ac ymddygiad a disgwyliadau cynulleidfaoedd sy'n newid yn gyson. Yn benodol, dros y degawdau diwethaf, mae ffyrdd newydd o ddosbarthu a chael gafael ar gynnwys wedi arwain at fwy o ddarparwyr a gwasanaethau ar-alw newydd ar-lein. Mae sain ar-lein wedi arwain at newid mewn ymddygiad gwrando, yn enwedig ar gyfer cynulleidfaoedd iau, ac mae'n dal yn well ganddynt ddefnyddio llwyfannau ar-alw i wrando ar sain yn hytrach na defnyddio radio llinol.


Gallwn weld yr effaith mae newidiadau mewn ymddygiad cynulleidfaoedd a sain ar-lein wedi'i chael ar batrymau gwrando ar y radio yn gyffredinol yn y DU dros y degawd diwethaf, gyda nifer y gwrandawyr yn parhau i ostwng, yn enwedig ymysg gwrandawyr iau. Ers 2019, mae'r patrymau gwrando ar radio byw ar gyfer pob oedolyn a'r grŵp rhwng 15 a 34 oed wedi aros yn sefydlog heb unrhyw dwf. I'r gwrthwyneb, mae gwrando ar gerddoriaeth a phodlediadau ar-alw wedi cynyddu'n sylweddol. Dros y cyfnod o 5 mlynedd, mae gwrando ar gerddoriaeth ar-alw wedi cynyddu 33% ar gyfer pob oedolyn a 17% ar gyfer plant 15-34 oed. Ers 2019, mae nifer yr oedolion sy'n gwrando ar bodlediadau wedi cynyddu 28%, ac mae wedi cynyddu 20% ar gyfer pobl 15 – 34 oed.

**Ffigur 1: Gwrando ar sain yn ôl math o gynnwys (pob oedolyn mewn miloedd)**




*Ffynhonnell: RAJAR*

**Ffigur 2: Gwrando ar sain yn ôl math o gynnwys (grŵp 15 - 34 oed mewn miloedd)**




*Ffynhonnell: RAJAR*

Er gwaethaf y duedd hon o ran lefelau gwrando ar sain, bydd pobl sydd am wrando ar y digwyddiad chwaraeon sylweddol diweddaraf yn fyw gyda sylwebaeth yn dal i orfod

gwrando ar rwydwaith radio traddodiadol, boed hynny drwy radio ar-lein neu radio llinol. Mae hyn oherwydd natur y farchnad sain hawliau chwaraeon yn y DU. Fel arfer, rhwydweithiau radio'r DU sydd wedi cystadlu dros y chwaraeon mwyaf poblogaidd (pêl-droed Uwch Gynghrair Lloegr a chriced, rygbi a bocsio dynion) ac nid ydynt hyd yma wedi denu diddordeb gan lwyfannau ffrydio ar-alw fel Spotify.

Ar gyfer cynulleidfaoedd sydd eisiau gwrando ar fwy o gynnwys chwaraeon, mae'r profiad sain wedi'i rannu ar draws amrywiol genres a chyfryngau ac nid yw wedi'i gyfyngu i sylwebaeth fyw ar chwaraeon yn unig. Gellir crynhoi hyn ar draws:

- Sylwebaeth fyw ar chwaraeon – y math mwyaf amlwg o wrando (ee sylwebaeth fyw ar Bêl-droed Uwch Gynghrair Lloegr, Wimbledon) ac ar hyn o bryd mae wedi'i gyfyngu i'r chwaraeon mwyaf poblogaidd ar rwydweithiau radio.
- Rhaglenni byw i baratoi ar gyfer chwaraeon – sylwebaethau byw cyn neu ar ôl chwaraeon fel arfer, sydd ar gael ar draws llwyfannau radio.
- Rhaglenni i drafod chwaraeon byw – rhaglen gyda gwesteiwr neu westeiwyr sy'n gallu arwain cast neu banel i drafod materion chwaraeon amserol a / neu gymryd galwadau gan wrandawyr ar yr awyr (ee Sports Bar talkSPORT).
- Rhaglenni neu bodlediadau chwaraeon annibynnol sydd wedi'u recordio ymlaen llaw (ee rhaglenni dogfen chwaraeon o gyd-destun hanesyddol neu fywgraffyddol, podlediadau chwaraeon sy'n trafod y pynciau diweddaraf neu bynciau neu bersonoliaethau sy'n ymwneud â chwaraeon) sydd ar gael ar rwydweithiau radio ac ar-lein, ee podlediadau ar-alw.

Mae'r gystadleuaeth sy'n wynebu'r BBC o ran gwrandawyr sain chwaraeon yn dod o'r teledu (drwy gwmnïau fel Sky a'i bodlediadau a'i raglenni sain sy'n trafod chwaraeon), drwy lwyfannau ar-alw gan gwmnïau sy'n cael eu harwain gan dalentau fel Goalhanger (*The Rest is Football*), drwy sefydliadau cyfryngau print fel The Guardian (*Football Weekly*), The Times (*The Ruck Rugby Podcast*) a The Daily Mail (*It's All Kicking Off*) ac yn olaf, ar y radio drwy orsafoedd radio chwaraeon masnachol talkSPORT a talkSPORT 2.

Gellir cael gafael ar y cynnwys hwn drwy wahanol wasanaethau a llwyfannau, gan gynnwys: setiau teledu clyfar, seinyddion clyfar, llwyfannau ffrydio fideos ar-lein (ee YouTube, Amazon), cyfunwyr podlediadau neu lwyfannau ffrydio sain ar-lein (fel Apple Podcasts neu Spotify), sain ar-lein drwy dudalennau gwe (ee drwy'r wefan ar-lein talkSPORT), llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (ee X (Twitter gynt), Facebook) a llwyfannau newyddiaduraeth chwaraeon (ee The Athletic, BBC Sport).

### *2.1.1 Dim ond dwy orsaf chwaraeon benodol amser llawn sydd ar gael ar radio yn y DU*

Er bod lefel eang o ddewis i gynulleidfaoedd chwaraeon ddefnyddio cynnwys sain, mae rhwydweithiau radio llinol yn dal yn hanfodol i gynulleidfaoedd. Ym marchnad chwaraeon bresennol y DU, mae hawliau sain byw ond yn cael eu rhannu ar draws ddau rwydwaith sy'n cystadlu â'i gilydd, sef y BBC a News Broadcasting, ac mae data RAJAR yn dangos bod y lefelau gwrando uchaf ar draws y rhwydweithiau chwaraeon perthnasol yn aml yn digwydd yn ystod sylwebaethau byw ar chwaraeon, wedi'u dominyddu gan dair hawl chwaraeon allweddol, sef pêl-droed yr uwch gynghrair, rygbi a chriced. Bydd cynulleidfaoedd yn y DU yn gweld mai dim ond dau rwydwaith radio amser llawn sydd

wedi'u neilltuo ar gyfer chwaraeon, sef talkSPORT a talkSPORT 2, ac mae'r naill a'r llall yn eiddo i News Broadcasting.

Mae'r BBC yn darparu cynnwys sain chwaraeon ar draws 5 Live a 5 Sports Extra. Fodd bynnag, dim ond 'rhan-amser' y mae 5 Sports Extra yn ei ddarlledu ac mae 5 Live yn orsaf newyddion a materion cyfoes yn bennaf a rhaid iddo neilltuo o leiaf 70% o'i oriau darlledu i newyddion a materion cyfoes.

Mae 5 Sports Extra, fel y nodir uchod, yn orsaf 'rhan amser', sy'n darlledu sylwebaeth fyw ar chwaraeon yn ogystal â'r hyn a ddarlledir ar 5 Live. Ar draws 2023/24, dim ond 35% o gyfanswm amser darlledu'r orsaf a ddefnyddiwyd i sylwebu'n fyw ar chwaraeon, gyda'r amser a oedd yn weddill ar yr awyr yn llawn dolenni cynnal heb gynnwys chwaraeon na chynnwys arall.

Yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom nodi rhagor o fanylion am gyfansoddiad gwrandawyr radio chwaraeon yn y DU fel y disgrifir uchod. Yn y papur hwnnw, fe wnaethom nodi y byddai ein dadansoddiad ar effaith ein cynnig yn canolbwyntio ar yr effaith ar talkSPORT a talkSPORT 2, gan roi ystyriaeth ychwanegol i'r farchnad radio chwaraeon ehangach.

**Ffigur 3: Crynodeb o 5 Sports Extra a'i chystadleuwyr**


| Enw | Ardal Ddarlledu | Oriau Darlledu y flwyddyn | Dosbarthiad | Cyrhaeddiad ymysg y Boblogaeth (m) | Cyfran (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| **5 Live** | Cenedlaethol | 8,760 | MW, DAB, Sounds, apiau ar-lein, seinyddion clyfar a'r teledu | 4.89 | 2.9% |
| **5 Sports Extra** | Cenedlaethol | 3,091 | DAB, Sounds, apiau ar-lein, seinyddion clyfar a'r teledu | 0.97 | 0.2% |
| **talkSPORT** | Cenedlaethol | 8,760 | MW, DAB, ap talkSport, ar-lein Seinyddion clyfar a'r teledu | 3.39 | 2.1% |
| **talkSPORT 2** | Cenedlaethol | 8,760 | DAB+, ap talkSport, ar-lein Seinyddion clyfar a'r teledu | 0.56 | 0.1% |

*Ffynhonnell: RAJAR Ch1 2024*

### *2.1.2 Mae nifer y gwrandawyr ar orsafoedd radio chwaraeon yn y DU wedi aros yn sefydlog ers 2021 gyda darparwyr masnachol yn cael cynnydd sylweddol mewn gwrandawyr*

Dros y ddwy flynedd diwethaf (rhwng Ch1 2022 a Ch1 2024) mae talkSPORT a talkSPORT 2 wedi bod yn perfformio'n dda ac wedi gwneud cynnydd cyson yn y farchnad gyda chynnydd o 17.7% mewn cyrhaeddiad ar draws y ddwy orsaf. O gymharu, mae 5 Live a 5 Sports Extra wedi gweld gostyngiad o 9.5% dros yr un cyfnod. Mae rhagor o fanylion yn y dadansoddiad isod.


**Ffigur 4: Cyrhaeddiad chwarterol cynulleidfa 15 oed a hŷn ar gyfer gorsafoedd chwaraeon yn y DU (miloedd)**




*Ffynhonnell: RAJAR*

Bu cynnydd sylweddol yn oriau gwrando cynulleidfaoedd ar orsafoedd masnachol talkSPORT a talkSPORT 2. Rhwng Ch1 2022 a Ch1 2024, roedd cynnydd o 41.7% yn yr oriau gwrando ar gyfer y ddwy orsaf gyda'i gilydd. Fodd bynnag, ar gyfer 5 Live a 5 Sports Extra, bu gostyngiad o 10.4% yn yr oriau gwrando dros yr un cyfnod. Wrth fesur lefelau gwrando'r pedair gorsaf ar gyfer slotiau chwaraeon yn unig, mae'r oriau gwrando wedi cynyddu 7.2% ers Ch1 2022.

**Ffigur 5: Oriau gwrando chwarterol oedolion 15 oed a hŷn ar gyfer gorsafoedd chwaraeon yn y DU (miloedd)**




*Ffynhonnell: RAJAR*


### *2.1.3 Sylwebaeth Fyw ar Chwaraeon*

Chwaraeon byw yw'r prif beth sy'n denu gwrandawyr i radio chwaraeon yn y farchnad ac ar y BBC. Er bod cynnwys chwaraeon yn cynrychioli cyfran fach o arlwy 5 Live, mae cyrhaeddiad cynnwys chwaraeon ymysg y prif ffactorau sy'n sbarduno ymgysylltiad â'r orsaf. Yn benodol, sylwebaethau byw ar chwaraeon sydd â'r cyrhaeddiad a'r ymgysylltiad uchaf o ran cynulleidfaoedd ar radio llinol. Mae pa mor effeithiol yw'r cyrhaeddiad hwnnw yn dibynnu ar yr hawliau sydd ar gael i'r rhwydwaith.

Fel mae'r siart isod yn ei ddangos, mae 5 Live a talkSPORT yn cyrraedd y gynulleidfa fwyaf ar y diwrnodau y mae'r orsaf yn darlledu'n fyw ar chwaraeon. Er y gallwn weld bod y slotiau brecwast cynnar a bore rhwng 6am ac 11am ar talkSPORT hefyd yn perfformio'n dda gyda chynulleidfaoedd.


Mae ffigurau gwrando ar y penwythnosau hynny pan fydd chwaraeon byw hefyd yn dangos bod nifer y gwrandawyr yn cynyddu yn y cyfnod sy'n arwain at chwaraeon byw, ond mae'n gostwng yn sylweddol ar ôl i'r chwaraeon byw ddod i ben. O gymharu, mae diwrnodau nad ydynt yn darlledu chwaraeon byw yn cyrraedd cynulleidfaoedd llai drwy gydol y dydd.

**Ffigur 6: Cyrhaeddiad cynulleidfa ar gyfer 5 Live gan gymharu'r gwrando ar benwythnos nodweddiadol gyda chwaraeon byw a dyddiau lle nad oes fawr ddim chwaraeon byw**




*Ffynhonnell: RAJAR Ch2 2024*

**Ffigur 7: Cyrhaeddiad cynulleidfa ar gyfer talkSPORT gan gymharu'r gwrando ar benwythnos nodweddiadol gyda chwaraeon byw a dyddiau lle nad oes fawr ddim chwaraeon byw**




*Ffynhonnell: RAJAR Ch2 2024*

## 2.2 Mae rhwydweithiau radio chwaraeon yn darparu cynigion unigryw ar gyfer eu cynulleidfaoedd targed, gan adeiladu ar gynnwys hawliau chwaraeon sydd ganddynt

Gan mai chwaraeon byw yw'r math o chwaraeon sain sy'n denu'r nifer uchaf o wrandawyr ar y radio, mae'r cynnig cyffredinol a ddarperir gan ddarlledwyr fel arfer yn cefnogi'r hawliau chwaraeon byw sydd ar gael i'r darlledwr hwnnw. Gall hyn fod ar ffurf rhaglenni trafod chwaraeon byw neu raglenni ffonio i mewn, lle mae gwesteiwyr yn gwahodd gwrandawyr i'w ffonio i drafod y pynciau a'r canlyniadau diweddaraf mewn chwaraeon. Ar ben hynny, mae podlediadau chwaraeon a chynnwys dogfennol wedi'u recordio ymlaen llaw yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd sydd eisiau ymgolli ymhellach mewn cynnwys sy'n gysylltiedig â'r gamp maen nhw'n ei dilyn, boed hynny'n drafodaeth ar y canlyniadau diweddaraf, ymchwiliadau manwl i hanes y gamp neu gynnwys sy'n canolbwyntio ar bersonoliaethau chwaraeon.

Isod, mae dadansoddiad manwl o'r ddau gynnig gwahanol a ddarperir gan y BBC a News Broadcasting.

### *2.2.1 Portffolio sain BBC Sports*

Mae chwaraeon yn rhan hanfodol o raglenni'r BBC ar draws ei holl wasanaethau sain. Gan fod cost hawliau fideo ar gyfer chwaraeon wedi cynyddu a bod mwy a mwy o chwaraeon byw ar gael ar wasanaethau teledu / ar-lein drwy dalu yn unig neu dalu-i-wylio, mae

gwasanaethau sain y BBC yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn darllediadau byw o chwaraeon a thrafodaethau chwaraeon sy'n gwasanaethu'r cyhoedd.

Ar hyn o bryd, mae'r BBC yn darlledu cynnwys sain chwaraeon ar draws gwahanol wasanaethau a llwyfannau, gan gynnwys:

- **5 Live** sy'n darlledu 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos gan ddarparu newyddion di-dor a darllediadau chwaraeon byw. Gydag o leiaf 70% o oriau darlledu'r BBC yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, mae'n gyfyngedig o ran faint o gynnwys chwaraeon sy'n cael ei ddarlledu ar yr orsaf, gan ganolbwyntio'n bennaf ar sylwebaeth fyw ar chwaraeon neu raglenni sy'n paratoi at ddigwyddiad[3]
- **5 Sports Extra** sy'n darlledu'n fyw o ddigwyddiadau chwaraeon, ond nid yw'n darlledu rhaglenni nad ydynt yn fyw neu nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon;
- **Gorsafoedd rhanbarthol lleol a'r gwledydd, gan gynnwys:** Mae BBC Radio Scotland, BBC Radio nan Gáidheal, BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, BBC Radio Ulster / Foyle ac English Local Radio yn darparu arlwy chwaraeon ac yn trafod chwaraeon yn eu priod ardaloedd darlledu;
- **BBC Sounds** y mae modd ei ddefnyddio i wrando ar unrhyw chwaraeon radio rhwydwaith[4], ac mae hefyd yn gartref i amrywiaeth eang o bodlediadau chwaraeon wedi'u comisiynu gan y BBC a rhaglenni wedi'u prynu ar gyfer amrywiaeth o wahanol chwaraeon, gyda chynnwys wedi'i greu gan dimau'r BBC ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n cynnwys lleisiau a straeon chwaraeon sy'n cynrychioli cynulleidfaoedd ledled y DU; ac
- Sylwebaeth a chynnwys sain drwy ap **BBC Sports**.

Ar hyn o bryd, mae gan y BBC hawliau i ddarlledu'n fyw ar gyfer 48 o wahanol gystadlaethau chwaraeon ar draws gwahanol chwaraeon, gan gynnwys pêl-droed Lloegr (yn cynnwys Uwch Gynghrair y dynion, Super League y merched…), criced, tenis, athletau, snwcer, golff a bocsio. Mae sylwebaeth fyw ar y campau hyn yn cael ei darparu ar radio rhwydwaith ar draws 5 Live a 5 Sports Extra. Yn 2023/24, ar y ddwy orsaf, fe wnaethom gyflwyno cynnwys chwaraeon (gan gynnwys rhaglenni a sylwebaeth fyw) ar draws 21 o chwaraeon, gweler ein dadansoddiad llawn isod.

**Ffigur 8: Chwaraeon a gafodd rhaglenni a sylwebaeth fyw yn 2023/24 ar 5 Live a 5 Sports Extra**

| ***5 Live a 5 Sports Extra – Darpariaeth Chwaraeon ar draws 2023/24*** | | |
|---|---|---|
| Pêl-droed Dynion | Formula One | NFL |
| Pêl-droed Merched | Criced Dynion | Nofio |
| Tenis | Criced Merched | Pêl-rwyd |
| Golff Dynion | Rygbi Merched | Para-athletau |
| Golff Merched | Rygbi Dynion | Snwcer |
| Bocsio Dynion | Rygbi'r Gynghrair Dynion | Athletau |

[3]Ar ôl cael ei leihau o 75% yn 2022 fel rhan o adolygiad Ofcom o'r Drwydded Weithredu.
[4] Mae eithriad ar gyfer rhai hawliau chwaraeon y gellir eu cyfyngu i'w darlledu ar orsafoedd Radio Lleol a'r Gwledydd.

| | | |
|---|---|---|
| Bocsio Merched | Rygbi'r Gynghrair Merched | Rasio Ceffylau |

### 2.2.1.1 5 Live

Mae 5 Live yn darparu cymysgedd o gynnwys chwaraeon a newyddion, yn unol â gofynion y drwydded weithredu, ac mae 70% o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar 5 Live yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Y math mwyaf amlwg o gynnwys chwaraeon sy'n cael ei ddarlledu ar 5 Live yw sylwebaeth fyw ar chwaraeon. Mae'r BBC yn darparu rhaglenni sylwebaeth fyw yn rheolaidd ar gyfer yr amrywiol hawliau chwaraeon sydd ganddo, yn ogystal â rhaglenni trafod chwaraeon a pharatoi ar gyfer chwaraeon cyn y digwyddiad. Fel arfer, y cynnwys chwaraeon byw hwn sy'n denu'r nifer uchaf o gynulleidfaoedd (fel y nodir yn y siart ffigurau gwrando dyddiol uchod). Ar draws 2023/24, dim ond 18.6% o holl ddarlledu ar-yr-awyr 5 Live oedd yn chwaraeon (edrychwch ar y dadansoddiad llawn isod).

**Ffigur 9: Dadansoddiad o oriau darlledu 5 Live yn 2023/24 yn ôl math o gynnwys**

| Genre | Oriau darlledu | Cyfran y cyfanswm (%) |
|---|---|---|
| *Newyddion* | 6,782 | 77.2% |
| *Chwaraeon* | 1,634 | 18.6% |
| *Adloniant* | 173 | 1.97% |
| *Ffeithiol* | 45 | 0.51% |
| *Cyflwyniad* | 150 | 1.71% |
| ***Cyfanswm yr oriau*** | **8,784** | **100%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

Mae ymgysylltiad cynulleidfaoedd â 5 Live yn mynd y tu hwnt i chwaraeon ac mae dadansoddiad o gyrhaeddiad rhaglenni ar yr orsaf yn dangos nad chwaraeon yw'r prif beth sy'n denu gwrandawyr. Yn Ch1 2024, roedd rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn cyrraedd ychydig mwy o gynulleidfaoedd ac roedd llawer mwy o oriau'n cael ei dreulio'n gwrando ar y math hwn o gynnwys.

**Ffigur 10: Cyrhaeddiad Cynulleidfa ac Oriau Gwrando Rhaglenni 5 Live**

| Rhaglenni 5 Live | Cyrhaeddiad | Oriau gwrando |
|---|---|---|
| *Newyddion* | 3.5m | 19.3m |
| *Chwaraeon* | 3.1m | 8.5m |

*Ffynhonnell: RAJAR, Dadansoddiad y BBC. Gwrando ar raglenni Chwaraeon a Newyddion. Nid yw'r oriau gwrando na'r cyrhaeddiad yn cynnwys bwletinau newyddion*

### 2.2.1.2 5 Sports Extra

Fel gorsaf ran-amser, mae 5 Sports Extra ond yn fyw pan fydd yn darparu sylwebaeth fyw ar chwaraeon. Byddai 5 Sports Extra fel arfer yn darlledu'n fyw ar lawer iawn o chwaraeon oherwydd y cyfyngiadau amser ar gyfer darlledu chwaraeon ar 5 Live. Mae hefyd yn galluogi'r BBC i wneud defnydd llawn o'r hawliau chwaraeon mae wedi'u caffael, i

ddarparu sylwebaeth fyw ar chwaraeon am ddim i gynulleidfaoedd – sy'n opsiwn pwysig i'r cynulleidfaoedd hynny nad ydynt yn gallu dilyn digwyddiad chwaraeon byw drwy fideo (gan fod y rheini fel arfer y tu ôl i waliau talu neu danysgrifiadau).

Ar draws 2023/24, mae'r ddarpariaeth fyw ar chwaraeon gan 5 Sports Extra wedi cynnwys Rygbi Dynion a Rygbi Merched, Formula One, Criced Dynion a Merched, NFL, Nofio a Phêl-rwyd. I gyd, fe wnaethom ddarparu 3,091 awr o sylwebaeth fyw ar chwaraeon drwy 5 Sports Extra ar draws 2023/24. Gan mai dim ond chwaraeon byw y mae 5 Sports Extra yn eu darlledu, roedd yr oriau ar yr awyr a oedd yn weddill yn ystod y cyfnod hwnnw yn ddolenni cynnal, sef 5,693 awr o gyfanswm yr oriau.

### *2.2.2 News Broadcasting*

Ar wahân i fod yn un o'r prif fusnesau cyfryngau yn y DU ac yn Iwerddon, gyda brandiau newyddion yn cynnwys The Times, The Sunday Times a The Sun, News UK, mae News Broadcasting, drwy ei is-gwmnïau, yn berchen ar amrywiol frandiau darlledu cenedlaethol gan gynnwys Virgin Radio UK, Talk, Times Radio a talkSPORT.

#### 2.2.2.1 TalkSPORT a talkSPORT 2

Mae cynnig presennol talkSPORT a talkSPORT 2 yn gymysgedd o chwaraeon byw a rhaglenni byw dan arweiniad cyflwynydd a chynnwys chwaraeon annibynnol. Mae'r rhaglenni sylwebaeth chwaraeon nad yw'n fyw fel arfer yn sioeau ar ffurf trafodaethau byw, yn bodlediadau ar ffurf sioeau sgwrsio neu'n rhaglenni dogfen. Un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar gyrhaeddiad gwrandawyr ar gyfer gorsafoedd radio chwaraeon yn y farchnad yw sylwebaeth fyw ar chwaraeon. Mae talkSPORT a talkSPORT 2 yn sylwebu'n fyw ar gymysgedd o ddigwyddiadau criced, bocsio, chwaraeon moduro, pêl-droed Americanaidd (NFL) a phêl-droed Lloegr (EFL, FA a'r Uwch Gynghrair), yn ogystal â phêl-droed Ewropeaidd (Champions League, Europa League ac Europa Conference League).

Mae amserlen talkSPORT fel arfer yn cynnwys rhaglen fyw ffonio i mewn yn y bore, diwedd y prynhawn a hwyr y nos gyda slotiau sylwebaeth fyw ar chwaraeon – ar gyfer chwaraeon y mae ganddo hawliau ar eu cyfer – lle bo hynny'n bosibl. Mae gan y sioeau trafod chwaraeon westeiwyr pwrpasol ac maent hefyd yn rhaglenni i baratoi / crynhoi sylwebaethau chwaraeon. Mae'r sioeau hyn hefyd yn trafod y diweddaraf o ran newyddion chwaraeon ac yn crynhoi digwyddiadau, gyda galwadau a chyfweliadau gyda sêr chwaraeon.

Mae TalkSPORT 2, ochr yn ochr â talkSPORT, hefyd yn darlledu sylwebaeth fyw ar chwaraeon, yn ogystal â rhaglenni trafod chwaraeon yn fyw gyda gwesteiwyr ymroddedig. Mae talkSPORT 2 hefyd yn gartref mwy arwyddocaol i raglenni unigol amrywiol talkSPORT, fel ei gyfres fywgraffyddol *My Sporting Life*, lle mae sêr chwaraeon yn myfyrio ar eu gyrfaoedd mewn chwaraeon, cyfweliadau gyda sêr chwaraeon yn y rhaglen *Up Front with Simon Jordan*, neu *After the Lights*, sef sioe sy'n canolbwyntio ar helyntion athletwyr proffesiynol ar ôl iddynt ymddeol o chwaraeon.

Er nad oes gennym ffigur ar gyfer nifer y chwaraeon sy'n cael eu darlledu ymysg chwaraewyr eraill yn y farchnad radio, dywedodd un rhanddeiliad wrth y BBC yn ei ymateb i'n hymgynghoriad bod yn rhaid i ddarlledwyr radio, oherwydd natur y gystadleuaeth yn y farchnad fasnachol, mae pwysau cynyddol i ddarlledu chwaraeon sydd â mwy o apêl yn y farchnad dorfol ac felly mae'n debygol o gynyddu refeniw gwrandawyr a hysbysebu.

Isod mae sampl a gymerwyd ar gyfer talkSPORT a talkSPORT 2 yn ystod wythnos ddiweddar a oedd yn cynnwys darpariaeth chwaraeon byw, ochr yn ochr â'r un amserlen ar gyfer 5 Live a 5 Sports Extra ar gyfer yr un wythnos.

**Ffigur 11: Dadansoddiad 1 Wythnos talkSPORT – darpariaeth wythnos 16/09/2024**

Non-live sport | Live sport

| SLOT | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Lau | Dydd Gwener | SLOT | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 05:00 – 06:00 | Early Sports Breakfast | | | | | 05:00 – 06:00 | Extra Time (*Sioe sgwrsio*) | |
| 06:00 – 10:00 | talkSPORT Breakfast | | | | | 06:00 – 09:00 | GameDay Breakfast (*Sioe sgwrsio*) | Weekend Sports Breakfast (*Sioe sgwrsio*) |
| 10:00 – 13:00 | White & Jordan (*Sioe sgwrsio*) | | | | | 09:00 – 11:00 | GameDay Warm Up (*Sioe trafod digwyddiad*) | Sunday Edition (*Sioe sgwrsio*) |
| 13:00 – 16:00 | Hawksbee & Jacobs/Baker(*Sioe sgwrsio)* | | | | | 11:00 – 14:30 | **GameDay Exclusive – West Ham v Chelsea (*EPL sylwebaeth fyw*)** | The Warm-Up (*Sioe sgwrsio* 11:00 – 13:30) |
| 16:00 – 19:00 | talkSPORT Drive (*Sioe sgwrsio*) | | | | | 14:30 – 17:30 | GameDay Live (*Sioe trafod digwyddiad*) | The Sunday Session (*Sioe sgwrsio* 13:30 – 18:30) |
| 19:00 – 22:00 | Kick Off (*Sioe sgwrsio*) | **Kick Off – AC Milan v Liverpool (*UCL sylwebaeth fyw*)** | **Kick Off – Manchester City v Inter Milan (*UCL sylwebaeth fyw*)** | **Kick Off – Atalanta v Arsenal (*UCL sylwebaeth fyw*)** | Thank Football it's Friday (*Sioe sgwrsio*) | 17:30 – 20:00 | GameDay Phone In (*Sioe sgwrsio*) | The Final Word (*Sioe sgwrsio*18:30 – 21:00) |
| 22:00 – 01:00 | The Sports Bar (*Sioe sgwrsio*) | | | | | 20:00 – 00:00 | **Fight Night Live – Anthony Joshua v Daniel Dubois (*Sylwebaeth fyw ar focsio*)** | Trans Europe Express (*Sioe sgwrsio* 21:00 – 00:00) |
| 01:00 – 05:00 | Extra Time (*Sioe sgwrsio*) | | | | | 01:00 – 05:00 | Extra Time (*Sioe sgwrsio*) | Extra Time (*Sioe sgwrsio*) |

## Ffigur 12: Dadansoddiad 2 Wythnos talkSPORT – darpariaeth wythnos 16/09/2024

Non-live sport | Live sport

| SLOT | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Lau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| 00:00 – 01:00 | **PGA Tour Live (*Sylwebaeth fyw*)** | Slotiau Podlediadau (My Sporting Life, Women's Football Show, EFL All Access, Following On, On Track) | Slotiau Podlediadau (My Sporting Life, The Women's Football Show, EFL All Access, Fight Night Extra, The NFL Rundown, Following On) | Podcast Slots (My Sporting Life, On Track, Fight Night Extra, The NFL Rundown, Following On, The Women's Football Show) | My Sporting Life |
| 01:00 – 05:00 | **NFL Live – Houston Texans v Chicago Bears (Sylwebaeth fyw)** | | | | **NFL Live – New England Patriots v New York Jets (*Sylwebaeth fyw ar bêl-droed Americanaidd*)** |
| 05:00 – 07:00 | Slotiau Podlediadau (My Sporting Life / Fight of My Lift) | | | | Podcast Slots (My Sporting Life, The NFL Rundown, Following On, Fight Night Extra, EFL All Access) |
| 07:00 – 12:00 | | | | | |
| 12:00 – 15:00 | | | **Racing Live – Eastern Festival at Yarmouth (*Sylwebaeth fyw* 13:00 – 15:00)** | **Racing Live – Eastern Festival at Yarmouth (*Sylwebaeth fyw*13:00 – 15:00)** | The EFL Fan Network (*talk show* 12:00 – 13:00) **Racing Live – Newbury (*Sylwebaeth fyw* 13:00 – 15:00)** |
| 15:00 – 17:00 | The Social (*Sioe sgwrsio*) | **Champions League Live – Young Boys v Aston Villa (*Sylwebaeth fywUCL* 17:30 – 19:45)** **Carabao Cup Live – Manchester United v Barnsley (*Sylwebaeth fyw* 19:45 – 22:00)** | The Social (*Sioe sgwrsio*) | The Social (*Sioe sgwrsio*) | The Social (*Sioe sgwrsio*) |
| 17:00 – 18:00 | The Monday Club (*Sioe sgwrsio*) | | Slotiau Podlediadau(Fight Night Extra, Following On, Cult Heroes | The EFL Fan Network (*Sioe sgwrsio*) | Premier League All Access |
| 18:00 – 19:00 | EFL All Access | | | Slotiau Podlediadau (NFL Rundown, Fight Night Extra, The Women's Football Show, On Track) | The Women's Football Show (18:00 – 18:45) |
| 19:00 – 22:00 | **EFL GameDay Live – Birmingham City v Wrexham FC (Sylwebaeth fyw ar bêl-droed League One)** | | **Carabao Cup Live – Coventry City v Tottenham (*Sylwebaeth fyw* 19:45 – 22:00)** | | WSL Live – Chelsea v Aston Villa (*live commentary Women's Football* 18:45 – 21:00) |
| 22:00 – 23:00 | Slotiau Podlediadau (The Women's Football Show, EFL All Access) | Slotiau Podlediadau (Fight Night Extra, The NFL Rundown) | Slotiau Podlediadau (EFL All Access, The NFL Rundown) | | Podcast Slots (Premier League All Access, Following On, Fight Night Extra) |
| 23:00 – 00:00 | | | | | |

| SLOT | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|
| 00:00 – 12:00 | Slotiau Podlediadau (My Sporting Life, Fight of My Life) | Slotiau Podlediadau (My Sporting Life, It Was All A Dream: The Football Academy Journey) |
| 12:00 – 14:30 | **EFL GameDay Live - Sunderland v Middlesbrough (*Sylwebaeth fyw*)** | **WSL Live – Arsenal v Manchester City (*Sylwebaeth fyw* 12:00 – 14:45)** |
| 14:30 – 17:00 | **GameDay Exclusive - Tottenham Hotspur v Brentford (*Sylwebaeth fyw*)** | **Premiership Rugby Live – Sale Sharks v Harlequins (*Sylwebaeth fyw*)** |
| 17:00 – 21:00 | Slotiau Podlediadau (Fight of My Life, My Sporting Life) | The NFL Show with Nat Coombs (*Sioe sgwrsio* 17:00 – 21:00*)* |
| 21:00 – 00:00 | | **NFL Live – San Francisco 49ers v Los Angeles Rams (*Sylwebaeth fyw ar bêl-droed Americanaidd*)** |

## Ffigur 13: Dadansoddiad o wythnos 5 Live – darpariaeth wythnos 16/09/2024

News and current affairs | Non-live sport | Live sport

| SLOT | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Lau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| 01:00 – 05:00 | Dotun Adebayo (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Dotun Adebayo (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Dotun Adebayo (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Dotun Adebayo (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Dotun Adebayo (Newyddion amserol a materion cyfoes) |
| 05:00 – 06:00 | Wake Up to Money (Sioe materion cyfoes) | Wake Up to Money (Sioe materion cyfoes) | Wake Up to Money (Sioe materion cyfoes) | Wake Up to Money (Sioe materion cyfoes) | Wake Up to Money (Sioe materion cyfoes) |
| 06:00 – 09:00 | 5 Live Breakfast (Newyddion amserol a materion cyfoes) | 5 Live Breakfast (Newyddion amserol a materion cyfoes) | 5 Live Breakfast (Newyddion amserol a materion cyfoes) | 5 Live Breakfast (Newyddion amserol a materion cyfoes) | 5 Live Breakfast (Newyddion amserol a materion cyfoes) |
| 09:00 – 11:00 | Nicky Campbell (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Nicky Campbell (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Nicky Campbell (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Nicky Campbell (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Nicky Campbell (Newyddion amserol a materion cyfoes) |
| 11:00 – 14:00 | Naga Munchetty (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Naga Munchetty (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Naga Munchetty (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Adrian Chiles (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Adrian Chiles (11:00 – 13:00) Elis James and John Robins (podlediad 13:00 – 14:00) |
| 14:00 – 16:00 | Matt Chorley (live from Lib Dem Conference) | Matt Chorley (Brighton Rocks) | Matt Chorley (Brand New MPs) | Matt Chorley (Plugging Leaks) | Matt Chorley |
| 16:00 – 19:00 | 5 Live Drive (Newyddion amserol, materion cyfoes a sioeau chwaraeon) | 5 Live Drive (16:00 – 17:30) 5 Live Sport (Cyn gêm 17:30 – 17:45) **5 Live Sport (Young Boys v Aston Villa UCL *live commentary* 17:45 – 19:45)** | 5 Live Drive (Newyddion amserol, materion cyfoes a sioeau chwaraeon) | 5 Live Drive (Newyddion amserol, materion cyfoes a sioeau chwaraeon) | 5 Live Drive (Newyddion amserol, materion cyfoes a sioeau chwaraeon) |
| 19:00 – 21:00 | 5 Live Sport (The Monday Night Club) | 5 Live Sport (PCyn gêm: AC Milan v Liverpool 19:45 – 20:00) **5 Live Sport (AC Milan v Liverpool UCL *Sylwebaeth fyw* 20:00 – 22:30** | 5 Live Sport (PCyn gêm: Manchester City v Inter Milan 19:00 – 20:00) **5 Live Sport (Manchester City v Inter Milan *Sylwebaeth fyw* 20:00 – 22:30)** | 5 Live Sport (PCyn gêm: Atalanta v Arsenal 19:00 – 20:00) **5 Live Sport (Atalanta v Arsenal 20:00 – 22:00)** 5 Live Sport (Euro Leagues 22:00 – 22:30) | 5 Live Sport (Premier League Kick-Off *talk show*) |
| 21:00 – 21:30 | 5 Live Sport (5 Live Boxing) | (as above) | (as above) | (as above) | **Rugby League (Hull KR v Leeds Rhinos *Sylwebaeth fyw*)** |
| 21:30 – 22:00 | 5 Live Sport (Women's Football Weekly: All About Chelsea) | (as above) | (as above) | (as above) | **Rugby League (Hull KR v Leeds Rhinos *Sylwebaeth fyw*)** |
| 22:00 – 01:00 | Gordon Smart (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Gordon Smart (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Gordon Smart (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Gordon Smart (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Stephen Nolan with Rima Ahmed (Newyddion amserol a materion cyfoes) |

| SLOT | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|
| 01:00 – 05:00 | Lisa McCormick (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Lisa McCormick (Newyddion amserol a materion cyfoes) |
| 05:00 – 06:00 | 5 Live Sport (5 Live Boxing) | Newscast |
| 06:00 – 09:00 | Saturday Breakfast (Newyddion amserol, materion cyfoes a sioeau chwaraeon) | 5 Live Science (06:00 – 07:00) Sunday Breakfast (07:00 – 10:00) |
| 09:00 – 11:00 | Patrick Kielty (Newyddion amserol a materion cyfoes) | Colin Murray (Sioe chwaraeon amserol 10:00 – 12:00) |
| 11:00 – 12:00 | Fighting Talk (Podlediad) | Colin Murray (Sioe chwaraeon amserol 10:00 – 12:00) |
| 12:00 – 15:00 | 5 Live Sport (Sioe trafod chwaraeon) | 5 Live Sport (5 Live Premier League Sunday 12:00 – 14:00) |
| 15:00 – 17:00 | **5 Live Sport (Liverpool v Bournemouth *Sylwebaeth fyw*)** | **5 Live Sport (Brighton v Nottingham Forest 14:00 – 16:00 *Sylwebaeth fyw*)** **5 Live Sport (Pre-Match: Manchester City v Arsenal 16:00 – 16:30)** |
| 17:00 – 17:30 | Sports Report (Sioe chwaraeon amserol) | **5 Live Sport (Manchester City v Arsenal 16:30 – 18:30 *Sylwebaeth fyw*)** **606 (sport podcast 18:30 – 20:00)** |
| 17:30 – 19:30 | **5 Live Sport (Crystal Palace v Manchester United *Sylwebaeth fyw*)** | (as above) |
| 19:30 – 21:00 | 606 (Podlediad chwaraeon ) | Headliners with Nihal Arthanayake (Newyddion amserol a materion cyfoes 20:00 – 22:00) |
| 21:00 – 00:00 | Stephen Nolan with Rima Ahmed (Newyddion amserol a materion cyfoes) Sports podcasts (00:00 – 01:00) | Stephen Nolan with Johnny l'Anson (Newyddion amserol a materion cyfoes 22:00 – 01:00) |

**Ffigur 14: Dadansoddiad Wythnos Ychwanegol 5 Sports Extra – darpariaeth wythnos 16/09/2024**

Off-air | Live sport

<table>
<tr><th>SLOT</th><th>Dydd Llun</th><th>Dydd Mawrth</th><th>Dydd Mercher</th><th>Dydd Lau</th><th>Dydd Gwener</th></tr>
<tr><td>01:00 – 10:00</td><td colspan="5">Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal)</td></tr>
<tr><td>10:00 – 16:00</td><td rowspan="5">Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal)</td><td rowspan="2">Cricket (Lancashire v Somerset 10:25 – 18:30 Sylwebaeth fyw)</td><td rowspan="2">Cricket (Lancashire v Somerset 10:25 – 18:30 Sylwebaeth fyw)</td><td rowspan="4">Cricket (Lancashire v Somerset 10:25 – 12:15 Sylwebaeth fyw)<br><br>Test Match Special (England v Australia 12:15 – 20:30 Sylwebaeth fyw)<br><br>Rugby League (Wigan Warriors v Salford Red Devils 20:30 – 22:00 Sylwebaeth fyw)</td><td>Cricket (Lancashire v Somerset 10:25 – 13:55 Sylwebaeth fyw)<br><br>5 Live Formula 1 (13:55 – 15:05 Sylwebaeth fyw)</td></tr>
<tr><td>16:00 – 18:30</td><td rowspan="2">Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal 15:05 – 19:45)</td></tr>
<tr><td>18:30 – 19:30</td><td>Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal)</td><td>Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal 18:30 – 19:00)</td></tr>
<tr><td>19:30 – 22:30</td><td>5 Live Sport (Manchester United v Barnsley 19:40 – 22:30 Sylwebaeth fyw)</td><td>5 Live Sport (Coventry v Tottenham 19:00 – 22:30 Sylwebaeth fyw)</td><td>Rugby League (Hull KR v Leeds Rhinos 19:45 – 22:00 Sylwebaeth fyw)</td></tr>
<tr><td>22:30 – 00:00</td><td>Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal)</td><td>Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal)</td><td>Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal)</td><td>Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal)</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>SLOT</th><th>Dydd Sadwrn</th><th>Dydd Sul</th></tr>
<tr><td>01:00 – 05:00</td><td colspan="2" rowspan="3">Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal)</td></tr>
<tr><td>05:00 – 06:00</td></tr>
<tr><td>06:00 – 09:00</td></tr>
<tr><td>09:00 – 11:00</td><td rowspan="5">Test Match Special (England v Australia 10:45 – 19:00 Sylwebaeth fyw)</td><td rowspan="6">Cricket (Somerset v Glamorgan 10:55 – 12:45 Sylwebaeth fyw)<br><br>5 Live Formula 1 (12:45 – 15:30 Sylwebaeth fyw)<br><br>Cricket (Somerset v Glamorgan 15:30 – 19:00 Sylwebaeth fyw)</td></tr>
<tr><td>11:00 – 12:00</td></tr>
<tr><td>12:00 – 15:00</td></tr>
<tr><td>15:00 – 17:00</td></tr>
<tr><td>17:00 – 17:30</td></tr>
<tr><td>17:30 – 19:30</td><td rowspan="3">Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal)</td></tr>
<tr><td>19:30 – 21:00</td><td>Oddi ar yr awyr (yn darlledu dolen gynnal 19:00 – 21:00)</td></tr>
<tr><td>21:00 – 00:00</td><td>5 Live NFL (Baltimore Ravens at Dallas Cowboys 21:00 – 01:00 Sylwebaeth fyw)</td></tr>
</table>

# 3. Deall heriau 5 Sports Extra

Yn yr adran hon rydym yn nodi rhai o'r heriau sy'n wynebu 5 Sports Extra a'r BBC wrth ddarparu cynnwys sain chwaraeon i gynulleidfaoedd ar y radio.

## 3.1 Mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau'r gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded drwy wneud mwy o'n buddsoddiad mewn cynnwys chwaraeon yn weladwy ar radio rhwydwaith

Fel y nodwyd yn yr Adran uchod, mae cynulleidfaoedd sy'n ymgysylltu â chynnwys chwaraeon ar radio llinol yn gwneud hynny'n bennaf drwy sylwebaeth fyw ar chwaraeon ac maent yn ategu hyn drwy wrando ar raglenni trafod chwaraeon pan fyddant ar gael – sydd fel arfer yn trafod y newyddion a'r pynciau diweddaraf ym myd chwaraeon, yn aml gyda galwad ffôn byw neu baratoi at ddigwyddiad â sylwebaeth fyw. Er bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i'r math hwn o gynnwys chwaraeon ar radio llinol drwy talkSPORT ac i raddau llai ar rwydweithiau radio'r BBC, mae llawer iawn o'r cynnwys ychwanegol hwn sy'n gysylltiedig â chwaraeon ar gael ar-alw.

Gall cynulleidfaoedd gael gafael ar amrywiaeth eang o gynnwys podlediadau, yn rhad ac am ddim i raddau helaeth ar draws nifer o lwyfannau, wedi'u creu a'u dosbarthu gan amrywiaeth o gwmnïau cynhyrchu, darlledwyr, brandiau a chrewyr annibynnol o'r DU ac yn rhyngwladol. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn nifer y podlediadau chwaraeon ac adloniant chwaraeon sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU ar draws ystod eang o gampau ac mae'r rhain ymysg y genres podlediadau mwyaf poblogaidd yn y DU; gyda 3 o'r 20 podlediad gorau ym mis Rhagfyr 2023 yn gysylltiedig â phêl-droed.[5]

Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024, ochr yn ochr â'r cynnydd ym mhoblogrwydd podlediadau, bu gostyngiad o 11% hefyd yn nifer y gwrandawyr ar radio llafar ymysg cynulleidfaoedd dan 45 oed, o Ch3 2021 i Ch3 2023. Rhwng Ch1 2020 (y data diwethaf sydd ar gael o RAJAR cyn covid) a Ch3 2023, mae twf o 83% wedi bod mewn cynulleidfaoedd o dan 45 oed sy'n gwrando ar bodlediadau'n unig (ac nid radio). Fodd bynnag, mae darllediadau chwaraeon ar radio cenedlaethol yn parhau i or-fynegeio ar gyfer cynulleidfaoedd o dan 45 oed a C2DE o'i gymharu â radio llafar nad yw'n darlledu chwaraeon.

Mae'r BBC wedi gwneud buddsoddiad creadigol sylweddol mewn amrywiaeth eang o bodlediadau chwaraeon ac adloniant chwaraeon, ac mae pob un ohonynt ar gael i wrando arnynt ar hyn o bryd drwy BBC Sounds. Mae llawer o'r podlediadau hyn yn cael eu creu gan dimau o bob cwr o'r DU, sy'n cynnwys straeon chwaraeon a lleisiau lleol.

Nid yw gwrandawyr sy'n ymgysylltu â chynnwys chwaraeon drwy radio llinol yn bennaf yn llwyr ymwybodol o ehangder cynnwys podlediadau'r BBC o bosibl nac yn dod ar ei draws. Mae'n bwysig bod y BBC yn manteisio i'r eithaf ar werth ei strategaeth comisiynu podlediadau ar-alw i roi cyfle i'r cynulleidfaoedd hynny ar wasanaethau llinol ddod o hyd i

---

[5] Data yn ôl PodcastTracker; dyma'r podlediadau a gafodd eu cyfrif ar gyfer mis Rhagfyr 2023: *That Peter Crouch Podcast*, *Sky Sports Football* a *Football Daily (5 Live)*.

arlwy gorau'r BBC yn y maes hwn, a dod ag amrywiaeth eang o bodlediadau chwaraeon i gynulleidfaoedd ar y radio.

### *3.1.1 Mae'r cyfyngiadau presennol yn yr amserlenni ar gyfer 5 Live a 5 Sports Extra yn golygu bod cyrhaeddiad cynulleidfaoedd podlediadau chwaraeon y BBC yn gyfyngedig ar radio llinol*

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o bodlediadau sain chwaraeon y BBC yn cael eu darparu ac ar gael ar BBC Sounds. Ar 1 Gorffennaf 2024, roedd tua 500 o bodlediadau chwaraeon ar gael ar-alw ar BBC Sounds, ar draws amrywiaeth o chwaraeon fel pêl-droed merched, athletau, bocsio, pêl-droed a chriced. Dim ond ychydig iawn o'r podlediadau hyn (rydym yn amcangyfrif y byddai'n llai nag 1%) fyddai wedi cael darllediad cyntaf ar 5 Live, ac ni fyddent o reidrwydd wedi darlledu'r holl benodau sydd ar gael ar gyfer pob cyfres.

Mae'r BBC yn gyfyngedig o ran ei allu i guradu amserlenni presennol 5 Live a 5 Sports Extra i ddarparu ar gyfer y nifer fawr o gynnwys podlediadau chwaraeon y BBC sydd ganddo i'w gynnig. Gan fod 5 Sports Extra ond yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i sylwebu'n fyw ar chwaraeon nad yw'n cyd-fynd â pharamedrau darlledu 5 Live, nid oes lle ar gyfer unrhyw raglenni chwaraeon ychwanegol. O'r herwydd, byddai'n rhaid i unrhyw gynnwys chwaraeon nad yw'n sylwebaeth fyw gael ei ddarlledu ar 5 Live. Fodd bynnag, oherwydd gofyniad y Drwydded Weithredu i sicrhau bod 70% o gynnwys llafar 5 Live yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes, mae'r gyfran o gynnwys llafar sy'n weddill yn gyfyngedig ac yn aml mae'n cael ei defnyddio'n llwyr gan sylwebaeth fyw ar chwaraeon neu raglenni chwaraeon byw. Gyda'r cyfyngiad hwn, mae'n rhaid i'r BBC ystyried yn ofalus faint a'r math o gynnwys chwaraeon y gall ei ddarparu ar hyn o bryd drwy 5 Live.

Pe bai'r BBC yn gallu darlledu cynnwys chwaraeon ychwanegol heb fod yn fyw ar radio llinol drwy 5 Sports Extra, byddai'r podlediadau hyn yn cael cyfle newydd i gyrraedd cynulleidfa ehangach, a byddai'r cynulleidfaoedd ychwanegol hynny'n cael eu hamlygu ymhellach i'r math o gynnwys sydd ar gael ar BBC Sounds. Byddai hyn yn gwella arlwy ar-alw presennol y BBC ac yn ychwanegu rhagor o werth at gynnwys sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded.

### *3.1.2 Mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn defnyddio cyllid ffi'r drwydded yn effeithlon drwy wneud y defnydd gorau posibl o sbectrwm ar gyfer darlledu radio*

Mae'r Cytundeb yn nodi bod yn rhaid i'r BBC sicrhau bod y sbectrwm radio sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y BBC neu ei gontractwyr yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon.[6]

Fel y nodwyd uchod, roedd 5 Sports Extra wedi darparu 3,091 awr o sylwebaeth fyw ar chwaraeon yn ystod 2023/24. Roedd yr oriau a oedd yn weddill ar yr awyr yn ystod y cyfnod hwnnw yn ddolenni cynnal[7], sef 5,693 awr o gyfanswm yr oriau. Mae hyn yn golygu bod 5 Sports Extra ond yn gwasanaethu cynulleidfaoedd am 35% o'r amser darlledu posibl. Rydym yn credu bod 5 Sports Extra yn darparu gwerth sylweddol i gynulleidfaoedd

---

[6] Cymal 46. Cytundeb: https://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/about/how_we_govern/2016/agreement.pdf

[7] Dolen llais yn datgan nad oedd yr orsaf yn darlledu ar yr adeg.

wrth ddarlledu cynnwys chwaraeon i gynulleidfaoedd (fel y nodir isod). Fodd bynnag, nid yw'n defnyddio'r sbectrwm sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl.

Drwy ehangu'r orsaf ac ategu'r amserlen bresennol o sylwebaeth fyw ar chwaraeon gyda chynnwys sain chwaraeon nad yw'n fyw, byddai'r BBC yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm sydd ar gael iddo ac yn defnyddio ei fuddsoddiad o gronfeydd ffi'r drwydded mewn cynnwys ar-alw i wneud hynny.

### 3.2 Rhaid i'r BBC wneud mwy i sicrhau'r cynnwys gorau posibl ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE a chynulleidfaoedd iau ar y radio

Mae proffil gwrandawyr cyffredinol gorsafoedd radio rhwydwaith y BBC yn gwyro at gynulleidfaoedd hŷn (35 oed a hŷn) ac ABC1. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024, mae ein data cynulleidfa yn dangos bod cynnwys chwaraeon yn perfformio'n dda ymysg cynulleidfaoedd C2DE. Pan fyddwn yn edrych ar allbwn chwaraeon ar 5 Live, gallwn weld ei bod yn gor-fynegeio ar gyfer pobl 25-34 oed a C2DE tra bo 5 Sports Extra yn gor-fynegeio ar gyfer pobl 25-34 oed ond yn tan-fynegeio ar gyfer C2DE.

**Ffigur 15: Perfformiad mynegai cynulleidfa ar gyfer chwaraeon ar 5 Live a 5 Sports Extra**

| Segment Cynulleidfa | Mynegai ar gyfer chwaraeon ar 5 Live | Mynegai ar gyfer 5 Sports Extra |
|---|---|---|
| *Oedolion 15-24* | 103 | 74 |
| *Oedolion 25-34* | 90 | 140 |
| *Oedolion 35-44* | 100 | 110 |
| *Oedolion 45-54* | 104 | 82 |
| *Oedolion 55-64* | 106 | 105 |
| *Oedolion 65+* | 95 | 98 |
| *Gradd Gymdeithasol: ABC1* | 102 | 96 |
| *Gradd Gymdeithasol: C2DE* | 95 | 110 |
| *Gwyn* | 88 | 128 |
| *B.A.M.E.* | 100 | 94 |
| *Y tu allan i Lundain* | 103 | 74 |

*Ffynhonnell: RAJAR Ch2 2024. Sylwer bod y chwarter hwn yn cynnwys The Ashes ar 5 Sports Extra sydd fel arfer yn cael ei ddarlledu'n bennaf ar 5 Sports Extra. Fel y cyfryw, efallai y bydd hyn yn effeithio ar ddemograffeg y gynulleidfa.*

Cynulleidfa darged 5 Sports Extra ar hyn o bryd yw pobl 25-44 oed. Yn Ch2 2024, roedd dros filiwn (1.11m) o oedolion yn y DU yn gwrando ar 5 Sports Extra, gyda 25% ohonynt yn bobl rhwng 25 a 44 oed. Mae hyn yn codi 11.5k (5 pwynt canran) o un flwyddyn i'r llall (RAJAR Ch2 2024).

Mae cynnwys chwaraeon yn dal yn gynnig cryf i C2DE a chynulleidfaoedd iau ar radio llinol, gan fynd yn groes i'r duedd gwrando gyffredinol ar radio. Mae llawer o hyn yn cael ei sbarduno gan chwaraeon byw ac mae'n creu cyfle i'r BBC fanteisio arno a gwneud mwy ar gyfer y gynulleidfa hon – cynulleidfa nad yw'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol yn

gyffredinol – ar y radio. Gall y BBC ddarparu mwy o bodlediadau chwaraeon unigryw o ansawdd uchel ar gyfer y gynulleidfa hon ar y radio drwy 5 Sports Extra. Drwy gynnig mwy o'r cynnwys hwn i ategu'r nifer sy'n gwrando'n fyw ar chwaraeon, gall y BBC ddarparu'n well ar gyfer y demograffig hwn nad yw'n cael ei wasanaethu'n ddigonol.

### 3.3 Mae diffyg podlediadau chwaraeon unigryw ym marchnad radio'r DU

Mae amserlen wythnosol bresennol 5 Live a talkSPORT (fel y nodir yn Adran 2) yn dangos i ni fod fformatau cynnwys sain chwaraeon yn tueddu i gael eu teilwra ar gyfer rhaglenni trafod chwaraeon yn fyw a sylwebaeth fyw ar chwaraeon. Mae'r rhaglenni hynny sy'n trafod chwaraeon yn fyw yn tueddu i gael eu harwain gan westeiwr, ac yn aml maen nhw'n cynnwys elfen gyda'r gynulleidfa drwy alwad ffôn, neu banel neu westai.

Yn ystod y rhaglenni hyn, mae'r cyflwynwyr yn tueddu i drafod y digwyddiadau chwaraeon diweddaraf, cael cyfweliadau gyda chystadleuwyr, neu baratoi ar gyfer digwyddiad chwaraeon mawr. Mae rhai o slotiau amserlen talkSPORT 2 wedi'u neilltuo ar gyfer podlediadau chwaraeon, yn y bore neu dros nos fel arfer. Y tu hwnt i hyn, mae amserlenni talkSPORT a talkSPORT 2 wedi'u neilltuo ar gyfer sylwebaeth fyw ar chwaraeon neu raglenni trafod chwaraeon.

Mae'r BBC, gyda'i amserlen gyfyngedig ar 5 Live ar gyfer cynnwys heb fod yn newyddion na materion cyfoes, yn darparu rhywfaint o le ar gyfer cynnwys podlediadau chwaraeon annibynnol ond mae'r gofod darlledu fel arfer yn cael ei ddefnyddio gan raglenni sy'n trafod chwaraeon yn fyw a rhaglenni sy'n sylwebu'n fyw ar chwaraeon. Er gwaethaf y cyfyngiad hwn, roedd y BBC yn gallu rhoi sylw i 21 math gwahanol o chwaraeon ar 5 Live a 5 Sports Extra yn 2023 (mae'r rhestr lawn i'w gweld yn Adran 2.)

Mae podlediadau chwaraeon yn darparu cynnwys sain sy'n fwy annibynnol ac nad oes angen elfen ryngweithiol uniongyrchol arnynt i gynulleidfaoedd. Gall y rhain ganolbwyntio ar un pwnc arbenigol, neu edrych ar straeon ehangach sy'n cyd-fynd â chwaraeon. Mae amrywiaeth sylweddol yn fformat a genre podlediadau sy'n wahanol i'r cynnig poblogaidd sydd ar gael ar radio rhwydwaith ar hyn o bryd. Er enghraifft, efallai na fydd podlediad fel *Tractor Social* – podlediad penodol i gefnogwyr clwb pêl-droed Ipswich Town o reidrwydd yn cyrraedd cynulleidfaoedd drwy radio mewn amserlen brysur ar 5 Live neu talkSPORT, ond mae ganddo gartref ar BBC Sounds ar gyfer ei gynulleidfaoedd ymroddedig.

Bydd gorsaf estynedig 5 Sports Extra, sydd wedi ymrwymo i ddangos y podlediadau gorau o Brydain, yn darparu'r cynnwys unigryw ychwanegol hwnnw i gynulleidfaoedd ar radio llinol, ac nid yw'n cystadlu'n agos â'r rhaglenni sgwrsio'n fyw, dan arweiniad gwesteiwr, a geir ar talkSPORT a talkSPORT 2.

### 3.4 Gallai'r BBC wneud mwy i wella ehangder y cynnwys chwaraeon ar radio llinol

Ar hyn o bryd, y tri hawl chwaraeon drutaf y mae darlledwyr radio yn cystadlu amdanynt yw pêl-droed, criced a rygbi, gyda phêl-droed yn llawer gwell o ran cost darlledu. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â chynnwys chwaraeon ar y radio a phresenoldeb y cynnwys hwnnw yn amserlenni perthnasol talkSPORT a'r BBC. Ar ben hynny, gall pynciau rhaglenni byw sy'n trafod chwaraeon ganolbwyntio mwy ar elfennau apêl dorfol y chwaraeon dan sylw. Er enghraifft, mae rhaglen sy'n trafod pêl-droed yn fwy tebygol o godi pynciau Uwch Gynghrair Lloegr, gan

drafod y clybiau mwyaf poblogaidd i gynulleidfaoedd; fel arfer y clybiau sy'n cael eu cefnogi fwyaf ledled y DU gan gynnwys, er enghraifft, Arsenal, Manchester United neu Lerpwl. Er ei bod yn debygol y bydd elfen lle bydd mwy o chwaraeon arbenigol neu straeon llai mewn chwaraeon yn cael sylw ar draws y rhaglenni hyn, mae'n fwy tebygol y bydd darparwyr masnachol yn ffafrio darparu cynnwys sydd â'r apêl dorfol fwyaf.

Yn eu hymateb i'n hymgynghoriad, dywedodd talkSPORT fod cynulleidfaoedd yn cysylltu gorsafoedd talkSPORT â phêl-droed (97%), criced (51%) a rygbi (35%)[8].

Mae'r BBC eisoes yn darparu amrywiaeth sylweddol o chwaraeon ar y radio, gyda dros 21 o wahanol chwaraeon yn cael eu darlledu ar 5 Live a 5 Sports Extra yn 2023/24. Fodd bynnag, mae portffolio sain ar-alw chwaraeon y BBC yn darparu mynediad at gynnig chwaraeon annibynnol mwy y gellid ei ddefnyddio'n well i wella ehangder y cynnwys chwaraeon y mae'r BBC eisoes yn ei ddarparu ar radio rhwydwaith. Nid yw gorsafoedd radio chwaraeon masnachol sy'n dibynnu ar niferoedd gwrando uchel i gynyddu refeniw hysbysebu yn cael eu cymell i ganolbwyntio ar gynnwys chwaraeon llai poblogaidd heb apêl dorfol i'r graddau y mae'r BBC yn gallu gwneud hynny, wedi'i siapio gan ei set wahanol iawn o nodau gwasanaeth cyhoeddus.

[8] ffynhonnell gan talkSPORT: Arolwg Cyrff Ymchwilio ar gyfer News Broadcasting. N = 242, Sampl yn y DU o wrandawyr talkSPORT a talkSPORT 2. C B2: Gan feddwl am y gorsafoedd radio canlynol, pa rai o'r chwaraeon canlynol, os o gwbl, ydych chi'n eu cysylltu â phob un? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

# 4. Cynigion y BBC ar gyfer 5 Sports Extra

Fe wnaethom nodi ein cynnig ar gyfer 5 Sports Extra yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024. Yn y papur hwnnw, fe wnaethom amlinellu ein cynlluniau i ymestyn oriau darlledu 5 Sports Extra a defnyddio'r amser ychwanegol hwnnw i ategu cenhadaeth graidd yr orsaf i ddarparu sylwebaeth fyw ar chwaraeon gyda chynnwys nad yw'n fyw fel podlediadau chwaraeon (sydd eisoes ar gael ar-alw) ac ailddarlledu sylwebaeth chwaraeon.

Drwy gydol y papur hwn, rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod ehangu'r dewis ar draws radio a llwyfannau ar-alw yn gyflym dros y blynyddoedd diwethaf (ochr yn ochr â'r ehangu cyffredinol i'r cynnwys digidol sydd ar gael ar draws yr holl gyfryngau) wedi golygu bod cynulleidfaoedd bellach yn disgwyl sianeli a gwasanaethau sydd â chynigion clir i'w helpu i ddod o hyd i bethau.

Bydd y newid i ymestyn oriau darlledu 5 Sports Extra ar DAB yn darparu ffrwd sain fwy dibynadwy, rhagweladwy a hygyrch o ran cynnwys chwaraeon i gynulleidfaoedd ar gyfryngau sydd eisoes wedi'u sefydlu ac sydd ar gael yn eang. Bydd amserlen wrando gyson hefyd yn helpu'r gynulleidfa i ddod o hyd i amrywiaeth eang o bodlediadau chwaraeon y BBC ar DAB, sydd ar gael ar BBC Sounds yn unig ar hyn o bryd. Bydd hyn hefyd yn gwasanaethu cynulleidfaoedd C2DE a chynulleidfaoedd iau yn well ar radio llinol a bydd yn annog gwrandawyr i symud i BBC Sounds lle gallant ddod o hyd i gynnwys perthnasol arall y BBC gyda phrofiad mwy personol a chyfoethocach.

Yn yr adran hon, rydym yn crynhoi ein cynigion cychwynnol a'r adborth rydym wedi'i gael gan randdeiliaid, yn ogystal â dadansoddi ein hymchwil cynulleidfa a gomisiynwyd. Yna rydym yn rhoi ein cynigion terfynol. Fel rhan o'n hystyriaeth o werth cyhoeddus ein cynigion, rydym yn mynd i'r afael â sylwadau rhanddeiliaid yn Adran 5 ac rydym yn darparu dadansoddiad o effaith ein newidiadau ar y farchnad yn Adran 6.

## 4.1 Ein cynnig ar gyfer ymestyn oriau darlledu 5 Sports Extra

### *4.1.1 Cynigion ein hymgynghoriad*

Yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024, roeddem yn cynnig darlledu 5 Sports Extra rhwng 6am a 10:00pm/10:30pm. Fodd bynnag, pe bai digwyddiad chwaraeon byw yn parhau ar ôl 10.30pm, byddai darpariaeth fyw yn parhau ar y rhwydwaith fel y mae ar hyn o bryd. Ar gyfer yr oriau dros nos (sef rhwng 10:00pm/10:30pm a 6am), pan nad oes darllediadau byw, roeddem yn cynnig y byddai dolen gynnal dros nos a dim cynnwys rhaglenni yn cael ei ddarlledu.

O dan ein cynigion cychwynnol, roeddem yn cynnig ymestyn oriau darlledu'r orsaf o amcangyfrif o 2,900 awr o chwaraeon byw bob blwyddyn neu tua 56 awr yr wythnos, i gynnig sy'n darparu tua 5,840 awr y flwyddyn, neu 113 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Byddai hyn yn cynrychioli 2,940 o oriau ychwanegol y flwyddyn. Roeddem yn cynnig defnyddio'r oriau ychwanegol a gynigir i roi sylw i amrywiaeth eang o bodlediadau chwaraeon, podlediadau adloniant a rhaglenni dogfen chwaraeon, a phodlediadau chwaraeon o Wledydd a Rhanbarthau'r BBC. Nid oedd y BBC yn cynnig comisiynu unrhyw raglenni byw newydd ar gyfer 5 Sports Extra.

Byddai'r amserlen estynedig yn cael ei llenwi gan gynnwys chwaraeon nad yw'n fyw fel podlediadau chwaraeon neu ailchwarae sylwebaeth ar chwaraeon o'r gorffennol. Ni fyddai darpariaeth chwaraeon byw yn cael ei hymestyn nac unrhyw raglenni newydd yn cael eu comisiynu gan 5 Sports Extra. Byddai 5 Sports Extra yn parhau i ddarlledu ei hamserlen bresennol o chwaraeon byw a chyd-ddarlledu sylwebaeth chwaraeon 5 Live.

Byddai'r estyniad yn galluogi'r BBC i ddefnyddio portffolio hawliau chwaraeon helaeth BBC Sport yn llawn, gan gynnwys chwaraeon rhyngwladol, domestig a domestig tramor. Bydd hyn yn ei alluogi i guradu amserlen 5 Sports Extra i ddarlledu rhaglenni ychwanegol nad ydynt yn fyw ar ddiwrnodau pan mae chwaraeon byw; gallai hyn gynnwys y cyfnod byr sy'n arwain at gemau neu ddigwyddiadau byw yn ogystal â dadansoddiadau ar ôl gêm/digwyddiad gyda phodlediadau perthnasol, neu ailddarlledu sylwebaeth flaenorol berthnasol nad yw'n fyw.

Fel rhan o'r cynnwys ategol roeddem wedi'i glustnodi i'w gynnwys fel rhan o'r amserlen estynedig, roeddem yn targedu cynnwys yn benodol a oedd yn:

- Cynnig mwy o werth i dalwyr ffi'r drwydded ac yn darparu'n well ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar y BBC.
- Gwella cynrychiolaeth a'r portread o gynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU.
- Ehangu'r amrywiaeth o gynnwys chwaraeon sy'n cael ei gynrychioli ar radio chwaraeon llinol.
- Gwella'r broses o ganfod cynnwys chwaraeon ar-alw sydd ar gael ar BBC Sounds.

Wrth adolygu effaith bosibl (cadarnhaol neu negyddol) y cynnig i gystadleuaeth deg ac effeithiol ar orsafoedd radio masnachol sy'n darparu cynnwys chwaraeon, fe wnaethom nodi yn ein hymgynghoriad ei bod yn debygol y bydd y gwrando ychwanegol a gafwyd ar 5 Sports Extra o ganlyniad i'r estyniad yn deillio o gyfuniad o'r canlynol:

- Gorsafoedd radio eraill y BBC – yn benodol, 5 Live – a chynnwys arall sydd ar gael ar BBC Sounds
- Radio masnachol sy'n cynnig radio chwaraeon yn y DU, hy talkSPORT a talkSPORT 2, y ddau yn eiddo i News Broadcasting
- Gwasanaethau chwaraeon sain eraill ar-lein
- Twf organig, hynny yw, pobl na fyddent, fel arall, wedi gwrando ar unrhyw un o'r uchod.

Nid oeddem yn rhagweld unrhyw effaith fesuradwy ar radio masnachol neu wasanaethau ar-lein nad ydynt yn gysylltiedig â chwaraeon.

Nodwyd y bydd unrhyw gynnydd graddol i'r nifer sy'n gwrando ar radio'r BBC, ac felly maint effaith ein newid arfaethedig i 5 Sports Extra ar y sector masnachol, yn dibynnu ar i ba raddau mae'r gwrando ychwanegol ar yr orsaf 5 Sports Extra newydd yn digwydd yn lle gwrando ar wasanaethau presennol y BBC neu wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau'r BBC.


Gwnaethom hefyd dynnu sylw at y ffaith ei bod hi'n debyg mai talkSPORT a talkSPORT 2 fyddai'n teimlo effaith bosibl ein cynigion ar gyfer 5 Sports Extra, fel yr unig sefydliad radio chwaraeon arwyddocaol arall yn y DU.

Fe wnaethom ofyn am ymatebion gan randdeiliaid i'n cynigion cychwynnol a'r effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar gystadleuaeth deg ac effeithiol rhwng gorsafoedd radio masnachol sy'n darparu cynnwys chwaraeon. Fe wnaethom hefyd ofyn i randdeiliaid ddweud wrthym ni sut gallai'r BBC leihau unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, neu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol posibl.

### *4.1.2 Ymchwil cynulleidfa*

Yn ôl ein hymchwil cynulleidfa, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig gyda disgwyliad y byddai'n cyflawni ar gyfer pob cynulleidfa sy'n ceisio darlun wybodus am fyd chwaraeon sy'n wahanol i'r hyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd. Roedd ymatebwyr ar draws ein hymchwil ansoddol a meintiol yn teimlo y byddai'r newid yn berthnasol iddynt ac yn darparu cynnwys unigryw o ansawdd uchel. Ymysg yr ymatebwyr a oedd yn cyfateb i gynulleidfa darged 5 Sports Extra (gwrandawyr chwaraeon 25 – 44 oed), roedd cefnogaeth gref y byddai'r newid o ansawdd uchel, yn cynrychioli agwedd greadigol at y math hwn o gynnwys ac yn berthnasol iddynt.

**Ffigur 16: I ba raddau oedd cefnogwyr chwaraeon 25 - 44 oed yn teimlo bod y newid arfaethedig yn swnio fel y byddai'n gwneud y canlynol**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024)*

### *4.1.3 Adborth rhanddeiliaid*

#### 4.1.3.1 Ymestyn oriau darlledu 5 Sports Extra

Roedd ein holl ymatebion gan randdeiliaid ac unigolion (ac eithrio News Broadcasting a'r Advertising Association) yn teimlo bod ymestyn oriau darlledu yn cynrychioli newid cadarnhaol i gynulleidfaoedd, gan roi mwy o ddewis ac argaeledd iddynt ar gyfer cynnwys sain chwaraeon ar y radio. Mae rhai rhanddeiliaid (IMG Productions, Shooting Shark Productions a Voice of the Listener neu VLV) yn credu y byddai'r newid yn galluogi'r BBC i ddarparu mwy o raglenni o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd mwy a byddai'r oriau

estynedig yn darparu gwasanaethau radio mwy cyson. Roedd Shooting Shark Productions yn arbennig yn ei chael hi'n rhwystredig ein bod ni'n dilyn dolen neu'n trosglwyddo i ddolen gynnal. Ychwanegodd un rhanddeiliad y byddai'r estyniad yn caniatáu i'r BBC gynyddu'r amrywiaeth o chwaraeon sy'n cael sylw ar radio rhwydwaith ac roedd yn tynnu sylw at y ffaith y byddai hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth o bodlediadau chwaraeon BBC Sounds, yn ogystal â gwasanaethu cynulleidfaoedd C2DE ar y radio a fyddai'n dod â chystadleuaeth gadarnhaol i'r farchnad. Roedd y ddau unigolyn a ymatebodd hefyd yn fodlon gyda rhoi mwy o sylw i bodlediadau a oedd ar gael yn flaenorol ar Sounds yn unig.

Roedd rhanddeiliaid eraill (Rygbi'r Gynghrair, IMG Productions) yn teimlo y dylai'r BBC ystyried yr estyniad fel cyfle i ddarlledu mwy o chwaraeon byw i gynulleidfaoedd, gan roi mwy o gynnwys sain chwaraeon i gynulleidfaoedd yn ogystal â'r chwaraeon byw sydd eisoes yn cael eu darlledu ar 5 Live a 5 Sports Extra.

Roedd y Gymdeithas Hysbysebu yn teimlo nad oedd cynigion y BBC yn cynnig arlwy unigryw gan eu bod yn golygu ail-bwrpasu cynnwys sydd eisoes yn bodoli ar BBC Sounds.

Roedd News Broadcasting yn ategu'r safbwynt hwn, gan deimlo nad oedd yn glir pam bod angen sicrhau bod podlediadau ar gael ar y radio pan mae Sounds eisoes ar gael yn eang ac yn chwaraewr pwysig yn y gofod ar-alw. Mae'n dadlau bod y farchnad podlediadau yn gystadleuol iawn yn barod gydag amrywiaeth 'uchel' o ddewis eisoes ar gael i gynulleidfaoedd.

Roedd News Broadcasting hefyd yn teimlo nad yw'r BBC wedi cyflwyno tystiolaeth y bydd yn darparu cynnwys a fydd yn cwmpasu amrywiaeth ehangach o chwaraeon na'r hyn sy'n cael sylw ar hyn o bryd ar radio'r BBC, gan nodi nad oedd y BBC yn cynnwys unrhyw ymrwymiad i neilltuo cyfran benodol o oriau i gynnwys chwaraeon lleiafrifol neu chwaraeon sydd â llai o apêl dorfol. Ychwanegodd nad oedd cyd-ddarlledu 5 Live ar 5 Sports Extra yn darparu unrhyw gynnig ychwanegol i gynulleidfaoedd. Roedd un ymateb unigol yn teimlo y byddai'n well ganddo weld cynnwys newydd yn cael ei ddarlledu yn lle hynny.

Roedd gan News Broadcasting gwestiynau penodol hefyd ynghylch yr estyniad a natur y podlediadau a oedd yn cael eu darlledu ar yr orsaf estynedig, a'r potensial ar gyfer 'llithriad fformat', lle mae'r newidiadau a gynigir yn mynd ymhellach na'r rhai a ddisgrifiwyd dros amser. Yn benodol:

- Mae'r BBC yn adeiladu 5 Sports Extra fel sianel chwaraeon amser llawn, tra bod 5 Live yn canolbwyntio fwyfwy ar newyddion a materion cyfoes;
- Pa mor hen yw'r podlediadau y mae'r BBC yn bwriadu eu rhoi o gwmpas y sylwebaeth fyw ar chwaraeon, ee lle mae podlediadau Sounds yn cael eu cynhyrchu er mwyn creu cynnwys ar gyfer 5 Sports Extra;
- A yw'r podlediadau sy'n cael eu darlledu yn 'ddeunydd podlediad wedi'i recordio ymlaen llaw' neu'n rhaglenni chwaraeon byw sy'n cael eu recordio ar yr awyr ar 5 Sports Extra ac yna'n cael eu darlledu ar Sounds ar ôl hynny;
- Byddai cyd-ddarlledu 5 Live o 7pm ymlaen yn rhoi sylw i raglenni sydd y tu allan i gylch gwaith arfaethedig 5 Sports Extra, ee cynnwys rhaglenni chwaraeon o 5 Live nad yw'n sylwebaeth chwaraeon nac yn gynnwys podlediad sydd eisoes yn bodoli.

### 4.1.3.2 Effaith bosibl ar y farchnad

Roedd rhanddeiliaid yn gymysg o ran a fyddai cynigion y BBC yn cael effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Dim ond un rhanddeiliad, sef News Broadcasting, oedd yn teimlo bod yr effaith bosibl yn anghymesur, tra bod rhanddeiliaid eraill yn cydnabod yr effaith bosibl ar ddarlledwyr masnachol ond yn teimlo y byddai'r budd i gynulleidfaoedd yn cyfiawnhau'r effaith bosibl.

**Effaith ar ddarlledwyr radio chwaraeon masnachol**

Roedd News Broadcasting, (sydd fel y nodwyd gennym yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024 yn debygol o gael ei effeithio gan ein cynigion gan ei fod yn berchen ar yr unig ddarlledwr radio masnachol arall sy'n arbenigo mewn cynnwys sain chwaraeon ar radio (talkSPORT a talkSPORT 2)), yn poeni y byddai ein cynigion yn effeithio'n negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Yn benodol, mae *News Broadcasting*:

- Yn credu y byddai'r cynnig yn cryfhau ymhellach gyfran gyffredinol y BBC o'r farchnad radio rhwydwaith am gost sylweddol i gystadleuaeth a lluosogrwydd. Dywedodd fod y BBC mewn sefyllfa flaenllaw wrth gymharu ffigurau gwrando holl orsafoedd radio'r BBC â phob gorsaf radio masnachol.
- Yn credu bod perygl y bydd y cynigion yn cynyddu gwrandawyr BBC Sounds am gost sylweddol i'r farchnad podlediadau chwaraeon ehangach, gan dynnu sylw at y ffaith bod gan y BBC safle cryf yn y farchnad podlediadau chwaraeon ac y byddai'r BBC, wrth hyrwyddo ei bodlediadau'n fwy a dod â mwy o gynulleidfaoedd i Sounds, yn niweidio'r farchnad podlediadau gan ei fod yn ystyried Sounds ei hun yn 'ardd warchodedig', nad oes gan unrhyw ddarlledwr masnachol arall fynediad ati i gyhoeddi ei gynnwys.
- Yn mynegi pryder y byddai bron y cyfan o'r cynnydd yn nifer y gwrandawyr ar 5 Sports Extra yn dod o'r rhwydwaith talkSPORT, gan mai dyma'r unig gystadleuydd uniongyrchol i orsafoedd chwaraeon y BBC. Roedd yn rhannu ei ymchwil ei hun sy'n dangos y byddai dros dri chwarter o wrandawyr talkSPORT yn gwrando ar ail-lansiad o 5 Sports Extra ac y byddai chwarter yn gwrando llai ar talkSPORT o ganlyniad. Mae'n credu bod hyn yn dangos effaith sylweddol bosibl ar wariant a refeniw gwrandawyr talkSPORT, ac yn dyblygu'r cynnig cynnwys sain chwaraeon talkSPORT presennol.
- Yn credu bod y risg o gymryd gwrandawyr o wasanaethau radio eraill y BBC yn isel ac mae'n annhebygol y byddai gwrandawyr sain ar-alw yn newid i wrando ar radio byw.
- Yn credu y bydd cyd-ddarlledu 5 Live yn erydu darpariaeth talkSPORT a'i arlwy unigryw, yn arbennig pe bai'r BBC yn darlledu'r hyn y mae'n ei labelu'n rhaglenni 'cynnwys arbennig' fel Monday Night Club sy'n rhoi sgôr ddiweddaraf rhaglenni chwaraeon nad oes gan y BBC hawliau darlledu byw ar eu cyfer.

Roedd VLV yn teimlo y gallai'r cynigion effeithio'n negyddol ar talkSPORT. Fodd bynnag, nid oedd yn credu y bydd yn effeithio'n negyddol ar bodlediadau chwaraeon presennol gan y bydd llawer o'r cynnwys chwaraeon nad yw'n fyw a fydd yn cael ei ddarlledu gan y BBC eisoes ar gael ar BBC Sounds. Er gwaethaf nodi'r effaith bosibl ar talkSPORT, tynnodd VLV sylw at y ffaith bod diffyg lluosogrwydd o ran y cyflenwad o ddigwyddiadau chwaraeon byw a chynnwys chwaraeon heb fod yn fyw sydd ar gael ar orsafoedd radio byw

yn y DU. Yng ngoleuni hyn, mae VLV o'r farn bod yr angen i sicrhau gwell lluosogrwydd cyflenwad er budd defnyddwyr yn cyfiawnhau'r effaith negyddol bosibl ar gystadleuwyr.

**Effaith ar y farchnad sain chwaraeon ehangach**

Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y byddai newid arfaethedig y BBC yn cynnig manteision sylweddol i gynulleidfaoedd ac i'r farchnad fasnachol. Gan gynnwys:

- **Cynnig mwy o ddewis i gynulleidfaoedd** a rhoi cyfle i gynulleidfaoedd samplo cynnwys arall y mae'r BBC yn ei gynhyrchu nad ydynt efallai wedi gwybod amdano o'r blaen, gydag un rhanddeiliad unigol yn tynnu sylw at y ffaith y bydd y cynnwys a gynigir yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r rhaglenni chwaraeon ar talkSPORT.
- **Rhoi hwb i'r sector podlediad chwaraeon annibynnol.** Roedd Shooting Shark Productions yn teimlo y gallai ychwanegu podlediadau chwaraeon sy'n cael eu darlledu ar 5 Sports Extra ddarparu llwyfan ychwanegol ar gyfer cynnwys annibynnol a fydd wedyn yn arwain at gynnydd yn y cyrhaeddiad ar gyfer podlediadau indie. Byddai hyn yn ei dro yn arwain at fanteision cadarnhaol yn y sector annibynnol ac yn cynyddu swyddi a chyfleoedd ar gyfer cynyrchiadau annibynnol. Roedd rhanddeiliad arall yn teimlo y byddai defnyddio cynnwys cysylltiedig cyn ac ar ôl y digwyddiadau byw yn cefnogi ymgysylltiad gwell gan wrandawyr ac mae'n gynnig unigryw o'i gymharu â darparwyr eraill.
- **Caniatáu i'r BBC aros yn gystadleuol** mewn marchnad lle mae darlledwyr masnachol yn segmentu eu cynigion fwyfwy ar draws nifer o sianeli DAB i ddal cynulleidfaoedd mwy penodol. Nododd un rhanddeiliad, gyda buddsoddiad addas mewn cynyrchiadau, y gall y BBC gynyddu cyrhaeddiad, amrywiaeth ac ansawdd podlediadau chwaraeon sydd ar gael ar Sounds a fydd yn galluogi'r BBC i barhau'n gystadleuol mewn sector podlediadau masnachol sy'n tyfu.

**Cyfleoedd i'r BBC leihau unrhyw effeithiau negyddol**

Roedd rhanddeiliaid yn ystyried yr effaith ar ddarlledwyr masnachol ac yn tynnu sylw at sut gallai'r BBC leihau unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Yn benodol:

- **Dylai 5 Sports Extra gynnig arlwy unigryw sy'n wahanol i ddarlledwyr masnachol.** Mae Left Peg Media, Shooting Shark Productions a hefyd The Advertising Association yn credu y gellid lliniaru effeithiau negyddol posibl drwy sicrhau bod y podlediadau a gynigir yn cynnwys amrywiaeth eang o gynnwys podlediadau a fyddai'n cael ei ystyried yn cynnwys llai o sylw ar y radio na chwaraeon mwy poblogaidd.
- **Hyrwyddo cynnwys byw ar 5 Sports Extra yn unig yn hytrach na'r cynnwys sydd newydd gael ei ychwanegu nad yw'n chwaraeon byw.** Ychwanegodd Left Peg Media er nad oedd yn hyrwyddo'r cynnwys ychwanegol, y dylai cynulleidfaoedd gael eu haddysgu o hyd am gynnig newydd 5 Sports Extra.
- **Dylai'r BBC barhau i weithredu dull teg a chytbwys o ennill a thalu am hawliau chwaraeon** petai'n ymestyn oriau darlledu 5 Sports Extra, yn benodol mewn ffordd nad yw'n chwyddo prisiau'n artiffisial ac o bosibl yn eithrio gweithredwyr masnachol o'r farchnad.
- Roedd News Broadcasting yn cynnig y dylai'r **BBC weithio yn hytrach mewn partneriaeth â gorsafoedd cerddoriaeth, newyddion a chwaraeon annibynnol a dosbarthu eu gwasanaethau ar lwyfannau'r BBC**, gan gynnwys ar BBC Sounds, i'w

alluogi i gyflawni ei amcanion o gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.

### *4.1.4 Ein cynnig terfynol*

Rydym o'r farn y bydd ein cynnig i ehangu 5 Sports Extra, a darparu amrywiaeth eang o bodlediadau chwaraeon nad ydynt yn fyw, podlediadau adloniant a rhaglenni dogfen chwaraeon, a phodlediadau chwaraeon o Wledydd a Rhanbarthau'r BBC yn unigryw ac yn darparu'n well ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar y BBC.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ein hymchwil defnyddwyr a gomisiynwyd a'n dadansoddiad o'r effaith ar y farchnad economaidd (gweler Adran 6), rydym wedi cymryd camau i liniaru'r effaith bosibl ar talkSPORT 1 a talkSPORT 2. Yn benodol, byddwn yn lleihau oriau darlledu arfaethedig yr orsaf estynedig.

Bydd yr oriau darlledu newydd rhwng 9am a 7pm bob dydd, yn hytrach na rhwng 6am a 10:30pm. Rydym yn amcangyfrif y bydd yr oriau ychwanegol a gynigir ar gyfer yr estyniad nad yw'n sylwebaeth fyw ar chwaraeon yn 1,314 awr (tua 30% o gyfanswm yr oriau darlledu). Mae hyn yn ostyngiad sylweddol i'n horiau arfaethedig blaenorol o 2,940 bob blwyddyn.

O ganlyniad i'r cynnydd mewn oriau cyfyngedig, byddwn hefyd yn dileu slot cyd-ddarlledu 5 Live ar 5 Sports Extra a oedd yn cynnwys sylwebaeth heb fod yn fyw. Bydd yr orsaf yn dal i gadw'r gallu i gyd-ddarlledu sylwebaeth fyw ar 5 Live.

Bydd yr amserlen arfaethedig newydd gyda'i oriau darlledu sylweddol is yn cael gwared â'r effaith ar talkSPORT 1 a talkSPORT 2 drwy atal darlledu yn ystod oriau pan fydd talkSPORT yn cyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol y tu allan i sylwebaeth fyw ar chwaraeon; yn benodol, rhaglenni brecwast talkSPORT sydd fel arfer yn rhedeg rhwng 6am a 10am a'r slotiau rhaglenni min nos sy'n dechrau o 7pm ymlaen. Mae hyn yn mynd i'r afael ag unrhyw bryder y bydd y BBC yn erydu darpariaeth talkSPORT neu fod yr orsaf yn ceisio dyblygu neu gopïo darpariaeth talkSPORT.

Credwn y bydd y mesurau lliniaru hyn yn cyfyngu ar unrhyw effaith niweidiol sylweddol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol a bod unrhyw effaith niweidiol wedyn yn cael ei gyfiawnhau gan werth cyhoeddus ein cynnig ailffurfio.

Rydym eisiau sicrhau bod yr orsaf estynedig yn dal i ddarparu gwerth i'n cynulleidfa (tarwch olwg ar Adran 5 ar gyfer ein damcaniaeth Gwerth Cyhoeddus), ac mae'r amserlen newydd yn dal i ganiatáu i ni ddarparu cynnwys o ansawdd uchel ac effaith uchel i gynulleidfaoedd, er bod hyn i raddau llai na'r oriau a gynigiwyd yn flaenorol Bydd y mesurau lliniaru hyn yn sicrhau bod y BBC yn dal yn gallu darparu podlediadau chwaraeon a chynnwys heb fod yn fyw i gynulleidfaoedd rhwng darlledu sylwebaeth fyw ar chwaraeon, yn ystod oriau nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar weithgareddau talkSPORT.

Isod mae amserlen enghreifftiol ar gyfer wythnos ddamcaniaethol lle nad oes gan yr orsaf unrhyw sylwebaeth fyw ar chwaraeon. Mewn diwrnod nodweddiadol ar 5 Sports Extra, byddai sylwebaeth fyw ar chwaraeon yn torri i mewn i'r amserlen. Er enghraifft, pe bai gêm

criced ryngwladol un diwrnod yn dechrau ddydd Mawrth rhwng 10am a 7pm, yna dim ond awr o gynnwys ar-alw fyddai'n bosibl ei ddarlledu y diwrnod hwnnw. Byddai sylwebaeth fyw ar chwaraeon yn disodli'r cynnwys a recordiwyd.

Mae'r amserlen hefyd yn debygol o newid yn ystod digwyddiadau mawr. Er enghraifft, yn ystod yr Ashes, byddem yn teilwra'r amserlen gyda mwy o gynnwys sy'n ymwneud â chriced, neu yn ystod yr Australian Open, efallai y byddwn yn dewis darlledu mwy o gynnwys sy'n gysylltiedig â thenis. Mae'r enghraifft isod yn cynnwys teitlau sy'n debygol o newid i adlewyrchu blaenoriaethau comisiynu sain y BBC, ac efallai na fyddant yn cynhyrchu ar adeg lansio'r orsaf:

**Ffigur 17: Amserlen enghreifftiol ar gyfer wythnos ar 5 Sports Extra (gall teitlau a threfn rhaglenni newid ac nid yw'n adlewyrchu'r cynnig terfynol bob wythnos)**

| AMSER | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 00:00 | Oddi ar yr awyr | Oddi ar yr awyr | Oddi ar yr awyr | Oddi ar yr awyr | Oddi ar yr awyr | Oddi ar yr awyr | Oddi ar yr awyr |
| 09:00 | Podlediad Dyddiol | Podlediad Dyddiol | Podlediad sy’n cyd-fynd â'r digwyddiad | GOLFF Pencampwriaeth Agored i Fenywod | GOLFF Pencampwriaeth Agored i Fenywod | GOLFF Pencampwriaeth Agored i Fenywod | GOLFF Pencampwriaeth Agored i Fenywod |
| 09:30 | Podlediad F1 | Podlediad Rygbi | Podlediad sy’n cyd-fynd â'r digwyddiad | | | | |
| 10:00 | Podlediad y Gwledydd | Podlediad y Gwledydd | Test Match Special | Test Match Special | Test Match Special | Test Match Special | Test Match Special |
| 10:30 | Podlediad y Gwledydd | Podlediad y Gwledydd | | | | | |
| 11:00 | Podlediad Chwaraeon | Podlediad Chwaraeon | | | | | |
| 11:30 | Podlediad Chwaraeon | Podlediad Chwaraeon | | | | | |
| 12:00 | Podlediad y Gwledydd | Podlediad y Gwledydd | | | | | |
| 12:30 | Podlediad Chwaraeon | Podlediad Bocsio | | | | | |
| 13:00 | | | | | | | |
| 13:30 | Podlediad Bocsio | Podlediad Pêl-droed | | | | | |
| 14:00 | | | | | | | |
| 14:30 | Podlediad Chwaraeon | Podlediad Chwaraeon | | | | | |
| 15:00 | | | | | | | |
| 15:30 | Podlediad Premier (ailddarllediad) | Podlediad Premier (ailddarllediad) | | | | | |
| 16:00 | | | | | | | |
| 16:30 | Podlediad Naratif | Podlediad Naratif | | | | | |
| 16:30 - 17:00 | | | | | | | |
| 17:30 | Podlediad Rhanbarthol | Podlediad Rhanbarthol | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18:00 | Podlediad Chwaraeon | Podlediad Chwaraeon | | | | | | |
| 18:30 | Podlediad y Gwledydd | Podlediad y Gwledydd | | | | | | |
| 19:00 | Podlediad Naratif | Podlediad Naratif | | | | | | |
| 00:00 | ODDI AR YR AWYR | ODDI AR YR AWYR | ODDI AR YR AWYR | ODDI AR YR AWYR | Rygbi'r Gynghrair 19:45-22:00 ODDI AR YR AWYR AR ÔL GORFFEN | ODDI AR YR AWYR | ODDI AR YR AWYR | |

Rydym yn credu y byddwn yn dal i allu cynnig arlwy radio unigryw o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn y farchnad radio chwaraeon masnachol. Y rheswm am hyn yw ein bod yn cynnig darlledu amrywiaeth eang o bodlediadau chwaraeon sydd ar gael ar BBC Sounds yn unig ar hyn o bryd ar radio llinol. Rydym yn nodi rhagor o fanylion am y gwerth y byddwn yn ei gynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd yn sgil y newid hwn yn Adran 5.

Ni fyddwn yn newid y cynnwys a gynigir ar gyfer yr orsaf estynedig ac rydym yn credu y gallwn gynnal ein cenhadaeth ar gyfer 5 Sports Extra estynedig yn ei ffurf ddiwygiedig. Byddem hefyd yn ailadrodd nad oes gennym unrhyw fwriad i ddarlledu rhaglenni chwaraeon nad ydynt yn sylwebaeth fyw ac rydym yn egluro'r amrywiaeth o chwaraeon a fyddai'n cael eu cynnwys yn y rhaglenni podlediad. Fodd bynnag, ni fyddem yn ymrwymo i amrywiaeth ehangach o chwaraeon ar gyfer yr oriau ychwanegol sy'n cael eu cynnig ar 5 Sports Extra ar hyn o bryd oherwydd (a) mae'r BBC eisoes yn talu mwy nag unrhyw ddarlledwr radio arall a (b) gallai hynny ysgogi mwy o wariant comisiynu sy'n mynd yn groes i'n hymrwymiad ar hyn sydd, yn ein barn ni, yn fesur lliniaru pwysig i rai rhanddeiliaid.

Gallwn hefyd gadarnhau nad oes gennym unrhyw fwriad i ddarlledu rhaglenni chwaraeon nad ydynt yn sylwebaeth fyw ar 5 Sports Extra, fel y nodir yn ein cynigion. Ni fydd y cynnwys ychwanegol rydym wedi'i gynnig i ategu cylch gwaith presennol chwaraeon byw 5 Sports Extra yn gynnwys byw (hy bydd y cynnwys wedi'i recordio ymlaen llaw) fel y disgrifir yn ein cynnig. Unig ddiben yr estyniad hwn yw galluogi'r BBC i ddefnyddio ei bortffolio helaeth o sain chwaraeon ar-alw i ddarparu profiad gwrando parhaus ac atyniadol ar gyfer chwaraeon llinol a darparu gwerth i gynulleidfaoedd. Prif ddiben gorsaf 5 Sports Extra fydd darparu rhaglenni chwaraeon i gynulleidfaoedd, a bydd 5 Live yn dal yn orsaf sy'n canolbwyntio ar ddarlledu newyddion a materion cyfoes byw, ochr yn ochr â ffocws bach ar raglenni chwaraeon byw.

Nodwn bryderon gan News Broadcasting a'r Advertising Association ynghylch y cynnig, yn benodol, yr awgrym nad yw'n unigryw ac na fydd yn darlledu cynnwys o amrywiaeth eang o chwaraeon. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r BBC ar flaen y gad o ran sain chwaraeon, gan gynnig yr arlwy ehangaf o ran yr amrywiaeth o chwaraeon rydym yn eu darlledu ar y radio. Er nad oedd y BBC yn rhedeg gorsaf chwaraeon benodol amser llawn, roedd wedi darlledu 21 o wahanol gampau yn 2023/24 ar draws 5 Live a 5 Sports Extra, gan gynnwys Rygbi Dynion a Merched, Fformiwla Un, Criced Dynion a Merched, NFL, Nofio a Phêl-rwyd

(gweler Ffigur 5 am restr lawn). Ni fyddwn yn ymrwymo i unrhyw amrywiaeth ehangach o ddarpariaeth oherwydd mae ein darpariaeth bresennol eisoes yn fwy nag unrhyw ddarlledwr radio arall, a thrwy ddarlledu ein podlediadau chwaraeon presennol nad ydynt yn fyw ar Sounds a chynnwys sylwebaeth chwaraeon nad yw'n fyw ar y radio, byddwn yn cryfhau'r cynnig unigryw hwn.

Roeddem wedi darparu amserlenni dangosol yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024 ac, yn ogystal â'r enghreifftiau a ddarparwyd yn y papur hwnnw, byddem yn tynnu sylw at y ffaith y bydd y BBC yn gallu curadu amserlen rhaglenni 5 Sports Extra gan ddefnyddio'r portffolio helaeth o sain ar-alw sydd eisoes wedi'i gomisiynu ac sydd ar gael ar Sounds. Mae hyn yn cyfateb i 500 o gyfresi o bodlediadau chwaraeon ar draws amrywiaeth o chwaraeon.

Gyda hyn mewn golwg, gallwn gadarnhau na fydd gennym unrhyw gyfyngiadau o ran dyddiad cyhoeddi podlediadau chwaraeon nad ydynt yn fyw cyn eu darlledu ar 5 Sports Extra. Nid ydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol gan y bydd y cynnwys hwn bob amser yn cael ei ddarlledu'n hwyr oherwydd ei fod wedi'i recordio ymlaen llaw ac nid yw'n cael ei ddarlledu'n fyw.

Fel y nodwyd gan nifer o randdeiliaid, bydd y cynnig yn gwella'r dewis i wrandawyr cynnwys chwaraeon a bydd yn mynd i'r afael â diffyg lluosogrwydd y cyflenwad o gynnwys chwaraeon ar orsafoedd radio byw yn y DU. Rydym yn credu bod ein cynigion yn cyflawni hyn drwy amrywiaeth eang o bodlediadau chwaraeon heb fod yn fyw ac ail-ddarlledu sylwebaethau, ac mae'n wahanol i'r hyn mae talkSPORT yn ei gynnig. Rydym yn credu bod hyn yn darparu amrywiaeth o raglenni byw i drafod chwaraeon ar gyfer cynulleidfaoedd y tu allan i'w sylwebaeth fyw ar chwaraeon. Nid yw ein newid arfaethedig yn gorgyffwrdd â'r math hwn o gynnwys, ac nid yw'n ceisio herio'r hyn sy'n denu'r mwyaf o gynulleidfaoedd byw ar radio llinol – sylwebaeth fyw ar chwaraeon. Fel y nodwyd uchod, byddwn yn dileu'r slot sy'n cyd-ddarlledu 5 Live ar 5 Sports Extra a oedd yn cynnwys sylwebaethau chwaraeon nad ydynt yn fyw. Bydd yr orsaf yn dal i gadw'r gallu i gyd-ddarlledu sylwebaeth fyw ar chwaraeon ar 5 Live.

O ran cyd-ddarlledu 5 Live a'r math o gynnwys sy'n cael ei ddarlledu, fel y nodir uchod, byddwn yn dileu'r slot cyd-ddarlledu 5 Live ar 5 Sports Extra a oedd yn cynnwys sylwebaeth nad yw'n fyw. Bydd yr orsaf yn dal i gadw'r gallu i gyd-ddarlledu sylwebaeth fyw ar 5 Live.

Rydym yn nodi ein dadansoddiad llawn o'r Gwerth Cyhoeddus yn Adran 5, ac yn Adran 6, rydym yn amlinellu'n fanylach ein dadansoddiad o'r effaith bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ac rydym yn ymateb i'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid, yn benodol News Broadcasting. I grynhoi, mae ein dadansoddiad o'r effaith debygol ar y farchnad yn dangos effaith niweidiol sylweddol bosibl ar yr unig ddarlledwr radio chwaraeon yn y farchnad, sef News Broadcasting, gan arwain at ostyngiad tebygol mewn gwrandawyr, refeniw a phroffidioldeb ar gyfer y darlledwr masnachol. Fodd bynnag, rydym yn nodi drwy ein dadansoddiad o Werth Cyhoeddus, y byddai'r cynnig o werth sylweddol i gynulleidfaoedd a byddai'n galluogi'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus ymhellach.

Nodwn y pryder a godwyd gan News Broadcasting ynghylch y ffaith bod y BBC yn niweidio'r farchnad podlediadau wrth hyrwyddo ei bodlediadau ar Sounds. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai'n rhesymol disgwyl i asesiad o gwmpas yr effaith ar y farchnad

podlediadau ar-alw fasnachol yn ei chyfanrwydd ddod o fewn cwmpas y Prawf Budd y Cyhoedd hwn. Mae Sounds yn cynnig cynnwys podlediadau ar draws sbectrwm eang o chwaraeon ac mae'n gwasanaethu amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Mae podlediadau'r BBC eisoes yn ymddangos ar lwyfannau cydgasglu podlediadau eraill a llwyfannau ar-alw fel Apple, Spotify ac Amazon.

Ar ben hynny, byddem yn ailddatgan ein hymrwymiad i gynnal dull teg a chytbwys o ennill a thalu am hawliau chwaraeon. Dyma oedd ein nod bob amser wedi'i lywio gan y fframwaith rheoleiddio rydym bob amser wedi cydymffurfio'n llawn ag ef.

## 4.2 Cyllideb

### *4.2.1 Cynnig ein hymgynghoriad*

Yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom ddatgan y bydd yr estyniad i 5 Sports Extra yn gost-effeithiol iawn, gan fod yr holl gostau dosbarthu a gweithredu eisoes wedi suddo. Mae'r costau ychwanegol yn sgil ymestyn gwasanaethau 5 Sports Extra yn cynnwys staff cynhyrchu ac amserlennu ychwanegol yn unig.

Ni fydd gwariant comisiynu ychwanegol ar y rhwydwaith ac ni fydd unrhyw wariant comisiynu newydd gan 5 Live ar gyfer yr oriau estynedig.

Fel rhan o'n cynnig, byddwn yn cyflogi tri neu bedwar gweithiwr llawn-amser newydd i gefnogi'r orsaf amser llawn. Rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn costio £250k yn ychwanegol y flwyddyn. Bydd y rolau newydd yn canolbwyntio ar ddarparu ffynonellau, golygu at ddibenion golygyddol a chydymffurfio, mynegeio, amserlennu ac allbynnu ar gyfer yr orsaf, 7 diwrnod yr wythnos. Mae gwariant unigol o £150k wedi'i gynllunio ar gyfer ail-lansio 5 Sports Extra ond ni fydd gwariant ychwanegol parhaus ar gyfer marchnata'r orsaf estynedig.

### *4.2.2 Ymatebion gan randdeiliaid*

Nid oedd unrhyw sylwadau sylweddol ynghylch y gyllideb a amlinellwyd yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024 gan randdeiliaid ar wahân i News Broadcasting. Roedd nifer o randdeiliaid yn falch o weld na fyddai'r cynnwys ychwanegol a fyddai'n dod i'r rhwydwaith yn costio dim i dalwyr ffi'r drwydded (IMG Productions, Left Peg Media, VLV).

Dywedodd News Broadcasting y byddai'r BBC yn comisiynu cynnwys podlediadau newydd yn benodol ar gyfer gwasanaeth llawn amser 5 Sports Extra, gan dynnu sylw hefyd at y ffaith nad oedd y BBC yn bwriadu buddsoddi unrhyw arian ychwanegol mewn cynnwys podlediadau penodol i'r gwledydd a'r rhanbarthau. Roedd News Broadcasting eisiau rhagor o eglurder ynghylch cyllid ac mae'n credu bod ffigurau'r gyllideb a ddarparwyd ar gyfer yr estyniad yn cael eu tanddatgan ac nad ydynt yn cyfrif am gynnydd mewn gwariant ar gynnwys podlediadau. Roedd hefyd yn teimlo bod y gyllideb ychwanegol i ymestyn oriau darlledu'r gorsafoedd yn groes i strategaeth digidol yn gyntaf y BBC.

Ar ben hynny, mae News Broadcasting yn datgan nad yw'r gyllideb a gedwir yn ôl gan y BBC i hyrwyddo 5 Sports Extra yn adlewyrchu'r gwerth y mae'r BBC yn ei gael o'i allu i drawshyrwyddo ei wasanaethau.

### *4.2.3 Ein cynnig terfynol*

Rydym wedi ymrwymo o hyd i beidio â gwario rhagor ar gomisiynu ar gyfer 5 Sports Extra o ganlyniad i ymestyn oriau darlledu. Bydd 5 Sports Extra yn dewis o blith yr amrywiaeth o gynnwys sain chwaraeon sydd eisoes ar gael ar-alw i ymateb yn briodol i ddisgwyliadau a gofynion y gynulleidfa o ran gwrando ar radio llinol. Ni fyddwn yn comisiynu mwy o gynnwys podlediadau ar Sounds i ddarparu'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd ar rwydwaith llinol. Nid yw proses gomisiynu ar gyfer podlediad ar-alw yn bodloni'r un amserlen ar gyfer darparu rhaglen a gomisiynir i'w darlledu'n fyw.

Gallwn gadarnhau y byddwn ni, fel rhan o'n cynigion, ond yn ategu ein darllediadau chwaraeon byw presennol ar y rhwydwaith gyda chynnwys podlediadau chwaraeon ychwanegol nad ydynt fyw ac ailchwarae sylwebaeth chwaraeon nad yw'n fyw. Bydd hyn yn dod â mwy o'n cynnwys sain chwaraeon i gynulleidfaoedd ar radio llinol heb gost ychwanegol i dalwyr ffi'r drwydded. Bydd hyn yn creu gwerth sylweddol i gynulleidfaoedd ac yn defnyddio'r swmp enfawr o gynnwys ar-alw y mae'r BBC wedi buddsoddi ynddo ar gyfer cynulleidfaoedd ar Sounds (gweler ein hystyriaethau gwerth cyhoeddus yn Adran 5). Mae hyn yn cefnogi ein strategaeth digidol yn gyntaf, o ran ymestyn cyrhaeddiad cynnwys sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded a thynnu mwy o sylw at y podlediadau chwaraeon rhagorol sydd ar gael ar BBC Sounds.

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ymrwymiadau ychwanegol i swm penodol o gynnwys gan y gwledydd a'r rhanbarthau, nac ar gyfer amrywiaeth ehangach o chwaraeon. Y rheswm am hyn yw bod y BBC eisoes yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys ar draws amrywiaeth o chwaraeon, yn ogystal ag amrywiaeth o gynnwys sain chwaraeon gan leisiau a chynhyrchwyr o bob cwr o'r DU.

Gallwn hefyd gadarnhau nad ydym yn ystyried bod unrhyw gynlluniau i hyrwyddo 5 Sports Extra drwy ein gwasanaethau yn rhan o gwmpas y Prawf Budd y Cyhoedd hwn oherwydd nid yw hyn yn golygu newid ein strategaeth bresennol o ran sut rydym yn dod ag elfennau gwahanol o'n cynnwys i sylw cynulleidfaoedd. Rydym yn bwriadu parhau i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn ymwybodol o 5 Sports Extra a'r cynnwys mae'n ei gynnig. Bydd hyn yn cynnwys trawshyrwyddo priodol gan Wasanaethau Cyhoeddus eraill y BBC yn y DU er mwyn cyflawni ein Cenhadaeth a'n Dibenion Cyhoeddus. Bydd unrhyw weithgaredd o'r fath yn parhau i ddigwydd yn unol â'n canllawiau golygyddol a gofynion perthnasol y Siarter a'r Cytundeb.

## 4.3 Crynodeb o'r cynigion terfynol

Rydym yn credu'n gryf y bydd y cynnig i ehangu oriau darlledu 5 Sports Extra drwy lenwi amser ar yr awyr sydd heb ei ddefnyddio gyda phodlediadau presennol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a chynnwys arall nad yw'n fyw, fel y disgrifir uchod, yn cynhyrchu gwerth cyhoeddus sylweddol, yn bennaf drwy fwy o werth am arian, cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd a darlledu lleisiau a straeon o wledydd a rhanbarthau'r DU.

Rydym yn cydnabod yr angen i liniaru effaith bosibl ein cynigion ymgynghori ar gystadleuwyr, yn benodol ar talkSPORT 1 a talkSPORT 2. O'r herwydd, rydym wedi penderfynu lleihau oriau darlledu'r amserlen estynedig a chyfyngu ar yr oriau y mae'r orsaf estynedig ar yr awyr. Er bod yr oriau'n cael eu lleihau, byddwn yn cynnal yr holl agweddau

cynnwys ar y cynnig fel y disgrifir yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror ac fel y disgrifir ymhellach yn y Prawf Budd y Cyhoedd hwn. Rydym yn credu bod y cynnwys rydym wedi cynnig ei ddarparu drwy'r estyniad yn cynrychioli gwerth llawer iawn gwell i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded ac mae'n sicrhau bod allbwn chwaraeon y BBC yn parhau i gyfrannu at gyflawni Cenhadaeth y BBC a hyrwyddo ei Ddiben Cyhoeddus.

# 5. Darparu mwy o werth i gynulleidfaoedd drwy 5 Sports Extra

## 5.1 Cyflawni yn erbyn Cenhadaeth y BBC

Mae'r BBC yn sefydliad sy'n cael ei sbarduno gan ei genhadaeth. Ei genhadaeth yw "gweithredu er budd y cyhoedd, gwasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o safon uchel, sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu".[9]

Wrth wneud hynny, rhaid i'r BBC sicrhau gwerth gwych am arian yn gyfnewid am ffi'r drwydded. Ochr yn ochr â'r genhadaeth hon mae pum diben cyhoeddus sy'n arwain gweithrediad y BBC ymhellach. Sef:

- Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd;
- Cefnogi cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed;
- Darparu cynnwys unigryw;
- Adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU a chefnogi'r economi greadigol; ac
- Adlewyrchu'r DU i'r byd.[10]

Rydym yn ystyried gwerth cyhoeddus o ran sut mae newid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU gan y BBC yn ychwanegu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth honno a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Yn yr adran hon rydym yn nodi sut rydym yn meddwl y bydd newidiadau i 5 Sports Extra yn rhoi mwy o werth i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded.

## 5.2 Ein Fframwaith Gwerth Cyhoeddus

Yn 2020, buom yn gweithio gyda'r Athro Mariana Mazzucato ac IIPP (Institute for Innovation and Public Purpose) yng Ngholeg y Brifysgol, Llundain ar ddatblygu fframwaith newydd i asesu gwerth cyhoeddus yn y BBC, i'n galluogi i wneud asesiad mwy cadarn. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y BBC a'r IIPP *Creating and measuring dynamic public value at the BBC – A scoping report*.[11]

Mae sawl agwedd wahanol i werth cyhoeddus, ac er mwyn gwerthuso'r gwerth cyhoeddus y mae ein cynigion yn ei gynhyrchu, rydym yn trafod y rhain yn nhermau'r gwahanol barthau neu grwpiau gwerth:

- **Gwerth i'r unigolyn –** y gwerth a gynhyrchir mewn perthynas â'r ffordd mae'r unigolyn yn defnyddio ein gwasanaethau – i ba raddau y bydd ein newidiadau yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd, yn parhau i gynnig gwasanaeth gwirioneddol gyffredinol iddynt, ac felly'n sicrhau gwerth da am arian o ran ffi'r drwydded. Fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan gynnwys, daw cyfran fawr o'r gwerth rydym yn ei gynhyrchu drwy ddefnyddio ein cynnwys.
- **Gwerth cyhoeddus –** i ba raddau y gall ein newidiadau hybu gwerth cymdeithasol. Ein prif ddiffiniad ni o hynny yw sut bydd newid yn galluogi'r BBC i gyflawni ein

---

[9] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 5
[10] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 6
[11] Creating and Measuring dynamic public value at the BBC – A scoping report, Institute for Innovation and Public Purpose, Rhagfyr 2020.

Cenhadaeth a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus yn well, yn benodol wrth fesur y gwerth a gynhyrchir mewn perthynas â'r gymdeithas ehangach

- **Gwerth i'r Diwydiant** – y graddau y gall ein newidiadau hyrwyddo gwerth i'r diwydiant, gan weithredu fel grym creadigol drwy gefnogi buddsoddiad, hybu arloesedd, a siapio ac ysgogi'r economi greadigol ledled y DU. Mesur y gwerth a gynhyrchir fel y mae'n berthnasol i'r diwydiant.

Mae ein dull yn parhau i ddatblygu; ond mae'r parthau gwerth hyn yn darparu strwythur cyson ar gyfer dadansoddi gwerth cyhoeddus ar draws ein gwasanaethau ac maent yn ein helpu wrth i ni symud at feintioli'n fanylach y gwerth rydym yn ei gynhyrchu.

## 5.3 Ein damcaniaeth gwerth cyhoeddus

Rydym o'r farn y bydd ymestyn oriau 5 Sports Extra yn cyfrannu at Genhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC, yn benodol, at y trydydd a'r pedwerydd diben cyhoeddus, sef darparu cynnwys unigryw i'n holl gynulleidfaoedd a chynrychioli a gwasanaethu'r cymunedau amrywiol yn holl wledydd a rhanbarthau'r DU, yn y drefn honno.

**Ffigur 18: Cyflawni Dibenion Cyhoeddus y BBC drwy 5 Sports Extra**

| Diben Cyhoeddus | Cyflawni |
|---|---|
| Diben Cyhoeddus 1 - Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd | Drwy ddarparu'r newyddion diweddaraf ym myd chwaraeon a rhoi sylw i ddigwyddiadau |
| Diben Cyhoeddus 2 - Cefnogi dysgu i bawb | Drwy sylwebaethau a phodlediadau chwaraeon sy'n llawn gwybodaeth |
| Diben Cyhoeddus 3 - Bod yn greadigol ac yn unigryw, gan ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel | Drwy sylwebaeth chwaraeon a phodlediadau chwaraeon nodedig o ansawdd uchel |
| Diben Cyhoeddus 4 - Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pawb yn y DU | Drwy ddarlledu amrywiaeth eang o gynigion chwaraeon i gefnogwyr chwaraeon llai prif ffrwd a chynghreiriau llai, yn ogystal â chwaraeon o wledydd a rhanbarthau'r DU. |

Mae ein dadansoddiad – sy'n seiliedig ar ein hymchwil cynulleidfa a gynhaliwyd gan MTM, ymatebion i'n hymgynghoriad, a gwaith modelu o'r defnydd – yn dangos y bydd gwerth cyhoeddus ein cynigion yn amlwg yn sylweddol. Rydym wedi asesu'r gwerth hwnnw yn erbyn y ddamcaniaeth ganlynol:

- Gwella'r gwerth ar gyfer cynnwys wedi'i ariannu gan ffi'r drwydded, drwy wneud mwy o'n cynnwys chwaraeon ar-alw gwych y mae modd dod o hyd iddo ar radio rhwydwaith;

- Gwella'r gwerth y mae cynulleidfaoedd iau a C2DE nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd yn ei gael gan y BBC
- Cynrychioli a gwasanaethu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU drwy dynnu sylw at gynnwys a lleisiau chwaraeon o'r gwledydd a'r rhanbarthau a darparu llwyfan llinol ar gyfer talent newydd
- Ehangu'r amrywiaeth o chwaraeon sy'n cael eu cynrychioli ar wasanaethau sain llinol y BBC, yn enwedig y rheini sy'n cael llai o sylw darlledu ar hyn o bryd.
- Gwella'r broses o ganfod cynnwys chwaraeon ar-alw ar BBC Sounds drwy amlygrwydd ar radio rhwydwaith

Fe wnaethom werthuso'r gwaith o gyflawni'r ddamcaniaeth hon gyda'r nod o gynhyrchu gwerth unigol, gwerth cymdeithasol a gwerth i'r diwydiant. Rydym yn mynd i'r afael â hyn isod.

## 5.4 Ymchwil Cynulleidfa

Fe wnaethom gomisiynu MTM i gynnal ymchwil ansoddol a meintiol i brofi ein cynnig gyda gwrandawyr radio yn y DU. Roedd yr ymchwil hwn yn cynnwys amrywiol drafodaethau grŵp ar-lein drwy zoom a hefyd arolwg ar-lein o 3,000 o wrandawyr radio.

Yn ogystal â phrofi apêl ac effaith lansio gorsaf estynedig 5 Sports Extra a'r cynnig cynnwys a gyflwynir, roedd yr ymchwil hefyd yn cynnwys lansio gorsafoedd cerddoriaeth newydd y BBC. Fodd bynnag, bydd llawer o'r data a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lansio arlwy chwaraeon y BBC yn benodol. Roeddem am gael darlun cadarn a dibynadwy o'r hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei ystyried yn werth personol a chyhoeddus y newidiadau arfaethedig. Roeddem hefyd eisiau deall sut byddai is-setiau o gynulleidfaoedd – gwrandawyr radio chwaraeon, cynulleidfaoedd iau (25 – 44 oed) a C2DE – yn ymateb i'r oriau estynedig arfaethedig ar gyfer gorsaf 5 Sports Extra.

Rydym wedi cyhoeddi dadansoddiad llawn o'n hymchwil cynulleidfa ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Rydym wedi cynnwys canlyniadau'r ymchwil hwn drwy gydol y Prawf Budd y Cyhoedd hwn i ategu ein hasesiad Gwerth Cyhoeddus a phrofi ein cynigion. Rydym yn cyflwyno'r canfyddiadau hyn ochr yn ochr â'n hymatebion gan randdeiliaid a'n hasesiad econometrig.

## 5.5 Gwella gwerth am arian i gynulleidfaoedd radio llinol, drwy wneud mwy o'n cynnwys chwaraeon ar-alw gwych ar gael ar radio rhwydwaith

### *5.5.1 Ein damcaniaeth*

Un o'r prif bethau sy'n dylanwadu ar werth cyhoeddus yw i ba raddau y bydd ein newidiadau yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd, yn parhau i gynnig gwasanaeth gwirioneddol gyffredinol iddynt ac yn darparu gwerth da am arian o ran Ffi'r Drwydded. Mae'r berthynas bersonol uniongyrchol hon â'n cynulleidfaoedd yn hanfodol er mwyn galluogi'r BBC i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus. Mae ein cynulleidfaoedd yn gwsmeriaid i'r BBC, ac mae'n rhaid iddynt deimlo bod y BBC yn darparu gwerth am arian o ran Ffi'r Drwydded ar draws ei amrywiaeth o wasanaethau.

Yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024, roeddem yn cynnig defnyddio ein catalog presennol o gynnwys sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded i gynnig gwasanaeth radio chwaraeon parhaus a difyr. Gwneud gwell defnydd o'r sbectrwm a gynigir i'r BBC a darparu

cynnwys chwaraeon i gynulleidfaoedd sy’n unigryw ac o ansawdd uchel heb gost ychwanegol.

Credwn y bydd ein cynnig yn cyflawni:

- **Gwerth Unigol:** darparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy’n effeithiol o ran creu gwerth am arian i dalwyr ffi’r drwydded.
- **Gwerth Cymdeithasol:** cynyddu’r dewis sydd ar gael i wrandawyr radio chwaraeon drwy ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys sain chwaraeon, sy’n wahanol i’r arlwy masnachol presennol.

### *5.5.2 Ein tystiolaeth*

#### 5.5.2.1 Ymatebion gan randdeiliaid

Roedd cefnogaeth gref gan nifer o randdeiliaid y byddai’r newidiadau arfaethedig yn creu gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

Roedd IMG Productions, Left Peg Media, VLV ac un rhanddeiliad arall yn credu bod y newid yn rhoi gwerth sylweddol i dalwyr ffi’r drwydded ac yn hyrwyddo mwy o ddewis o ran yr amrywiaeth o gynnwys sain chwaraeon sydd ar gael i wrandawyr llinol.

Mae un rhanddeiliad yn credu efallai na fydd cynulleidfaoedd sy’n wrandawyr llinol yn unig yn ymwybodol o’r amrywiaeth o bodlediadau chwaraeon sydd ar gael eisoes ar Sounds. Mae’r rhanddeiliad hwn hefyd yn credu y bydd darlledu podlediadau a oedd ar gael ar Sounds yn flaenorol yn helpu i dyfu’r sector cynhyrchu annibynnol.

Mae Left Peg Media yn credu y gall y newid gynnig gwerth potensial enfawr i gynulleidfaoedd, gan ychwanegu podlediadau sy’n bodoli eisoes at gynnwys byw presennol y rhwydwaith, a hynny heb gost ychwanegol i’r BBC na’r rhai sy’n talu ffi’r drwydded.

Nododd VLV y bydd y newid yn cynyddu gwerth cyhoeddus gwasanaethau’r BBC drwy ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys i gynulleidfaoedd ar radio llinol a darparu mwy o werth am arian i dalwyr ffi’r drwydded drwy wneud gwell defnydd o gynnwys sydd eisoes wedi cael ei gynhyrchu gan y BBC. Yn ogystal â thynnu sylw at y diffyg lluosogrwydd presennol yn y cyflenwad ar gyfer cynnwys chwaraeon nad yw’n fyw ar rwydweithiau radio llinol yn y DU.

Mae News Broadcasting yn credu nad yw’r BBC wedi dangos yn ei ymgynghoriad y byddai’r cynnig yn unigryw nac yn cynnig gwerth cyhoeddus net ychwanegol. Ar ben hynny, mae News Broadcasting yn credu y byddai mwy o werth cyhoeddus net cynyddrannol pe bai’r BBC yn trwyddedu ei gapasiti DAB sbâr i weithredwyr radio trydydd parti ddarparu’r gwasanaeth hwn.


#### 5.5.2.2 Ymchwil cynulleidfa

Fe wnaethom gomisiynu MTM i brofi ein cynnig gyda chynulleidfaoedd a deall eu canfyddiadau o’r newid a pha effaith y byddai’n ei chael ar eu harferion. Canfu ein profion gefnogaeth sylweddol i’r cynnig ar draws yr ymchwil ansoddol a meintiol.

Canfu ymchwil MTM i’r farchnad fod bron i 7 gwrandäwr o bob 10 (67%) ymysg gwrandawyr radio yn dweud eu bod yn debygol o ystyried gwrando ar y gwasanaeth

newydd. Roedd y ffigur hwn yn uwch ar gyfer y rheini rhwng 25 a 44 oed, yn nes at 8 o bob 10 a oedd yn ffafriol i'r orsaf arfaethedig.


**Ffigur 19: Tebygolrwydd o wrando ar yr orsaf Chwaraeon arfaethedig (gyda brand y BBC)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024)*

Roedd cynulleidfaoedd hefyd yn credu bod y cynnig yn unigryw gyda'r potensial i ddarparu gwasanaeth sain o ansawdd uchel, yn enwedig ymysg cynulleidfa darged 5 Sports Extra. Roeddem wedi canfod, ymysg gwrandawyr iau radio (25 – 44 oed) sy'n gwrando ar chwaraeon ar y BBC neu rwydweithiau cystadleuwyr, bod cefnogaeth gadarnhaol iawn i'r newid arfaethedig, gyda 76% yn credu y byddai'r newid yn cynnig rhywbeth gwahanol i'r hyn mae radio masnachol yn ei gynnig ar hyn o bryd ac roedd 76% yn credu y bydd y newid yn cynnig gwasanaeth sain o ansawdd uchel.

**Ffigur 20: Canfyddiadau o'r newid gan Gefnogwyr Chwaraeon rhwng 25 a 44 oed sy'n gwrando ar Chwaraeon ar radio (gan gynnwys talkSPORT, talkSPORT 2, BBC 5 Live neu 5 Sports Extra)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024)*

Roedd ein grwpiau ffocws hefyd yn dangos cefnogaeth i'r rhaglenni o ansawdd uchel posibl a fyddai'n bresennol ar yr orsaf.

> *Yn syth, **rwy'n gwybod y bydd yr ansawdd yn dda**. Rwy'n gyfarwydd â'r gweithredwyr profiadol a fydd yn ei gynhyrchu. **Felly mae'n mynd i fod o safon benodol, sy'n dda.** Yn sicr.*
>
> *Defnyddiwr ysgafn/ddim yn defnyddio 35-54 oed, ABC1*

Gydag un ymatebydd yn gobeithio y gallai'r BBC guradu cynnig gyda phodlediadau i ddarparu gwasanaeth parhaus a difyr sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd fel nhw.

> *Efallai y bydden nhw'n gallu **canolbwyntio ar yr ochr podlediadau**, er enghraifft, trafod pêl-droed ar nos Lun, trafod rygbi'r undeb ar nos Fercher, ac yn lle cael yr un bobl yn dod i mewn, efallai cael gwestai gwahanol bob wythnos? **Byddai rhywbeth tebyg i hynny'n eithaf da.***
>
> *Defnyddiwr ysgafn/ddim yn defnyddio 25-34 oed, C2DE*

Mae hyn yn cyd-fynd â'n cynnig i ategu'r amserlen sylwebaeth fyw ar chwaraeon gyda phodlediadau o ansawdd uchel o amgylch y digwyddiad y diwrnod hwnnw neu'r wythnos honno.

#### 5.5.2.3 Model

Mae defnydd y gynulleidfa yn rhan bwysig o gynhyrchu gwerth cyhoeddus, hy rhaid i unigolion wrando ar y sianel newydd er mwyn cael gwerth ohoni. Rydym wedi modelu

cyrhaeddiad newydd 5 Sports Extra gyda chynulleidfaoedd, ac roedd ein hymchwil feintiol yn edrych ar y tebygolrwydd o wrando.

Yn Adran 6, rydym yn nodi sut rydym wedi amcangyfrif y cyrhaeddiad ychwanegol posib a fydd, yn ein barn ni, yn cael ei gynhyrchu gan y newidiadau arfaethedig. I grynhoi, rydym wedi amcangyfrif y bydd cynnydd o 33% yn nifer y gwrandawyr o ganlyniad i'r cynnig dros y tair i bum mlynedd nesaf o wasanaeth. Rydym yn disgwyl y bydd nifer sylweddol o wrandawyr radio yn defnyddio'r orsaf newydd, yn enwedig gwrandawyr radio chwaraeon. Mae hyn yn rhannol oherwydd natur y farchnad radio chwaraeon sy'n gul gyda dim ond un cynnig masnachol (talkSPORT a talkSPORT 2). Rydym yn credu bod y cynnydd sylweddol hwn yn nifer y gwrandawyr yn dangos gwerth personol uchel ein cynigion, a'u gwerth cyhoeddus uchel yn sgil hynny.

### *5.5.3 Ein casgliadau*

Mae ymatebion rhanddeiliaid a'n hymchwil cynulleidfa yn cefnogi ein damcaniaeth y bydd y cynnig yn cynyddu gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded drwy wneud defnydd mwy effeithlon o'r oriau darlledu sydd ar gael (yn 2023/24 dim ond 35% o amser ar yr awyr a ddefnyddiwyd) a llenwi'r gofod gyda chatalog presennol y BBC o bodlediadau chwaraeon ar-alw ac ailddarlledu sylwebaeth fyw am gost ychwanegol isel iawn i dalwyr ffi'r drwydded. Fel y nodwyd yn Ffigur [X], roedd 7 o bob 10 o wrandawyr radio chwaraeon rhwng 25 a 44 oed yn teimlo bod cynnig y BBC yn apelio.

Bydd ychwanegu cynnwys sain chwaraeon ar-alw y BBC ar radio rhwydwaith yn cynyddu gwerth am arian Ffi'r Drwydded ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys:

- <u>Cynulleidfaoedd radio llinol yn unig:</u> cynulleidfaoedd sy'n gwrando ar radio llinol ac nad ydynt yn defnyddio llwyfannau ar-alw i wrando ar gynnwys chwaraeon y BBC. Bydd dod i gysylltiad â'r cynnwys hwn ar radio llinol yn datgloi gwerth ychwanegol i'r cynulleidfaoedd hyn
- <u>Cynulleidfaoedd radio ar-alw ar-lein:</u> cynulleidfaoedd sy'n gwrando'n bennaf ar radio ar-lein drwy lwyfannau ar-alw: bydd y cynulleidfaoedd hyn yn cael gwerth o ddod i gysylltiad â phortffolio podlediadau sain y BBC nad yw'n draddodiadol yn cyrraedd cynulleidfaoedd ar amserlen rhwydwaith

Mae'r ymchwil a'r model cynulleidfa yn awgrymu y byddai'r newid yn perfformio'n dda gyda chynulleidfaoedd, gan ragweld cynnydd mewn cyrhaeddiad ar gyfer yr orsaf estynedig. Roedd cynulleidfaoedd yn teimlo bod y newid yn unigryw i'r cynnig masnachol presennol ac y byddai o ansawdd uchel.

Fel y nodwyd gan nifer o randdeiliaid, bydd y newid hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol sylweddol drwy gynyddu'r dewis o gynnwys sain chwaraeon ar gyfer cynulleidfaoedd radio llinol, sy'n arbennig o berthnasol mewn gofod sydd â dim ond dau ddarparwr ar hyn o bryd – y BBC a News Broadcasting.

Radio llinol yw'r dull mwyaf arwyddocaol o hyd i gynulleidfaoedd ddefnyddio cynnwys sain chwaraeon. Nid yw gwrandawyr sy'n ymgysylltu â chynnwys chwaraeon drwy radio llinol yn bennaf yn ymwybodol o ehangder cynnwys podlediadau'r BBC nac yn dod ar ei draws. Bydd ehangu 5 Sports Extra yn ein galluogi i ddarparu gwerth ychwanegol i'r cynulleidfaoedd llinol hynny a'u cyflwyno i ehangder ein cynnwys ar-alw heb fawr o gost ychwanegol. Rydym yn credu y bydd hyn yn darparu mwy o werth cyhoeddus net

cynyddrannol na phe bai'r BBC yn trwyddedu capasiti DAB sbâr i weithredwyr radio trydydd parti, gan y byddwn yn defnyddio cynnwys presennol y BBC yn well ac yn cryfhau'r gwerth sy'n deillio o ffi'r drwydded drwy sicrhau bod y cynnwys sain chwaraeon a oedd ar gael ar-alw yn unig yn flaenorol ar gael i wrandawyr ar radio rhwydwaith.

Yn olaf, bydd y newid yn creu mwy o werth i gynnwys sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded, drwy gynnig mwy o gyfleoedd i bodlediadau chwaraeon a gomisiynir gan y BBC ar Sounds gyrraedd mwy o gynulleidfaoedd ar radio llinol. Fel y nodwyd yn Adran 4, mae'r BBC wedi gwneud buddsoddiad creadigol sylweddol mewn amrywiaeth eang o bodlediadau chwaraeon ac adloniant chwaraeon. Fodd bynnag, mae llawer o gynnwys chwaraeon ar-alw y BBC yn aros ar BBC Sounds, gydag amserlen ddarlledu gyfyngedig ar 5 Live a 5 Sports Extra yn cyfyngu ar lefel y cyrhaeddiad y gall y BBC ei ddarparu i'r cynnwys hwn ar y radio. Mae ein model o gynnydd ar gyfer yr orsaf estynedig yn dangos y bydd mwy o gynulleidfaoedd yn dod ar draws cynnwys sain chwaraeon o ansawdd uchel o gatalog ar-alw enfawr y BBC.

## 5.6 Gwella'r gwerth y mae cynulleidfaoedd iau a C2DE nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd yn ei gael gan y BBC

### *5.6.1 Ein damcaniaeth*

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o ansawdd da sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Yn chweched adroddiad blynyddol Ofcom ar berfformiad y BBC, dywedodd Ofcom: "Mae cynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E yn dal yn llai bodlon â pherfformiad y BBC na'r rheini o grwpiau eraill". Nododd Ofcom hefyd yn ei Adolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC ynghylch grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E ei bod yn rhaid i'r BBC "barhau i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ddod â chynnwys i gynulleidfaoedd ar draws ei holl lwyfannau."

Pan fyddwn yn edrych ar allbwn chwaraeon 5 Live, gallwn weld ei bod yn gor-fynegeio ar gyfer pobl 25-34 oed a C2DE tra bo 5 Sports Extra yn gor-fynegeio ar gyfer pobl 25-34 oed ond yn tan-fynegeio ar gyfer C2DE. Fel y nodwyd yn Adran 3, mae ein data cynulleidfa yn dangos bod cynnwys chwaraeon yn perfformio'n dda ymysg cynulleidfaoedd C2DE, sef demograffeg cynulleidfa y mae'r BBC yn ei gwasanaethu ar hyn o bryd ar draws radio rhwydwaith. Drwy ddarparu cyrchfan chwaraeon bwrpasol ac integredig, rydym felly'n gobeithio cynnig mwy o werth i'r grwpiau cynulleidfa hynny ac apelio atynt fwy, a defnyddio ein cynnwys i dynnu sylw gwrandawyr at ble gallant glywed mwy am amrywiaeth o chwaraeon, gan gynnwys podlediadau chwaraeon.

Credwn y bydd y newid hwn yn darparu gwerth ar draws:

- **Gwerth i'r unigolyn:** Gwasanaethu C2DE a chynulleidfaoedd iau yn well gyda chynnwys chwaraeon sy'n berthnasol iddynt.
- **Gwerth i gymdeithas:** Darparu mwy o ddewis o gynnwys sy'n ymwneud â chwaraeon ar radio llinol i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE a chynulleidfaoedd iau a diogelu gallu'r BBC i gyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus i bob cynulleidfa – gan gynnwys cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol – ac felly cefnogi dyfodol tymor hir y BBC.

### *5.6.2 Ein tystiolaeth*

#### 5.6.2.1 Ymatebion gan randdeiliaid

Roedd nifer o randdeiliaid yn teimlo y byddai'r newid yn arwain at well cynrychiolaeth a darpariaeth o gynnwys chwaraeon o wledydd a rhanbarthau'r DU i radio llinol. Roedd un rhanddeiliad yn teimlo y byddai'r newid yn cynyddu ansawdd ac amrywiaeth rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, yn enwedig gan fod cynulleidfaoedd C2DE yn cael eu denu at gynnwys darlledu chwaraeon. Mae'r safbwynt hwn yn cael ei gefnogi gan y Gynghrair Bêl-droed hefyd, yn ogystal â'r gobaith y byddai'r estyniad yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r BBC ddarlledu mwy o gynnwys sy'n apelio at grwpiau economaidd-gymdeithasol is y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr, fel mwy o sylw i Rygbi'r Gynghrair, Rygbi Cadair Olwyn, a Rygbi Merched.

Roedd News Broadcasting yn poeni nad oedd y BBC wedi darparu digon o dystiolaeth i awgrymu y bydd yn cyflawni ei amcanion i wasanaethu cynulleidfaoedd C2DE iau yn well. Maent yn nodi bod gwrandawyr podlediadau yn fwy tebygol o fod yn iau mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch a dylai'r BBC ystyried darparu gwybodaeth am broffil demograffig gwrandawyr ei bodlediadau chwaraeon er mwyn gwybod a fyddai'r cynnig yn apelio at y cynulleidfaoedd targed.


Mae News Broadcasting hefyd yn darparu rhagor o dystiolaeth o'u hymchwil cynulleidfa eu hunain. Yn ôl arolwg o wrandawyr talkSPORT a talkSPORT 2, dywedodd 75% o wrandawyr talkSPORT C2DE eu bod yn teimlo bod cynigion y BBC yn apelio, roedd 83% o oedolion 18 – 34 oed yn mynegi'r un farn, yn ogystal â 74% o oedolion y DU a oedd yn byw y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr.

#### 5.6.2.2 Ymchwil cynulleidfa

Mae ein hymchwil cynulleidfa yn dangos cefnogaeth gref gan gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd ar draws radio rhwydwaith y BBC. Dywedodd dros hanner (56%) y cynulleidfaoedd iau (25-44) C2DE y byddai'r orsaf arfaethedig yn cynnig gwasanaeth sain o ansawdd uchel, gyda 38% yn dweud eu bod yn debygol o ystyried gwrando.

Ar gyfer gwrandawyr C2DE yn gyffredinol, dywedodd 67% eu bod yn debygol o ystyried gwrando ar yr orsaf arfaethedig. Dywedodd 39% o wrandawyr iau (25-44) eu bod yn debygol o wrando ar yr orsaf arfaethedig (Gweler y ffigur isod.)


**Ffigur 21: Y tebygolrwydd o wrando ar yr orsaf chwaraeon arfaethedig wedi'i rhannu rhwng cynulleidfaoedd iau a C2DE (wedi'i gyflwyno gyda brand y BBC)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024)*

Ar ben hynny, roedd dros hanner y gwrandawyr iau (52%) a hanner (50%) y gwrandawyr radio C2DE yn teimlo bod y newid arfaethedig yn cynnig rhywbeth gwahanol i weddill radio'r BBC.

**Ffigur 22: Canfyddiadau o'r newid arfaethedig yn cynnig rhywbeth gwahanol i weddill radio'r BBC ymysg gwrandawyr iau a C2DE**



*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024)*

### *5.6.3 Ein casgliadau*

Mae ein dadansoddiad – ar sail ein hymchwil i gynulleidfaoedd ac ymatebion i'n hymgynghoriad – yn dangos bod y gwerth a gynhyrchir gan y cynnig yn debygol o fod yn uchel. Gyda'r cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn dweud eu bod yn debygol o wrando ar y gwasanaeth arfaethedig, gan dargedu grŵp cynulleidfa pwysig nad yw'r BBC yn ei wasanaethu ar hyn o bryd. Mae'n hanfodol bod y BBC yn gallu darparu gwerth i'r holl gynulleidfaoedd a chyflawni ei genhadaeth o "weithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd ac unigryw o safon sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu". Wrth wneud hynny, rhaid i'r BBC sicrhau gwerth da am arian yn gyfnewid am ffi'r drwydded.

Rydym yn credu y bydd y cynnydd yn y ddarpariaeth o gynnwys chwaraeon, sy'n genre o gynnwys y mae gwrandawyr radio yn benodol yn cael eu denu iddo, yn galluogi'r BBC i gyrraedd y cynulleidfaoedd hynny nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Rydym yn cydnabod sylwadau News Broadcasting ynghylch proffil demograffig a chyrhaeddiad podlediadau ar-alw.

Mae archwiliad o gyrhaeddiad demograffig presennol BBC Sounds yn dangos bod cynulleidfaoedd cefndir ABC1 a chynulleidfaoedd dros 35 oed yn gwyro at wrando ar bodlediadau'r BBC. Fodd bynnag, wrth edrych ar wrandawyr podlediadau ar Sounds, rhaid ystyried proffil demograffig llwyfan Sounds, mae'n rhan o'n strategaeth i gynyddu cyrhaeddiad cynulleidfaoedd BBC Sounds i'r rheini nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y BBC. I'r gwrthwyneb, yn ôl Adran 3 a'n hymchwil cynulleidfa, mae cynulleidfa gorsafoedd y BBC sy'n gwasanaethu chwaraeon dros y mynegai ar gyfer cynulleidfaoedd C2DE yn dangos bod gan wrandawyr radio iau hefyd ddiddordeb cryf mewn cynnwys radio chwaraeon. Am y rheswm hwn, rydym yn credu y bydd ychwanegu cynnwys podlediadau chwaraeon i ategu oriau darlledu estynedig amserlen 5 Sports Extra yn darparu ar gyfer y cynulleidfaoedd hynny nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ac yn galluogi'r BBC i gyflawni ei Genhadaeth yn well er mwyn darparu ar gyfer pob cynulleidfa ar draws y DU. Mae'r canfyddiad hwn yn cael ei rannu gan ymchwil cynulleidfa News Broadcasting ei hun sy'n dangos bod cynulleidfaoedd o'r cefndir hwn yn cael eu denu at gynnwys chwaraeon.

## 5.7 Cynrychioli, portreadu a gwasanaethu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU drwy dynnu sylw at gynnwys a lleisiau chwaraeon o'r gwledydd a'r rhanbarthau a darparu llwyfan llinol ar gyfer talent newydd;

### *5.7.1 Ein damcaniaeth*

Fel y nodwyd uchod, mae gan y BBC ofyniad o dan y Siarter a'r Cytundeb i wasanaethu pob cynulleidfa o bob rhan o'r DU. Yng Nghenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC, yn benodol Diben Cyhoeddus 4, mae'n rhaid i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ledled y DU.

Byddai 5 Sports Extra estynedig yn galluogi'r BBC i roi hwb i leisiau o bob un o'r gwledydd a'r rhanbarthau drwy ddarparu cynnwys mwy unigryw a pherthnasol i gynulleidfaoedd

ledled y DU. Bydd yr amserlen newydd yn ein galluogi i ddod â chynnwys chwaraeon gorau ein gwledydd a'n rhanbarthau i gynulleidfa linol, gan adlewyrchu profiadau a theimladau'r rheini sy'n byw ar draws y DU. Yn yr un modd â'n catalog eang, bydd 5 Sports Extra yn dod â lleisiau newydd i gynulleidfa radio rhwydwaith sy'n canolbwyntio ar wahanol gymunedau yn y DU.

Bydd y ddwy agwedd hyn ar yr estyniad yn cryfhau'r gwaith o gyflawni Diben Cyhoeddus 4 y BBC drwy gynyddu'r gynrychiolaeth o gymunedau amrywiol y DU ar radio rhwydwaith. Credwn y bydd y newid hwn yn darparu gwerth penodol i:

- **Gwerth i'r unigolyn:** Gwasanaethu cynnwys y mae cynulleidfaoedd ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU yn teimlo sy'n berthnasol i'w diddordebau, gan gynyddu dewis cynulleidfaoedd.
- **Gwerth i gymdeithas:** Cynnig mwy o gynnwys sy'n adlewyrchu ac yn portreadu lleisiau dilys gan gynhyrchwyr o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r DU, gan ddod â chymunedau at ei gilydd ynghylch diddordebau chwaraeon.

### *5.7.2 Ein tystiolaeth*

#### 5.7.2.1 Ymatebion gan randdeiliaid


Mae VLV yn credu y bydd cynulleidfaoedd yn elwa o well cynrychiolaeth a darpariaeth o gynnwys chwaraeon o wledydd a rhanbarthau'r DU, gan ddarparu gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded drwy wneud gwell defnydd o gynnwys y mae'r BBC eisoes wedi'i gynhyrchu.

Mae News Broadcasting yn credu nad yw'r BBC wedi ymrwymo i fuddsoddi unrhyw arian ychwanegol mewn cynnwys newydd sy'n benodol i'r gwledydd a'r rhanbarthau ac nid yw wedi ymrwymo i nifer penodol o oriau ar gyfer darlledu'r math hwn o gynnwys ar 5 Sports Extra. Roedd hefyd yn nodi nad oedd amserlenni enghreifftiol y BBC a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad ar gyfer 5 Sports Extra yn darparu darlun cadarn o'r hyn a fydd yn cael ei ddarlledu ar yr orsaf o'r mathau hyn o bodlediadau.

#### 5.7.2.2 Ymchwil cynulleidfa


Canfu ein hymchwil cynulleidfa hefyd fod y rheini o wledydd a rhanbarthau'r DU yn ffafrio'r newid arfaethedig a'u bod hefyd yn teimlo y byddai'r newid yn darparu ar gyfer y rhan o'r DU maent yn byw ynddi.

**Ffigur 23: Y tebygolrwydd o wrando ar yr orsaf chwaraeon arfaethedig wedi'i rhannu yn ôl y gwledydd a'r rhanbarthau (wedi'i gyflwyno gyda brand y BBC)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024)*

**Ffigur 24: I ba raddau roedd y newidiadau arfaethedig yn darparu ar gyfer y rhan o'r DU dwi'n byw ynddi (wedi'u cyflwyno gyda brand y BBC)**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024)*

### 5.7.3 Ein casgliadau

Nid oedd unrhyw rhanddeiliad yn anghytuno â'n damcaniaeth y bydd cynulleidfaoedd yn elwa o well cynrychiolaeth a darpariaeth o gynnwys podlediadau chwaraeon o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r DU.

Mae ein hymchwil cynulleidfa yn dangos diddordeb cryf yng ngorsaf newydd 5 Sports Extra, ac roedd canfyddiad y byddai'r cynnig yn berthnasol i gynulleidfaoedd ar draws y gwledydd. Rydym wedi ymrwymo i fodloni'r disgwyliadau hyn a darparu gwerth i'r cynulleidfaoedd hyn drwy dynnu sylw at gynnwys sain chwaraeon sy'n cael ei gynhyrchu ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Rydym yn credu y bydd y cynnig yn darparu cynnwys sy'n gwasanaethu, yn adlewyrchu ac yn portreadu cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU yn ddigonol. Ymhlith y podlediadau chwaraeon sydd ar gael ar hyn o bryd ar Sounds, a fydd ar gael i'w curadu ar wasanaeth 5 Sports Extra estynedig, mae mwy na 70% yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain. Rydym yn nodi bod yr amserlenni enghreifftiol a gafodd eu rhannu yn ein hymgynghoriad yn nodi sut y gellid darparu amserlen estynedig. Byddai tîm golygyddol 5 Sports Extra yn mynd ati i guradu'r cynnwys chwaraeon sydd ar gael i'r rhwydwaith yn y ffordd orau er mwyn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd a chefnogi Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC.

Mae'r BBC hefyd yn cyflawni ei ofynion ar gyfer Diben Cyhoeddus 4 ar draws ein holl rwydweithiau radio gan gynnwys 5 Live, fel y dangosir yn ein hadroddiad Cyflawni'r Genhadaeth a'r Dibenion Cyhoeddus a thrwy gydymffurfio â'r Drwydded Weithredu. Mae'r Drwydded Weithredu'n mynnu bod o leiaf 30% o'r gwariant sain perthnasol ar radio rhwydwaith y BBC a Sounds yn digwydd y tu allan i ardal yr M25, a bod yn rhaid i Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4 a 5 Live gyfrannu at y cwota hwn. Yn 2023/24, roedd perfformiad y BBC yn 38.5%.[12] 5 Live a 5 Sports Extra oedd y cyfranwyr mwyaf i hyn gyda 12.8% o bwyntiau, gyda 93% a 100% o wariant cymwys ar raglenni, yn y drefn honno, yn digwydd y tu allan i Lundain.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod 5 Live, 5 Sports Extra a BBC Sport i gyd wedi'u lleoli yn Salford. Ar ben hynny, rydym wedi datgan y byddwn yn defnyddio cynnwys podlediadau a gomisiynwyd gan ein 39 o orsafoedd radio lleol ledled Lloegr, BBC Radio Wales, BBC Radio Scotland a BBC Radio Ulster / Foyle yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r holl orsafoedd hyn yn comisiynu ac yn cynhyrchu cynnwys gwreiddiol yn lleol, gan gyfrannu at gyflogaeth a buddsoddiad yn eu hardaloedd.

Am y rheswm hwn, nid ydym yn credu bod angen gosod targed penodol ar gyfer darparu cynnwys o'r gwledydd a'r rhanbarthau ar 5 Sports Extra.

## 5.8 Ehangu'r amrywiaeth o chwaraeon sy'n cael eu cynrychioli ar wasanaethau sain llinol y BBC, yn enwedig y rheini sy'n cael llai o sylw darlledu ar hyn o bryd.

### 5.8.1 Ein damcaniaeth

Yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom amlinellu y byddwn yn parhau i gyflawni ein cenhadaeth i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael gwybodaeth am sbectrwm

[12] Delivering our Mission and Public Purposes 2023/24, BBC, Awst 2024, t.119

eang o chwaraeon a'n bod yn rhoi mwy o sylw i'r chwaraeon hynny sy'n cael llai o sylw darlledu yn y farchnad radio chwaraeon ehangach.

I gyflawni hyn, fe wnaethom ddweud y byddem yn gwneud gwell defnydd o'r capasiti darlledu er mwyn darparu cynnwys ychwanegol i roi hwb i'r arlwy chwaraeon byw gyda chynnwys podlediadau o'i gwmpas sy'n dod â mwy o werth i gynulleidfaoedd. Bydd ehangu gwasanaethau 5 Sports Extra hefyd yn golygu bod modd manteisio i'r eithaf ar arlwy ar-alw y BBC i lenwi'r amserlen a gwella'r arlwy chwaraeon byw presennol. Bydd hyn nid yn unig yn canolbwyntio ar sioeau sgwrsio, ond bydd hefyd yn defnyddio casgliad cyfoethog y BBC o bodlediadau ymchwiliol a dogfennau cysylltiedig â chwaraeon. Byddwn hefyd yn cyflawni hyn drwy bodlediadau sy'n arwain at/dilyn digwyddiad byw mawr y dydd (ee podlediad rhagolwg o ras sy'n cael ei chwarae cyn ras F1 ar y penwythnos).

Yn benodol, ceisiodd y BBC ddatblygu'r amrywiaeth o gynnwys sain chwaraeon sy'n cael ei gynrychioli ar wasanaethau sain llinol y BBC ar hyn o bryd. Credwn y bydd y newid hwn yn darparu gwerth penodol i:

- **Unigolion:** Gwasanaethu cynulleidfaoedd yn well gydag arlwy unigryw o chwaraeon ar draws amrywiaeth eang o gynnwys a gwasanaethu cynulleidfaoedd sydd â diddordeb penodol mewn chwaraeon mwy arbenigol nag y mae'r farchnad fasnachol yn cynnig darpariaeth dda ar eu cyfer.
- **Cymdeithas:** Darparu amrywiaeth ehangach o gynnwys ar radio rhwydwaith sy'n cynnwys amrywiaeth eang o chwaraeon, gan roi sylw i chwaraeon y gallai cynulleidfaoedd fod yn llai cyfarwydd â nhw ac ennyn diddordeb yn y campau hyn.

### *5.8.2 Ein tystiolaeth*

#### 5.8.2.1 Ymatebion gan randdeiliaid

Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r gwerth a ddarparwyd drwy'r agwedd hon ar y cynnig a dim ond News Broadcasting oedd yn credu bod angen i'r BBC ddarparu mwy o eglurder ynghylch sut byddai'n cyflawni hyn.

Tynnodd Shooting Shark Productions sylw yn eu hymateb at gynnwys chwaraeon nad yw bob amser yn cyd-fynd â strwythur llinellol amserlen rhwydwaith, gan fod cynulleidfaoedd yn newid ac eisiau pethau gwahanol, mae cynyddu dewis yn ganlyniad cadarnhaol. Ar ben hynny, mae'n gyfle i ddeunydd Shooting Shark Productions gael ei glywed gan gynulleidfa ehangach.

Roedd rhanddeiliaid eraill fel VLV a chwmnïau cynhyrchu annibynol, Shooting Shark Productions ac un rhanddeiliad arall yn tynnu sylw at y ffaith bod yr estyniad yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer cynnwys podlediadau chwaraeon na fyddai fel arfer yn cyd-fynd â strwythur llinol cystadleuol amserlen rhwydwaith masnachol ac yn darparu cynrychiolaeth o amrywiaeth o chwaraeon ar radio rhwydwaith.

Roedd News Broadcasting yn teimlo bod yr amrywiaeth o chwaraeon sy'n cael sylw yn yr ymgynghoriad yn gyfyngedig iawn a dylai'r BBC ddefnyddio ei oriau presennol o sylw chwaraeon ar 5 Live a 5 Sports Extra i ddangos chwaraeon nad ydynt yn cael llawer o sylw mewn mannau eraill yn y farchnad. Yn benodol, nid oedd y chwaraeon a gynigiwyd gan y BBC yn ei estyniad yn ymddangos yn y tair prif gamp a ystyriwyd gan ymatebwyr i'r ymchwil a gynhaliwyd gan gynulleidfaoedd talkSPORT. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod

chwaraeon fel Tenis, Athletau a Snwcer yn cael sylw. Canfu eu hymchwil hefyd fod gwrandawyr iau yn fwy tebygol o feddwl y dylai'r BBC roi sylw i chwaraeon nad ydynt yn cael sylw mewn mannau eraill (70% o'r ymatebwyr 18 – 34 oed).

Yn olaf, roedd News Broadcasting yn teimlo nad oedd yr amserlenni enghreifftiol a rannwyd gan y BBC yn cynnwys ymrwymiad gan y BBC i neilltuo cyfran benodol o oriau i gynnwys chwaraeon lleiafrifol. Byddai'n croesawu rhagor o wybodaeth gan y BBC am yr hyn mae'n ei ystyried yn chwaraeon sy'n cael llai o sylw darlledu.

### 5.8.2.2 Ymchwil cynulleidfa

Roedd llawer o gefnogaeth o'n hymchwil cynulleidfa i'n cynnig, gyda chefnogaeth gref i'r BBC ddarparu amrywiaeth ehangach o gynnwys chwaraeon. Yn ein grwpiau ffocws, mynegodd ymatebwyr ddiddordeb mawr yn y BBC yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon nad ydynt yn cael cymaint o sylw ar radio masnachol, gan gynnwys mwy na dim ond pêl-droed, a darparu cynnig unigryw sy'n wahanol i'r hyn mae cystadleuwyr yn ei ddarparu. Rhywbeth y byddwn yn gallu ei gyflawni drwy orsaf estynedig 5 Sports Extra.

Yn ein grwpiau ffocws, mae rhai unigolion wedi tynnu sylw at y ffaith bod y chwaraeon enghreifftiol a gyflwynwyd yn teimlo'n fwy fel chwaraeon 'prif ffrwd' ac nid ydynt yn ddigon eang. Roedd y farn hon hefyd yn cael ei mynegi gan News Broadcasting yn eu pryderon am yr amserlenni enghreifftiol a ddarparwyd. Er hyn, roedd y rheini yn yr ymchwil yn dal i deimlo y byddai mwy o sylw i chwaraeon gan y BBC yn newid cadarnhaol ac roeddent yn gobeithio y byddai mwy o sylw'n cael ei roi i chwaraeon merched fel golff, pêl-rwyd, bowlio a chwaraeon ieuenctid.

> *Dwi'n meddwl bod y chwaraeon sy'n cael eu rhestru wedi'u hanelu'n bennaf at ddynion. Maen nhw'n tueddu i fod yn chwaraeon sy'n seiliedig ar ddynion. Felly dwi'n meddwl y byddai'n dda dweud eu bod yn rhoi sylw i chwaraeon merched hefyd fel* ***pêl-rwyd, hoci a phêl foli****.* ***Rydw i'n meddwl yn aml bod chwaraeon merched yn cael llawer llai o sylw yn y cyfryngau, ac yn cael eu darlledu llawer llai.*** *Ac yn gyffredinol, dydw i ddim yn mwynhau unrhyw un o'r pethau ar y rhestr honno, fel pêl-droed, rygbi nac unrhyw beth felly.*
>
> *Gwrandäwr ysgafn/ddim yn gwrando ar chwaraeon ar y radio, 19-24, C2DE*


Er gwaethaf y teimlad hwn, dywedodd cynulleidfaoedd wrthym hefyd eu bod dal eisiau i'r orsaf gynnwys y gorau o chwaraeon dynion a merched a hefyd ystyried digwyddiadau chwaraeon byd-eang fel rhan o'r amserlen.

Roedd pobl eraill yn teimlo bod y cynnig yn wahanol i'r arlwy presennol ar radio chwaraeon masnachol a gweddill radio'r BBC.

> *Dwi'n meddwl mai'r* ***broblem gyda TalkSPORT yw bod yr enw'n golygu 'trafod chwaraeon', ond 'trafod pêl-droed' maen nhw fwy neu lai****...*
>
> *Does dim byd tebyg i hyn ar hyn o bryd. Mae 5 live yn cyffwrdd ag ef ychydig, ond mae'n debyg ei fod yn fwy o bêl-droed, criced, rygbi a dim llawer fel arall.*
>
> ***Felly, pe byddai'n fwy amrywiol, byddai ganddo bwynt gwerthu eithaf unigryw.***
>
> *Defnyddiwr ysgafn/ddim yn defnyddio 25-34 oed, ABC1*

Roedd hyn yn cael ei deimlo yn ein hymchwil feintiol i gynulleidfaoedd hefyd. Gyda thri chwarter (76%) y gynulleidfa darged ar gyfer yr orsaf estynedig yn ystyried y cynnig fel rhywbeth sy'n wahanol i'r hyn mae radio masnachol yn ei gynnig ar hyn o bryd.

**Ffigur 25: I ba raddau y mae'r newidiadau arfaethedig yn swnio fel eu bod yn cynnig rhywbeth gwahanol i'r hyn y mae radio masnachol yn ei gynnig ar hyn o bryd**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024)*

### *5.8.3 Ein casgliadau*

Gan ystyried ymateb rhanddeiliaid, ein hymchwil i gynulleidfaoedd a'n modelu, rydym yn credu y bydd y cynnydd yn y ddarpariaeth o amrywiaeth eang o gynnwys sain chwaraeon yn cryfhau ac yn ehangu'r amrywiaeth o chwaraeon sy'n cael eu cynrychioli ar wasanaethau sain llinol y BBC.

Mae'r BBC eisoes yn darparu amrywiaeth sylweddol o chwaraeon ar y radio, gyda 5 Live a 5 Sports Extra yn darlledu sylwebaeth fyw o dros 21 o wahanol chwaraeon yn 2023/24. Byddai 5 Sports Extra ehangach yn gallu manteisio ar ehangder llawn arlwy ar-alw y BBC i lenwi'r amserlen a gwella'r arlwy chwaraeon byw presennol gyda mwy o gynnwys podlediadau ar gyfer chwaraeon sy'n cael llai o sylw ar radio masnachol fel snwcer, tenis neu chwaraeon merched.

Bydd argaeledd portffolio sain ar-alw chwaraeon llawn y BBC yn cynyddu'r amrywiaeth o chwaraeon a allai gael sylw ar 5 Sports Extra gan y bydd mwy o amser darlledu ar gael i roi mwy o sylw i chwaraeon. Roedd rhanddeiliaid eraill, yn benodol VLV a chwmnïau cynhyrchu indi, yn tynnu sylw at y ffaith bod yr estyniad yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer cynnwys podlediadau chwaraeon na fyddai fel arfer yn cyd-fynd â strwythur llinol cystadleuol amserlen rhwydwaith masnachol nac yn darparu amrywiaeth o chwaraeon a gynrychiolir ar radio rhwydwaith.

Yn ein grwpiau ffocws, mynegodd ymatebwyr ddiddordeb mawr yn y BBC yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon nad ydynt yn cael cymaint o sylw ar radio masnachol, gan gynnwys mwy na dim ond pêl-droed, a darparu cynnig unigryw sy'n wahanol i'r hyn mae cystadleuwyr yn ei ddarparu. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn gallu ei gyflawni drwy 5 Sports Extra estynedig gyda mynediad at yr amrywiaeth eang o gynnwys sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded sydd ar gael ar Sounds.

Ar draws ein portffolio chwaraeon sain ar-alw, mae llawer o gynnwys ar gael ar draws amrywiaeth eang o chwaraeon, gan gynnwys chwaraeon a fyddai'n cael eu hystyried yn llai amlwg ar y radio fel snwcer *(Snookered, Framed: The Snooker Podcast*), pêl-droed merched (*The Tooney and Russo Show*, *Jill Scott's Coffee Club*), ffitrwydd merched (*Girls Do Sweat*), athletau (*The Winter Olympic Mile*), golff (*The Chipping Forecast*) fformiwla 1 (F1: *Chequered Flag*) a beicio (*BeSpoke: at the Tour de France*). Yn ogystal, ceir llawer o gyfresi o bodlediadau chwaraeon sy'n ymdrin ag amrywiaeth eang o chwaraeon yn hytrach na chanolbwyntio ar un gamp yn gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys podlediadau dogfennol neu bodlediadau ar ffurf cyfweliad fel *Sporting Witness* (gan gynnwys straeon hanesyddol a thrawiadol ar draws pêl-droed merched, tenis, F1, athletau, badminton, a dringo i enwi dim ond rhai) a *Sport's Strangest Crimes* (sy'n ymdrin â straeon am droseddau chwaraeon ar draws pêl-droed merched, reslo a beicio).

Rydym yn credu y bydd argaeledd yr ehangder hwn o gynnwys ar 5 Sports Extra o werth sylweddol i gynulleidfaoedd, yn enwedig y rheini nad oeddent yn dod ar draws chwaraeon a fyddai fel arfer yn cael llai o sylw yn y brif ffrwd, yn enwedig gan ein bod yn disgwyl i'r orsaf gyrraedd cynulleidfa lawer mwy na'r hyn a geir ar hyn o bryd (fel y disgrifir yn Adran 6). Bydd y newid yn cryfhau'r amrywiaeth sylweddol o rwydweithiau chwaraeon y BBC sydd eisoes yn cael eu darlledu ar radio masnachol a bydd hefyd yn darparu llwyfan ychwanegol i gynnwys sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded er mwyn cyrraedd mwy o gynulleidfaoedd a chynyddu diddordeb mewn chwaraeon.

## 5.9 Gwella'r broses o ganfod cynnwys chwaraeon ar-alw ar BBC Sounds drwy amlygrwydd ar radio rhwydwaith

### *5.9.1 Ein damcaniaeth*

Yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror 2024, gwnaethom nodi bod dod i gysylltiad â chynnwys ychwanegol, y mae rhywfaint ohono ar gael ar-alw ar Sounds yn unig, yn gwella gwerth y cynnwys hwnnw ei hun, ond bydd hefyd yn denu gwrandawyr at yr amrywiaeth ehangach o gynnwys sydd ar gael, y gallent fod yn colli allan arno, ar BBC Sounds.

Gall ehangu gwasanaethau 5 Sports Extra fod yn ffordd werthfawr o helpu cynulleidfaoedd i ddarganfod amrywiaeth o bodlediadau chwaraeon y BBC ar radio llinol, ac annog gwrandawyr i symud i BBC Sounds lle gallant ddod o hyd i benodau pellach a chynnwys perthnasol arall y BBC, gyda phrofiad mwy cyfoethog a mwy personol.

Bydd hyn hefyd yn darparu gwerth yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n gwrando'n bennaf ar radio llinol, ond sy'n newid fwyfwy i wasanaethau ar-alw. Byddai'r cynulleidfaoedd hyn yn elwa o gyrhaeddiad ehangach cynnwys chwaraeon ar-alw y BBC i hwyluso'r newid hwnnw.

Credwn y bydd y newid hwn yn darparu gwerth i:

- **Unigolion:** Bydd y cynnig yn darparu 'ffenestr' drwy 5 Sports Extra i ganfod rhagor o gynnwys ar BBC Sounds, gan ddarparu mwy o werth am arian o ffi'r drwydded.
- **Cymdeithas:** Bydd y cynnig yn cefnogi Cenhadaeth y BBC i ddarparu gwerth da am arian yn gyfnewid am ffi'r drwydded drwy roi cyfle i ddefnyddio cynnwys sy'n cael ei ariannu gan y drwydded i gynyddu cyrhaeddiad Gwasanaethau Cyhoeddus y DU ac felly'n cefnogi dyfodol hirdymor y BBC.

### *5.9.2 Ein tystiolaeth*

#### 5.9.2.1 Ymatebion gan randdeiliaid

Wrth ymateb, ysgrifennodd un rhanddeiliad fod cyrhaeddiad cynyddol rhaglenni Sounds sy'n seiliedig ar chwaraeon yn gadarnhaol iawn – gan ei fod yn caniatáu i fwy o wrandawyr llinol gael eu denu at gynnwys ar Sounds a fydd yn gwella ac yn gwneud arlwy sain cyffredinol y BBC yn fwy perthnasol. Mae'n nodi bod hyn hefyd o fudd i gynhyrchwyr ac yn enwedig cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n datblygu eu proffil – drwy greu llwybr arall i wrandawyr ddod o hyd i'w gwaith ac mae'n ychwanegu y bydd hyn, gyda buddsoddiad addas mewn cynyrchiadau, yn cynyddu cyrhaeddiad, amrywiaeth ac ansawdd podlediadau chwaraeon sydd ar gael ar Sounds gan alluogi'r BBC i barhau'n gystadleuol mewn sector podlediadau masnachol sy'n tyfu.

Nid oedd News Broadcasting yn deall yn iawn pam bod angen sicrhau bod podlediadau ar gael ar y radio pan mae Sounds eisoes ar gael yn eang ac yn chwaraewr pwysig yn y gofod ar-alw. Roedd yn nodi bod y farchnad podlediadau yn gystadleuol iawn yn barod gydag amrywiaeth eang o ddewis ar gael i gynulleidfaoedd.

### *5.9.3 Ein casgliadau*

Drwy ddod â mwy o'n cynnwys ar-alw i radio llinol, y mae rhai ohonynt ar gael ar-alw yn unig, byddwn yn gwella gwerth y cynnwys ei hun ac yn darparu pont i ddenu gwrandawyr at yr amrywiaeth ehangach o gynnwys sydd ar gael iddynt ar BBC Sounds y gallent fod wedi colli allan arno o'r blaen.

Roedd rhanddeiliaid yn cytuno y bydd y BBC yn elwa o gynyddu cyrhaeddiad podlediadau chwaraeon sydd wedi'u cyfyngu i Sounds ar hyn o bryd, gan greu llwybr arall i wrandawyr ddarganfod cynnwys sy'n berthnasol i'w diddordeb. Bydd cynyddu cyrhaeddiad y cynnwys hwn ar Sounds yn galluogi'r BBC i barhau'n gystadleuol mewn sector podlediadau masnachol sy'n tyfu yn ogystal â darparu mwy o werth i gynnwys sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded.

## 5.10 Ein casgliadau ynghylch gwerth cyhoeddus

Bydd y cynnig arfaethedig yn darparu gwerth uchel am arian i'r cyhoedd, yn darparu ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, yn gwella cynrychiolaeth a phortread, yn darparu amrywiaeth eang o raglenni chwaraeon ac yn helpu i ganfod cynnwys chwaraeon ar-alw ar BBC Sounds.

# 6. Effaith bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol

Yn yr Adran hon rydym yn nodi'r cynnydd posib mewn lefelau gwrando yr ydym yn disgwyl ei weld o ganlyniad i’n newidiadau arfaethedig, ac rydym yn crynhoi ein dadansoddiad, sy'n dangos bod hyn yn debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

## 6.1 Cynnydd yn y nifer sy’n gwrando ar 5 Sports Extra

Fel y nodir yn Adran 2 uchod a gan ymatebwyr, hawliau chwaraeon yw’r prif beth sy’n denu cynulleidfa i radio chwaraeon. Mae 5 Sports Extra yn unigryw gan ei fod ar hyn o bryd ond yn darlledu chwaraeon byw; nid yw’r orsaf yn ar waith weddill yr amser. Mae hyn yn golygu bod yr amserlen bresennol yn amrywio gyda’r hawliau hynny. Nid oes diwrnod arferol ar 5 Sports Extra fel gyda gwasanaethau eraill. I gyfrif am hyn, mae ein proses fodelu yn datblygu wythnos enghreifftiol lle mae’r defnydd ychwanegol wedi cael ei gyfrifo.

Yn ein hymgynghoriad cychwynnol, fe wnaethom amcangyfrif cynnydd o 52%. Mewn ymateb i gyflwyniadau gan randdeiliaid a rhagor o waith dadansoddi, rydym wedi symleiddio a gwella ein methodoleg i gyfrifo’r cynnydd. I nodi, pe baech yn defnyddio’r fethodoleg newydd hon gyda’r cynnig gwreiddiol, sef oriau darlledu 6am-12am, mae’n awgrymu y byddai hyn wedi arwain at gynnydd o 72% yn y nifer sy’n gwrando ar 5 Sports Extra.


Fodd bynnag, fel sy’n cael ei drafod yn adran 4, er mwyn lliniaru effaith ein cynnig ar y farchnad, rydym wedi penderfynu lleihau’r oriau darlledu ychwanegol arfaethedig ar gyfer 5 Sports Extra. Bydd yr oriau darlledu newydd rhwng 9am a 7pm bob dydd, yn hytrach na rhwng 6am a 10:30pm. Rydym yn amcangyfrif y bydd yr oriau ychwanegol a gynigir ar gyfer yr estyniad nad yw’n sylwebaeth fyw ar chwaraeon yn 1,314 awr (tua 30% o gyfanswm yr oriau darlledu). Mae hyn yn ostyngiad sylweddol i’n horiau arfaethedig blaenorol o 2,940 bob blwyddyn.

I gyfrifo’r wythnos enghreifftiol, fe wnaethom gyfrifo’n gyntaf pa mor debygol oedd cael darllediad am awr y diwrnod yn seiliedig ar yr amserlenni 5 Sports Extra ar gyfer blwyddyn galendr 2023. Yna, fe wnaethom ni gynyddu’r oriau defnyddio sy’n cael eu harsylwi ar sail y tebygolrwydd o ddarlledu er mwyn rhoi gorsaf ‘chwaraeon byw sydd ymlaen drwy’r amser’. Yna, mae’r oriau defnydd ychwanegol a gyfrifwyd, yn cael eu pwysoli gan nad ydynt yn chwaraeon byw, hy rydym yn disgwyl i gynnwys y podlediadau ddenu llai o wrandawyr fesul awr ddarlledu na’r nifer sy’n gwrando ar chwaraeon byw. Yna, rydym yn cymharu’r wythnos enghreifftiol â’r union oriau a welwyd dros flwyddyn galendr 2023. Mae’r gwahaniaeth yn ffurfio’r cynnydd. Rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn gynnydd o 33.1% yn yr oriau gwrando. Mae Atodiad 3 yn rhoi rhagor o fanylion am y dull modelu.

Yn ein dull, nid ydym wedi gallu ystyried yr oriau lle bydd y cynnwys newydd heb fod yn fyw yn cael ei amserlennu ynddynt yn erbyn cynnwys byw ar orsafoedd eraill, fel talkSPORT sef y prif gynnwys byw. Nid yw cynnwys wedi’i recordio ymlaen llaw a phodlediadau yn dod yn agos i gystadlu â darllediadau chwaraeon byw. O ystyried y ffafriaeth gref tuag at gynnwys byw sydd gan y gynulleidfa, byddem yn disgwyl i’r cynnydd fod yn is yn ystod yr adegau hyn. Felly, rydym yn credu bod ein hamcangyfrif yn debygol o orddatgan y cynnydd y byddem yn ei weld yn ymarferol.

Yn ein gwaith modelu, rydym wedi defnyddio data RAJAR, gan ddefnyddio Ch4 2023 fel sylfaen, gyda 4.7 miliwn awr o wrando wythnosol ar gyfartaledd. (Mae hyn yn debyg iawn i'r cyfartaledd o 4.8 miliwn o oriau ar gyfer y dewis o ddata a nodir yn y siart isod.) Mae cymhwyso'r cynnydd o 33.1% i'r sylfaen o 4.7 miliwn o oriau yn arwain at amcangyfrif y bydd cyfanswm o 6.3 miliwn o oriau gwrando, sy'n gynnydd o ychydig llai na 1.6 miliwn o oriau. Mae'r siart isod yn dangos y nifer sy'n gwrando ar 5 Sports Extra mewn gwirionedd, y llinell sylfaen o 4.7 miliwn o oriau a chyfanswm yr oriau gwrando a amcangyfrifir, gan gynnwys y cynnydd o 6.3 miliwn o oriau.

**Ffigur 26: Oriau gwrando chwarterol oedolion 15 oed a hŷn ar gyfer 5 Sports Extra ac oriau sylfaenol enghreifftiol (miloedd)**




*Ffynhonnell: RAJAR*

Fel y dangosir yn y siart uchod, mae lefelau gwrando 5 Sports Extra yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar yr hawliau chwaraeon sydd ar gael ar draws y flwyddyn ac o un flwyddyn i'r llall. Er enghraifft, mae'r brig yn Ch3 2023 yn ymwneud â Chyfres y Lludw tîm y Dynion yn y DU – twrnamaint hynod gyffrous a oedd yn cael ei ddarlledu am nifer fawr oriau ac yn cael ei gynnal yn bennaf drwy fis Gorffennaf 2023. Nid ydym yn credu y bydd y defnydd ychwanegol ar 5 Sports Extra yn amrywio i'r un graddau â'r darllediad byw presennol, ac ni fydd o reidrwydd yn cynyddu gyda mwy o hawliau chwaraeon byw ar gael mewn unrhyw flwyddyn benodol. Os unrhyw beth, pan fo hawliau ar gael ar gyfer chwaraeon fel criced, bydd yr amser ar yr awyr ar gyfer cynnwys podlediadau yn llai oherwydd hyd y darllediad byw. O ganlyniad, mae'r defnydd o gynnwys podlediadau'n debygol o fod yn is yn y blynyddoedd hynny lle mae llawer o chwaraeon, hy ni fyddem yn rhagweld 3.7 miliwn o oriau ychwanegol mewn chwarter fel Ch3 2023 a ddenodd 11.2 miliwn o oriau gwrando yn ystod yr wythnos arferol.

Nid ydym yn modelu unrhyw gynnydd yn nifer y gwrandawyr dros amser. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn amcangyfrif ar gyfer yr orsaf ar ôl tair i bum mlynedd o weithredu. Bydd yr effeithiau ym mlynyddoedd un a dau ar ôl lansio yn is gan y bydd cynulleidfaoedd yn llai ymwybodol o'r cynnig newydd.

### *6.1.1 Cynnydd yn y defnydd o BBC Sounds*

Rydym o'r farn y bydd rhywfaint o effaith ar y podlediadau penodol rydym yn eu darlledu gan eu bod yn cael mwy o sylw ac y byddant yn denu mwy o wrandawyr. Bydd hyn yn hyrwyddo BBC Sounds yn yr un ffordd ag y mae ein gorsafoedd eraill yn gwneud, a bydd BBC Sounds yn cynnig mynediad i gynulleidfaoedd at yr orsaf. Mae'r gwaith modelu'n cofnodi'r gwrando ar yr orsaf estynedig ar BBC Sounds. Nid ydym wedi mynd ati'n benodol i fodelu unrhyw effeithiau ychwanegol ar y gwrando ar-alw ar BBC Sounds.

## 6.2 Risg y bydd ein cynnig yn gwthio cystadleuwyr o'u lle

Fel y nodir yn Adran 2, mae radio chwaraeon yn cael ei ddarparu gan y BBC drwy 5 Live, 5 Sports Extra a thrwy sylw ar BBC Nations a gorsafoedd radio lleol y BBC, a gan News Broadcasting drwy TalkSport a TalkSport 2. Mae amrywiaeth o gynhyrchwyr annibynnol podlediadau chwaraeon hefyd, yn ogystal â darllediadau byw o chwaraeon ar y teledu, ac rydym wedi eithrio'r rhain o'r dadansoddiad dargyfeirio gan nad ydym yn eu hystyried yn ddewisiadau amgen agos. Byddem yn disgwyl i deledu ddenu cynulleidfaoedd oddi wrth y radio ond yn credu ei bod yn annhebygol y bydd hynny'n digwydd i'r cyfeiriad arall, yn enwedig o ystyried y bydd y cynnwys radio llinol newydd yn gynnwys chwaraeon nad yw'n fyw (sef podlediadau). Er bod gwrando ar gasgliadau o bodlediadau yn dod yn weithgarwch prif ffrwd, mae podlediadau unigol yn parhau i fod yn arbenigol ac mae cynulleidfaoedd penodol yn chwilio amdanynt. Mae podlediadau hefyd yn brofiad radio ar-alw yn hytrach nag yn brofiad llinol o radio. Felly, rydym yn credu ei bod yn annhebygol y bydd nifer sylweddol o wrandawyr yn deillio o bodlediadau chwaraeon.

Rydym wedi cymryd agwedd gul iawn at asesu sut mae cystadleuwyr yn cael eu gwthio o'u lle, sy'n canolbwyntio ar ddarparu radio yn unig, ac eithrio dirprwyon gwannach eraill.

Yn gyffredinol, dull y BBC o amcangyfrif lefelau cymryd a dargyfeirio cynulleidfaoedd yw ddefnyddio cyfran y gwrandawyr. O ystyried bod chwaraeon yn genre sain unigryw a dim ond dau ddarparwr radio chwaraeon sydd gan y BBC a talkSPORT, rydym o'r farn y gallai hyn arwain at gymryd a dargyfeirio mwy o gynulleidfaoedd.  Fodd bynnag, mae gan ddefnyddwyr chwaeth eang ac felly mae'n annhebygol y bydd yr holl wrando ar orsaf estynedig 5 Sports Extra yn dod o'r gorsafoedd yn y genre chwaraeon. Felly, rydym wedi ystyried nifer o bwyntiau data i ystyried y cynulleidfaoedd sy'n cael eu cymryd a'u dargyfeirio. Mae hyn yn cynnwys ein hymchwil a gomisiynwyd gan MTM, dadansoddiad o deithiau gwrandawyr yn RAJAR a datganiadau a wnaed gan News Broadcasting mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Rydym wedi adolygu canlyniadau'r arolwg a gomisiynwyd gennym gan MTM. Er bod gorsafoedd chwaraeon yn uchel yn y rhestr o orsafoedd lle byddai gwrandawyr yn cael eu cymryd, mae'n dangos y byddai'r rhan fwyaf o'r gwrandawyr yn dod o orsafoedd a rhwydweithiau cerddoriaeth nad ydynt yn darparu sylw chwaraeon. Dim ond 35% o wrandawyr talkSPORT sy'n awgrymu y byddent yn gwrando llai ar talkSPORT, ac roedd

cyfran debyg yn dweud y byddent yn cymryd oriau gwrando o orsaf Global Radio. Adroddir mai'r BBC yw'r ffynhonnell fwyaf o wrando.

**Ffigur 27: O ble y daw gwrandawyr ar gyfer gorsaf estynedig 5 Sports Extra**


| Grŵp Radio | Cyfanswm | Gwrandawyr talkSPORT | Dilynwyr chwaraeon |
|---|---|---|---|
| BBC Radio | 45% | 52% | 54% |
| Radio Masnachol | 59% | 72% | 64% |
| Bauer | 27% | 30% | 27% |
| Byd-eang | 34% | 36% | 33% |
| News UK | 25% | 44% | 35% |
| talkSPORT / talkSPORT2 | 18% | 35% | 28% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024) Nodiadau: D5 05 Fe ddywedoch eich bod yn debygol o wrando ar wasanaeth Chwaraeon. O ba orsaf neu gyfryngau eraill fyddech chi'n cymryd yr amser gwrando hwnnw? Nid yw cyfanswm ymatebion sawl bocs yn cyfateb i 100*

Gan ddefnyddio data RAJAR, rydym wedi gallu edrych ar gyrchfannau presennol gwrandawyr wrth newid o 5 Live a talkSPORT.[13] Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn dangos bod amrywiaeth o orsafoedd nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon yn gyrchfannau. Ar gyfer 5 Live, y prif gyrchfannau yw BBC Radio 4, BBC Radio 2, BBC Local radio a talkSPORT. Ar gyfer talkSPORT, y prif gyrchfannau yw 5 Live, Radio 2, Greatest Hits Radio a Heart.


[13] Sylwch fod maint y sampl ar gyfer 5SE yn golygu nad oedd yn bosibl edrych ar deithiau ymlaen o'r orsaf honno. Nid yw wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad hwn.

**Ffigur 28: Taith y gwrandawyr o BBC 5 Live yn ystod yr wythnos**




*Ffynhonnell: RAJAR*
*Nodiadau: dim ond gorsafoedd gydag o leiaf 20 o arsylwadau y mae'r rhain yn eu cynnwys. 12 mis o ddata hyd at Ch2 2024. Mae'r diwrnod wedi'i rannu'n gyfnodau o 15 munud. Mae'r data'n edrych ar y rheini sy'n gwrando ar BBC 5 Live mewn un slot ac os nad ydynt yn gwrando ar BBC 5 Live, ble maen nhw yn ystod y 15 munud nesaf. Nid yw data'n cynnwys diffodd y radio.*

**Ffigur 29: Taith y gwrandawyr o talkSPORT yn ystod yr wythnos**




*Ffynhonnell: RAJAR*
*Nodiadau: dim ond gorsafoedd gydag o leiaf 20 o arsylwadau y mae'r rhain yn eu cynnwys. 12 mis o ddata hyd at Ch2 2024. Mae'r diwrnod wedi'i rannu'n gyfnodau o 15 munud. Mae'r data'n edrych ar y rheini sy'n gwrando ar BBC 5 Live mewn un slot ac os nad ydynt yn gwrando ar BBC 5 Live, ble maen nhw yn ystod y 15 munud nesaf. Nid yw data'n cynnwys diffodd y radio.*

Cyflwynodd News Broadcasting ymchwil i ni yn honni y byddai 73% o wrandawyr talkSPORT yn gwrando ar ail-lansiad o 5 Sports Extra ac y byddai 24% yn gwrando llai ar talkSPORT o ganlyniad[14].

Byddai cyfran y gwrandawyr yn cael ei rhannu tua 60/40 rhwng y BBC a talkSPORT[15]. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dangos yn glir nifer y gwrandawyr o orsafoedd genres eraill. Byddai cynnwys y gorsafoedd hyn yn gwanhau'r effaith ar talkSPORT yn sylweddol. Mae'r gorsafoedd eraill hyn yn debygol o fod yn ail ddewis ac rydym yn parhau i ystyried bod genre yn debygol o ddenu gwrandawyr.

Gan ystyried yr uchod, rydym wedi cynnal dadansoddiad o'r hyn rydym yn ei ystyried yn amrywiaeth gredadwy o amcangyfrifon o ran cymryd a dargyfeirio cynulleidfaoedd o wasanaethau ar wahân i talkSPORT o 25%, 50% a 75%. Mae ein hamcangyfrif canolog o'r effaith ar y farchnad yn seiliedig ar y mesur 50%.

[14] Cyflwyniad News Broadcasting i'r BBC.
[15] Yn cynnwys gwrando ar gynnwys nad yw'n ymwneud â chwaraeon ar BBC 5 Live

### 6.2.1 *Effeithiau statig ar refeniw a phroffidioldeb*

Mae'r cyfrifon diweddaraf ar gyfer talkSPORT Limited, y cwmni gweithredu ar gyfer talkSPORT a talkSPORT2, yn ogystal â brandiau radio eraill News Broadcasting, yn dangos twf mewn refeniw ac elw. Yn 2023, cofnodwyd ychydig o dan £81m mewn refeniw ac ychydig llai na £11.5m EBITDA. Roedd hyn yn llai o elw nag yn 2022 ar ôl cofnodi colled yn 2021, ac roedd yn debyg fod hynny oherwydd effaith COVID ar hysbysebu a chwaraeon. Dros y ddwy flynedd, yr elw cyfartalog oedd 15%. Mae'r refeniw sy'n cael ei bostio gan News Broadcasting yn uwch na'r refeniw sy'n cael ei ragweld yn ein model ar sail refeniw y mae Radio Centre yn rhoi gwybod amdano, a chyfran y gwrando. Mae ein dadansoddiad o broffidioldeb yn cael ei wneud ar sail ein rhagolwg ac elw tybiedig o 15%.

Rydym yn amcangyfrif effaith o -1.6% ar refeniw News Broadcasting ar ein mesur canolog o wyriad o 50% oddi wrth talkSPORT a talkSPORT2, gydag amcangyfrif uchaf o -2.4% wedi'i ddylanwadu gan golli cynulleidfaoedd i wasanaethau eraill y BBC a dargyfeirio cynulleidfaoedd i grwpiau radio eraill.

**Ffigur 30: Effaith statig ar refeniw a phroffidioldeb**

| Cymryd cynulleidfaoedd a rhagdybiaethau eraill am ddargyfeirio | Gostyngiad yng ngwrandawyr talkSPORT 1/2 | Effaith ar refeniw News UK | News UK Proffidioldeb ar elw |
|---|---|---|---|
| 25% | -6.3% | -2.4% | -2.3pc |
| 50% | -4.2% | -1.6% | -1.5pc |
| 75% | -2.1% | -0.8% | -0.8pc |

Mae'n anodd deall yr effaith ar broffidioldeb. Oherwydd eu bod yn cael eu harwain gan hawliau llafar a chwaraeon, rydym yn deall bod talkSPORT a talkSPORT 2 yn llawer mwy costus i'w gweithredu na'r gorsafoedd eraill ym mhortffolio News Broadcasting. Fodd bynnag, gallai hefyd fod yn un o'r canolfannau a fyddai'n gwneud yr elw mwyaf arwyddocaol ar gyfer News Broadcasting oherwydd maint y gynulleidfa y mae'n ei denu, sy'n cael ei sbarduno gan ddigwyddiadau chwaraeon byw.

Ar sail statig, nid oes lle i ymateb. Rydym yn amcangyfrif y gallai proffidioldeb leihau elw News Broadcasting at 1.5pc ar ein mesur canolog. Mae'r lefel hon o effaith yn annhebygol o effeithio ar fuddsoddiad ym mhrif wasanaeth talkSPORT, sy'n cael ei sbarduno'n bennaf gan hawliau chwaraeon byw. Ar y lefel uchaf, gall ddylanwadu ar fuddsoddiad yn talkSPORT 2 (neu efallai orsafoedd eraill News UK) sy'n wasanaeth llafar. Heb y gallu i ymateb byddem felly'n disgwyl torri costau o ganlyniad i'r newid.

Mae'r effaith ar rwydweithiau radio eraill yn isel ac fel y dangosir yn y dadansoddiad uchod, mae'n debygol o ledaenu ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau radio.

### 6.2.2 *Effeithiau deinamig*

Mae nifer o ffyrdd y gallai effeithiau deinamig liniaru'r effaith.

Mae ein gwaith modelu yn ystyried y ddeinameg bresennol rhwng y BBC a radio masnachol. Mae hyn yn golygu bod cyfran o'r effaith yn cael ei lleihau gan y llif disgwyliedig o wrandawyr o'r BBC i wasanaethau radio masnachol. Er enghraifft, yn ein

model sylfaenol, mae nifer y gwrandawyr ar wasanaethau digidol yn tyfu 3.9% y flwyddyn ar gyfartaledd ar gyfer y BBC ond 9.2% y flwyddyn ar gyfer News Broadcasting. Mae hyn yn golygu bod yr effaith yn lleihau twf refeniw yn hytrach nag elw statig.

Mae'r cynigion hefyd wedi bod yn hysbys ers cyhoeddi ein hymgynghoriad, sef am tua chwe mis, ac ni fydd Ofcom yn gwneud penderfyniad am chwe mis arall. Er y bydd yn cymryd llai o amser i sefydlu 5 Sports Extra fel gwasanaeth estynedig nag y byddai ar gyfer gwasanaeth cwbl newydd, mae'n annhebygol o lansio ar unwaith. Fel y nodwyd uchod, bydd cyfnod pellach o amser wrth i gynulleidfaoedd ddod yn ymwybodol o'r gwasanaeth. Yn yr amserlen honno, mae gan News Broadcasting ddigon o awdurdod i ymateb i'r cynnig, drwy newid ac arloesi ei amserlen a'i weithrediadau ei hun. Er enghraifft, yn ei ddatganiad diweddaraf i'r wasg ar berfformiad, nododd News Broadcasting gryfder y gweithredu o ran darparu IP a'u bod yn arweinydd yn y farchnad mewn meysydd fel darlledu drwy YouTube[16].

Rydym wedi ystyried yr ymatebion tebygol y gallai News Broadcasting eu gwneud. Nid ydym yn credu y byddai'n debygol y gallai News Broadcasting fuddsoddi mewn chwaraeon i liniaru effaith ehangu gwasanaethau'r BBC. Er y byddai ehangu hawliau chwaraeon byw ar y rhwydwaith talkSPORT yn debygol o leihau'r achosion o ddargyfeirio, nid ydym yn credu bod hwn yn ymateb hyfyw o ystyried argaeledd hawliau chwaraeon poblogaidd a heriau amserlennu. Er enghraifft, mae hawliau i chwaraeon poblogaidd fel pêl-droed, rygbi a chriced yn ddrud neu eisoes wedi'u caffael yn y farchnad. Wrth amserlennu, byddai talkSPORT hefyd yn gyndyn i amserlennu ei arlwy chwaraeon ei hun mewn cystadleuaeth ag eraill er mwyn osgoi gwanhau ei gynulleidfa, a dim ond slotiau cyfyngedig sydd ar gael yn yr amserlen ar adegau pan fydd cynulleidfaoedd yn dymuno gwrando. Yn gyffredinol, mae chwaraeon byw yn cael eu hamserlennu gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Gall chwaraeon arbenigol neu dramor liniaru rhai o'r heriau hyn. Gallai costau hawliau is ac amseroedd gwahanol ar gyfer y gemau ddatblygu cynulleidfaoedd newydd a threfniadau nawdd. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai News Broadcasting wedi gwneud rhai o'r buddsoddiadau hyn yn barod pe bai talkSPORT2 wedi aros yn orsaf sgwrsio yn bennaf.

Wedi dweud hynny, eleni rydym wedi gweld arloesedd o ran hawliau gan News Broadcasting wrth iddynt gyflwyno Gemau Olympaidd Paris ar y radio. Dyma'r tro cyntaf i orsaf radio masnachol gynnal y Gemau Olympaidd. Gyda rhwydwaith llafar ehangach, mae gan News Broadcasting gyfle i fanteisio ar yr hawliau hyn dros rwydwaith ehangach.[17] Gall ei allu i fanteisio ar hawliau ar draws ei bortffolio cyfan ddatgloi cynigion gwasanaeth a ffrydiau refeniw newydd.

Er bod lefel tebygol yr effaith ar un cwmni yn uwch nag yr ydym wedi'i weld o'r blaen, rydym o'r farn y bydd gan News Broadcasting opsiynau ar gael iddo ar wahân i gwtogi costau. Fodd bynnag, mae risg o hyd y bydd News Broadcasting yn lleihau ei wasanaeth talkSPORT 2 os nad yw'n gallu ymateb yn strategol.

---

[16] Fel y nodwyd yn natganiad i'r wasg 1 Awst 2024 https:///www.news.co.uk/latest-news/another-record-breaking-round-rajer-results-for-new-broadcasting/

[17]Fel y nodwyd yn natganiad i'r wasg Chwefror 2024 https:/talksport.com/sport/1768335/talk-secure-radio-date-olpic-games-paris-2024/

### *6.2.3 Effeithiau posib ar y gadwyn gyflenwi fertigol*

Yn yr adran hon rydym yn ystyried a oes effeithiau tebygol yn y gadwyn gyflenwi ar ôl ehangu 5 Sports Extra ac effeithiau posibl hyn ar gwmnïau cynhyrchu, talent a deiliaid hawliau.

Yn gyffredinol, rydym o'r farn y bydd effaith gadarnhaol fach ar y gadwyn gyflenwi, wedi'i sbarduno gan y cysylltiad ychwanegol a ddaw yn sgil ehangu 5 Sports Extra.

Nid yw'r ymestyn gwasanaeth 5 Sports Extra yn creu unrhyw gyllideb gomisiynu neu gaffael hawliau ychwanegol. Bydd yn defnyddio cynnwys sydd eisoes wedi cael ei gomisiynu gan wasanaethau eraill y BBC. Felly, nid yw'n debygol o gymell buddsoddiad ychwanegol yn uniongyrchol gan gynhyrchwyr, talent neu ddeiliaid hawliau.

Fodd bynnag, mae ehangu i DAB yn darparu cynulleidfa ehangach ar gyfer rhaglenni sydd eisoes wedi'u comisiynu. Mae hyn yn debygol o godi proffil cynhyrchwyr, talent ar yr awyr a darpariaeth chwaraeon sy'n gysylltiedig â'r cynnwys. Mae'n debygol mai hyn fydd yn cael yr effaith fwyaf ar dalent a deiliaid hawliau. Mae'r cysylltiad ychwanegol dros amser hefyd yn debygol o ennyn mwy o ddiddordeb yn y chwaraeon hynny, a allai, yn ei dro, dyfu'r gamp, cynyddu cyfranogiad ac, yn y pen draw, cynyddu gwerth hawliau. Mae'n bosibl y bydd cyflwyno talent sy'n gysylltiedig â'r chwaraeon hynny hefyd yn gweld cynnydd mewn cyfleoedd. Bu llwyddiant ysgubol gyda hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda phêl-droed merched yn y DU, wedi'i sbarduno'n bennaf gan y sylw gan ddarlledwyr gwasanaeth am ddim a llwyddiant Tîm Pêl-droed Merched Lloegr. Er na fydd y sylw ar 5 Sports Extra cystal, mae'n bosibl y bydd manteision yn codi.

## 6.3 Casgliadau ynghylch effaith bosibl y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol

Gan ystyried yr ymchwil i gynulleidfaoedd a'n dadansoddiad o'r effaith ar y farchnad, rydym o'r farn y byddai cynigion 5 Sports Extra yn creu gwerth cyhoeddus sylweddol, yn bennaf drwy roi mwy o werth am arian i'r rheini sy'n talu ffi'r drwydded, cyrraedd mwy o gynulleidfaoedd y BBC nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd, a darlledu lleisiau a straeon o wledydd a rhanbarthau'r DU.

Fodd bynnag, mae effaith bosibl y cynnig ar y farchnad hefyd yn sylweddol, gydag amcangyfrif y bydd yn cael effaith o hyd at 1.5pc ar elw unig ddarparwr arall radio chwaraeon penodol yn seiliedig ar ein mesur canolog.

# 7. Prawf Budd y Cyhoedd

## 7.1 Y Cefndir

Mae’r Siarter a’r Cytundeb yn gosod nifer o rwymedigaethau ar y BBC pan fyddai’n dymuno gwneud newidiadau i'w wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Yn benodol, mae'r Cytundeb[18] yn mynnu mai dim ond ar yr amodau canlynol caiff y BBC wneud newid sylfaenol i'w wasanaethau cyhoeddus yn y DU:

- Mae'r BBC wedi cynnal Prawf Budd y Cyhoedd ar y newid arfaethedig;
- Mae'r BBC wedi penderfynu bod Prawf Budd y Cyhoedd wedi'i fodloni;
- Mae Ofcom yn penderfynu y caiff y BBC gyflawni'r newid arfaethedig.

Mae newid sylfaenol wedi'i ddiffinio i gynnwys y canlynol:

a) cyflawni unrhyw weithgaredd fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU; ac
b) unrhyw newid i Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Mae'r Cytundeb[19] hefyd yn esbonio beth sy'n rhan o Brawf Budd y Cyhoedd. Yn benodol, rhaid i'r BBC fod yn fodlon:

- Bod y newid arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus y DU yn cyfrannu at gyflawni’r Genhadaeth a hyrwyddo un neu fwy o Ddibenion Cyhoeddus y BBC;
- Ei fod wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw’r newid arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol nad yw’n angenrheidiol ar gyfer cyflawni’r Genhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol; a
- Bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Ar ben hynny, mae'r Cytundeb[20] hefyd yn mynnu bod y BBC, wrth gynnal Prawf Budd y Cyhoedd, yn ystyried hyd a lled a thebygolrwydd unrhyw werth cyhoeddus o'i gymharu â hyd a lled a thebygolrwydd unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ceir cydnabyddiaeth y bydd y gwaith o benderfynu yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal asesiadau ansoddol, ac efallai na fydd hi'n bosibl cymharu'r ffactorau sy'n ymwneud â gwerth i'r cyhoedd yn uniongyrchol â'r ffactorau sy'n ymwneud â chystadleuaeth deg ac effeithiol.

Rydym wedi cynnal Prawf Budd y Cyhoedd ynghylch ein cynigion i wella ein harlwy BBC Sports Extra er mwyn cynnig gwerth uwch i gynulleidfaoedd. Isod, rydym wedi nodi canfyddiadau ein Prawf Budd y Cyhoedd yng ngoleuni'r broses ymgynghori a'r ymchwil a'r dadansoddiad rydym wedi'u cynnal.

---

[18] Cytundeb, Cymal 7.
[19] Y Cytundeb, Cymal 8 (1)
[20] Cytundeb, Cymal ( )

## 7.2 A yw’r newid arfaethedig yn newid sylweddol?

Ar ôl i’r BBC gyhoeddi’r newid arfaethedig, “mae’n rhaid i Ofcom asesu a yw’r newid yn sylweddol”. Os bydd Ofcom yn penderfynu bod y newid arfaethedig yn un o bwys, bydd yn rhaid i Ofcom gynnal Asesiad o’r Gystadleuaeth neu Asesiad Byrrach. “Pan fydd Ofcom wedi rhoi gwybod i’r BBC nad yw’n credu bod y newid arfaethedig yn sylweddol, caiff y BBC wneud y newid arfaethedig”, a “Pan fydd cyfnod o chwe wythnos wedi mynd heibio ers cyhoeddi’r newid arfaethedig, ac nad yw Ofcom wedi rhoi gwybod i’r BBC a yw’n credu bod y newid arfaethedig yn sylweddol ai peidio, caiff y BBC wneud y newid arfaethedig.”[21]

Ar sail y dadansoddiad o’r effaith ar y farchnad a nodir yn Adran 6, rydym o’r farn y byddai cynigion 5 Sports Extra yn cynhyrchu gwerth cyhoeddus sylweddol, yn bennaf drwy fwy o werth am arian, cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol ar hyn o bryd a darlledu lleisiau a straeon o wledydd a rhanbarthau’r DU.

Mae ein dadansoddiad o’r effaith ar y farchnad yn dangos effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae ein model o’r cynnydd (fel y nodir yn Adran 6) yn awgrymu effaith ar yr unig ddarlledwr radio chwaraeon masnachol yn y farchnad (talkSPORT a talkSPORT 2 sy’n eiddo’n gyfan gwbl i News Broadcasting), gan arwain at ostyngiad o 4.2% yn y nifer sy’n gwrando ar talkSPORT, a gostyngiad o 1.6% yn refeniw a 1.5pc yn elw News Broadcasting.

Rydym o’r farn bod effaith bosibl y cynnig ar y farchnad yn sylweddol oherwydd natur y cynnig ac mai dim ond un cystadleuydd sydd yn y farchnad radio chwaraeon, ac y byddai’r effaith hon yn disgyn ar y cystadleuydd hwnnw.

## 7.3 A yw'r newid arfaethedig yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Genhadaeth ac o hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus?

Gan ystyried ymchwil cynulleidfa, ymatebion i’n hymgynghoriad, dadansoddiad economaidd ac asesiad o’n pum damcaniaeth gwerth cyhoeddus, rydym o’r farn y byddai’r cynigion ar gyfer 5 Sports Extra yn creu gwerth cyhoeddus sylweddol ac yn cyfrannu at gyflawni’r Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus. Bydd yn cyflawni hyn yn bennaf drwy roi mwy o werth am arian, cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol ar hyn o bryd a darlledu lleisiau a straeon o wledydd a rhanbarthau’r DU.

## 7.4 A yw'r BBC wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na chaiff y newid arfaethedig unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus yn effeithiol?

Rydym wedi cymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr na fydd y newid arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol lle nad yw hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r genhadaeth yn effeithiol a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus. Yn benodol, rydym wedi mynd i’r afael â’r effaith niweidiol bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol drwy leihau oriau darlledu’r orsaf estynedig arfaethedig a chyfyngu ar yr amser y mae’r orsaf ar yr awyr i’r lefel isaf rydym yn ystyried sy’n cyd-fynd â

[21] Cytundeb, Cymal 9.

chynnig gwerth cyhoeddus, a chyflawni ein cenhadaeth a hyrwyddo ein dibenion cyhoeddus.

### 7.5 A yw gwerth cyhoeddus y newidiadau arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol?

Mae ein tystiolaeth yn awgrymu y gallai'r newid arfaethedig gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn credu bod y cynnig yn dangos bod Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC wedi cael eu cyflawni a bod gwerth cyhoeddus uchel yn cael ei ddarparu i gynulleidfaoedd ac i dalwyr ffi'r drwydded – fel sy'n cael ei ddangos yn ein dadansoddiad Gwerth Cyhoeddus sydd wedi'i nodi yn Adran 5. O'r herwydd, rydym yn dod i'r casgliad bod y Prawf Budd y Cyhoedd yn cael ei fodloni.

### 7.6 Casgliad

Mae'r BBC yn fodlon bod y Prawf Budd y Cyhoedd yn cael ei fodloni ar sail cyflawni Cenhadaeth a Dibenion Cyhoeddus y BBC a chynhyrchu gwerth cyhoeddus sylweddol i gyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

# Atodiad 1: Ymatebion i'r ymgynghoriad

**Crynodeb o'r ymatebion**

Ar 14 Chwefror 2024, lansiodd y BBC ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd ar gynlluniau i ymestyn oriau darlledu 5 Sports Extra.

Pwrpas ein hymgynghoriad oedd ceisio barn, gan randdeiliaid y diwydiant yn bennaf, i'n helpu i fireinio ein cynigion. Roedd hwn yn gam angenrheidiol, gan fod angen i ni gynnal dadansoddiad da o werth cyhoeddus ein cynigion yn ogystal â'r effaith bosibl ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, fel sy'n ofynnol yn ôl Prawf Budd y Cyhoedd.

Cawsom 10 o ymatebion i'r ymhynghoriad. Roedd 8 gan randdeiliaid yn y diwydiant, a chadarnhaodd 6 rhanddeiliad arall yn y diwydiant na fyddent yn cyflwyno unrhyw beth i'r ymgynghoriad. Cafwyd 3 ymateb gan aelodau o'r cyhoedd. Ceir crynodeb o'r ymatebion hynny isod. Cyhoeddwyd yr holl ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol gan rhanddeiliaid ar ein gwefan ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

**Advertising Association**

Mae'r Advertising Association yn gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli hysbysebwyr, asiantaethau, y cyfryngau a gwasanaethau ymchwil yn niwydiant hysbysebu'r DU.

Roedd yr ymateb yn ymwneud yn bennaf â'r prawf budd y cyhoedd ar bedair gorsaf gerddoriaeth ddigidol ar DAB+, ond roedd nifer o bwyntiau'n ymwneud â'r cynnig 5 Sports Extra.

Awgrymodd yr Advertising Association nad oedd y cynnig yn unigryw gan ei fod yn ail-bwrpasu cynnwys a oedd eisoes yn bodoli ar BBC Sounds.

O ran mesurau lliniaru, roedden nhw'n awgrymu y gallai'r BBC gynnig arlwy mwy unigryw a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o chwaraeon lleiafrifol nad oedd yn cael sylw digonol.

**IMG Productions**

Mae IMG yn gwmni chwaraeon a diwylliannol byd-eang.

Roedd eu hymateb yn gefnogol i'r cynnig. Roeddent yn dadlau y byddai'n ychwanegu gwerth cyhoeddus drwy roi cyfle i fwy o bobl glywed cynnwys o ansawdd uchel ac y byddai'n ychwanegu gwerth ychwanegol at y cynnwys chwaraeon a gynhyrchir.

Roeddent hefyd yn awgrymu y byddai'n rhoi cyfle i ddarlledu mwy o chwaraeon byw yn ogystal â'r portffolio a gynigiwyd gan 5 Live eisoes.

**Left Peg Media**

Cwmni cynhyrchu annibynnol yw Left Peg Media.

Roedd eu hymateb yn gefnogol i'r cynnig. Roeddent yn dadlau bod ganddo botensial enfawr i ychwanegu gwerth ar gyfer cynulleidfaoedd drwy ychwanegu podlediadau presennol at gynnwys byw'r orsaf heb gost ychwanegol i'r BBC a thalwyr ffi'r drwydded.

Roeddent yn awgrymu y byddai'n ychwanegu gwerth cyhoeddus drwy ganiatáu i gynulleidfaoedd gael mwy o ddewis o ran gwrando, gan roi cyfle iddynt flasu cynnwys arall BBC Sport nad ydynt efallai'n gwybod amdano.

Roeddent hefyd yn credu y byddai'n gwella dewis i'r gwrandawyr heb gael effaith gystadleuol negyddol, gan mai'r bwriad yw llenwi'r bylchau mewn gorsaf bresennol yn hytrach na sefydlu gorsaf newydd. Fodd bynnag, er mwyn lleihau unrhyw effeithiau posibl, roeddent yn awgrymu na ddylai'r BBC hyrwyddo cynnwys ar y rhwydwaith nad oedd yn chwaraeon byw, er y gellid addysgu'r gynulleidfa o hyd am gynnig newydd yr orsaf. Roeddent hefyd yn awgrymu na ddylai'r orsaf gynnig arlwy gwreiddiol, dim ond cynnwys a gynhyrchwyd eisoes ar gyfer Sounds a 5 Live.

**Rugby League (commercial)**

Yn eu hymateb, awgrymodd Rugby League (commercial) y gallai'r cynnig ychwanegu gwerth cyhoeddus pe bai'n arwain at ddarlledu mwy o oriau o Rygbi'r Gynghrair ar yr orsaf gan y byddai'n cynnig mwy o gynnwys a fyddai'n apelio at gynulleidfaoedd C2DE y tu allan i dde-ddwyrain Lloegr a gallai gynnig y cyfle i ddarlledu mwy o arlwy BBC Local Radio, a Rygbi'r Gynghrair Menywod a Rygbi'r Gynghrair Cadair Olwyn. Fodd bynnag, roeddent yn awgrymu na ddylai hyn fod ar draul sylwebaeth ar 5 Live, a ddylai barhau i fod yn ganolbwynt cenedlaethol ar gyfer darpariaeth chwaraeon.

Roeddent yn awgrymu y byddai dilynwyr Rygbi'r Gynghrair yng Ngogledd Lloegr yn elwa o gael mwy o sylw i Rygbi'r Gynghrair a sylw ychwanegol i Rygbi'r Gynghrair Menywod a Rygbi'r Gynghrair Cadair Olwyn.

Dywedodd Rugby League (commercial) y dylai cytundebau hawliau presennol ac yn y dyfodol gydnabod bod mwy o ddarlledu ar arlwy BBC Local Radio.

O ran yr effaith gystadleuol, cyfeiriodd Rugby League (commercial) at eu perthynas â talkSPORT ac y byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau i lefel y ddarpariaeth fyw drwy 5 Sports Extra ystyried y berthynas honno.

**Shooting Shark Productions**

Cwmni cynhyrchu annibynnol yw Shooting Shark.

Roedd Shooting Shrk yn cefnogi'r cynnig gan ddadlau bod mwy o ddewis yn well i'r defnyddiwr ac y byddai o fudd i'r sector cynhyrchu.

Byddai'n rhoi mwy o ddewis i gynulleidfaoedd ac yn rhoi cyfle i gynnwys amrywiol ddenu cynulleidfa ehangach. Roeddent yn awgrymu y byddai'n ychwanegu gwerth drwy roi hwb i'r sector annibynnol fel llwyfan ychwanegol ar gyfer cynnwys annibynnol ac (os oes cyllideb ychwanegol ar gael i 5 Sports Extra yn y dyfodol) byddai'n cynnig cyfle ar gyfer

mwy o gomisiynau annibynnol, gan arwain at gynnydd mewn swyddi a chyfleoedd i'r sector cynhyrchu annibynnol.

Wrth i'r defnydd o sain newid ac esblygu, roeddent yn nodi ei bod yn iawn ac yn briodol i wneud newidiadau o'r fath.

O ran effaith gystadleuol, fe ddywedont nad oedd unrhyw arwyddion y byddai'r cynnig yn cystadlu ar gynnwys tebyg gyda rhwydweithiau eraill. Byddai arlwy chwaraeon a oedd yn wahanol i'r hyn o gynigiwyd mewn mannau eraill, ac roedd felly'n darparu mwy o ddewis.

Fe wnaethant nodi y dylai'r rhwydwaith fod yn unigryw o'i gymharu ag arlwy masnachol arall. Pwynt arall y gwnaethant ei fynegi oedd bod y cwmni'n darparu llawer o oriau o gynnwys i 5 Sports Extra a'u bod yn teimlo'n rhwystredig mai dolen oedd i'w chlywed cyn ac ar ôl eu darllediadau, a oedd yn effeithio ar ymgysylltiad cynulleidfaoedd. Roeddent yn teimlo y byddai'r cynnig yn gwneud 5 Sports Extra yn fwy unigryw ac yn rhoi mwy o ddewis i gynulleidfaoedd ac y byddai'n cefnogi'r sector annibynnol.

**Rhanddeiliad cyfrinachol**

Cwmni cynhyrchu annibynnol yw'r rhanddeiliad.

Roedd y rhanddeiliad yn teimlo y byddai'r cynnig yn cynyddu gwerth cyhoeddus drwy gynyddu ansawdd ac amrywiaeth y rhaglenni ar gyfer cynulleidfaoedd llinol, yn enwedig ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Yn ogystal, byddai'n cynyddu cyrhaeddiad rhaglenni BBC Sounds sy'n ymwneud â chwaraeon – gan ganiatáu i fwy o wrandawyr llinol gael eu denu at gynnwys ar Sounds ac yn gwella ac yn gwneud arlwy sain cyffredinol y BBC yn fwy perthnasol.

O ran y budd i gynulleidfaoedd ac effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach, roeddent yn teimlo y byddai cynulleidfaoedd yn elwa o fwy o gynnwys chwaraeon a chynnwys wedi'i guradu o ystyried y rhwymedigaeth fod 70% o'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan 5 Live yn canolbwyntio ar newyddion a materion cyfoes. Y byddai'n cynyddu ymwybyddiaeth o bodlediadau sy'n ymddangos gyntaf ar BBC Sounds nad yw gwrandawyr llinol yn ymwybodol ohonynt eto a fyddai, yn eu tro, yn cynyddu'r gwerth sy'n deillio o ffi'r drwydded. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai o fudd i'r sector cynhyrchu annibynnol drwy greu llwybr arall i wrandawyr ddod o hyd i'w gwaith.

O safbwynt yr effaith gystadleuol bosibl, awgrymodd y rhanddeiliad, gyda buddsoddiad addas mewn cynyrchiadau, y byddai'n cynyddu cyrhaeddiad, amrywiaeth ac ansawdd podlediadau chwaraeon sydd ar gael ar BBC Sounds a fyddai'n galluogi'r BBC i barhau i fod yn gystadleuol mewn sector podlediadau masnachol sy'n tyfu. Byddai'n caniatáu i'r BBC gynyddu'r amrediad o chwaraeon sy'n cael sylw, os yw'r hawliau'n caniatáu hynny.

O ran mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol posibl, argymhellodd y rhanddeiliad fod y BBC yn gweithredu dull teg a chytbwys o ennill a thalu am hawliau chwaraeon, un na fyddai'n chwyddo prisiau'n artiffisial a fyddai'n gallu eithrio gweithredwyr masnachol o'r farchnad. Er mwyn hyrwyddo effeithiau cadarnhaol, roeddent yn awgrymu y byddai lansiad i gynyddu ymwybyddiaeth o bodlediadau'r BBC a gwasanaethu cynulleidfaoedd C2DE yn dod â chystadleuaeth gadarnhaol i'r farchnad.

Mewn pwyntiau eraill a godwyd, roedd y rhanddeiliad yn dadlau y byddai angen i'r BBC osgoi caniatáu i unrhyw beth sy'n ymdebygu i amser masnachol ar yr awyr ddod yn rhan o dirwedd y BBC.

**Voice of the Listener and Viewer (VLV)**

Elusen annibynnol, nid-er-elw yw Voice of the Listener and Viewer (VLV) sy'n seiliedig ar aelodaeth sy'n cefnogi darlledu o ansawdd uchel ac sy'n cynnal traddodiadau democrataidd a diwylliannol y DU.

Roedd VLV yn croesawu'r cynnig, a fyddai, yn eu barn nhw, yn rhoi gwasanaeth mwy cyson i wrandawyr ac amrywiaeth ehangach o gynnwys ar orsaf radio fyw. Roeddent yn dadlau y byddai'n cynyddu gwerth cyhoeddus gwasanaethau'r BBC.

Roeddent yn awgrymu y byddai'r cynnig yn gwneud gwell defnydd o gynnwys, sydd eisoes wedi'i gynhyrchu gan y BBC ac felly'n rhoi mwy o werth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Roeddent hefyd yn dadlau y byddai'n caniatáu gwell cynrychiolaeth a darpariaeth o gynnwys chwaraeon o'r gwledydd a'r rhanbarthau; y byddai'n cynyddu'r amrywiaeth o chwaraeon a gynrychiolir ar wasanaethau sain llinol y BBC ac; yn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer y rheini nad yw gwasanaethau'r BBC yn cynnig darpariaeth ddigonol iddynt ar hyn o bryd.

O ran effaith gystadleuol bosibl, dywedodd VLV eu bod yn credu ei bod yn bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar TalkSport. Nid oeddynt yn credu y byddai'n effeithio'n negyddol ar bodlediadau chwaraeon presennol gan y byddai llawer o'r cynnwys chwaraeon nad yw'n fyw a fyddai'n cael ei ddarlledu gan y BBC eisoes ar gael ar BBC Sounds.

Roedd VLV yn dadlau, o ystyried y diffyg lluosogrwydd o ran y cyflenwad o ddigwyddiadau chwaraeon byw a chynnwys chwaraeon heb fod yn fyw sydd ar gael ar orsafoedd sain byw yn y DU, eu bod o'r farn bod yr angen sicrhau gwell lluosogrwydd cyflenwad er budd dinasyddion yn cyfiawnhau'r effaith negyddol bosibl ar gystadleuwyr.

**News Broadcasting**

Busnes cyfryngau sy'n gweithredu yn y DU ac Iwerddon yw News Broadcasting ac mae'n cynnwys brandiau darlledu cenedlaethol talkSPORT, Talk, Times Radio a Virgin Radio UK.

Roedd News Broadcasting yn gwrthwynebu cynigion 5 Sports Extra yn llwyr. Fe wnaethant nodi eu bod yn credu y byddai'r cynigion yn cryfhau safle'r BBC yn y farchnad ymhellach ac y byddai'r gost yn sylweddol o ran cystadleuaeth a lluosogrwydd. Fe ddywedont fod y BBC mewn sefyllfa flaenllaw wrth gymharu ffigurau gwrando holl orsafoedd radio'r BBC â phob gorsaf radio masnachol (54.8% yn erbyn 43.2% RAJAR Ch42023), 77% mewn cynnwys llafar o'i gymharu â radio masnachol.. Roeddent hefyd yn dadlau bod perygl i'r cynnig gynyddu nifer y gwrandawyr ar BBC Sounds ac y byddai'r gost yn sylweddol i'r farchnad bodlediadau chwaraeon ehangach.

Roedd News Broadcasting yn dadlau y byddai'r BBC i bob pwrpas yn lansio gorsaf newydd gyda'r estyniad hwn, ac roedd newidiadau i system trwydded weithredu Ofcom yn golygu na fyddai unrhyw fesurau cadw cydbwysedd i sicrhau mai dim ond cynnwys podlediadau

sydd eisoes yn bodoli a chyd-ddarllediadau 5 Live fyddai'n cael eu darlledu gan 5 Sports Extra. Dywedodd nad oedd y BBC wedi gwneud unrhyw ymrwymiad ynghylch cyfran y cynnwys o'r Gwledydd a'r Rhanbarthau y byddai'n ei ddarlledu ar yr orsaf a bod samplau o amserlenni'n dangos y byddai'r gyfran yn isel iawn. Roedd hefyd yn annhebygol o gynnig manteision ychwanegol gan ei fod yn ailadrodd yr hyn sydd eisoes ar gael yn y farchnad radio masnachol, a bod mynediad gwell at y cynnwys ar BBC Sounds.

O ran yr effaith gystadleuol, fe wnaeth News Broadcasting ddadlau y byddai bron y cyfan o'r cynnydd yn nifer y gwrandawyr ar 5 Sports Extra yn dod o'r rhwydwaith talkSPORT, fel yr unig gystadleuydd uniongyrchol i orsafoedd BBC Sport. Roedd y risg o gymryd gwrandawyr o wasanaethau radio eraill y BBC yn isel ac roedd yn annhebygol y byddai gwrandawyr sain ar-alw yn newid i wrando ar radio byw. Ar sail eu hymchwil eu hunain gyda gwrandawyr talkSPORT, roeddent wedi canfod y byddai'r cynnig yn apelio at gyfran sylweddol o wrandawyr talkSPORT, ac y byddai 73% o wrandawyr talkSPORT yn gwrando ar ail-lansiad o 5 Sports Extra ac y byddai 24% yn gwrando llai ar talkSPORT o ganlyniad i hyn

Dywedodd News Broadcasting eu bod yn credu y byddai colli oriau gwrando sylweddol yn cael effaith sylweddol ar refeniw talkSport, gan effeithio ar fuddsoddiad News Broadcasting yn talkSPORT a'i allu i gynnal talkSPORT 2 a buddsoddi yn eu portffolio sain ehangach ac erydu eu safle yn y farchnad hawliau chwaraeon sain.

Er bod talkSPORT ac talkSPORT 2 wedi perfformio'n dda, roedden nhw'n dadlau nad yw nifer gwrandawyr talkSPORT 2 yn codi o un flwyddyn i'r llall a bod cyfran rhwydweithiau talkSPORT o'r rhwydwaith yn 2.1% o'i gymharu â 3.6% 5L a 5 Sports Extra.

Roeddent yn dadlau y byddai costau hyn yn dod heb i'r BBC ddarparu unrhyw werth cyhoeddus ychwanegol net, bod y BBC wedi methu â dangos sut byddai'r cynnig yn unigryw ac nad oedd wedi darparu unrhyw dystiolaeth ansoddol na meintiol o sut byddai'n apelio at chwaeth y gynulleidfa darged ac roedd yn annhebygol iawn o helpu'r BBC i gyflawni ei amcan o ddrparu gwasanaeth gwell i gynulleidfaoedd iau, C2DE, y tu allan i Lundain.

Fe wnaethant awgrymu bod yr amrywiaeth o chwaraeon sy'n cael sylw yn gyfyngedig iawn a dylai'r BBC ddefnyddio ei oriau presennol o sylw chwaraeon ar 5 Live a 5 Sports Extra i ddangos chwaraeon nad ydynt yn cael llawer o sylw mewn mannau eraill yn y farchnad. Nid oeddent yn gallu deall pam fod angen gwneud podlediadau'n hygyrch ar y radio gan fod BBC Sounds eisoes ar gael yn eang. Roeddent hefyd yn dadlau bod y farchnad podlediadau yn gystadleuol iawn yn barod gydag amrywiaeth eang o ddewis ar gael i gynulleidfaoedd. Roeddent hefyd yn credu y byddai'r cynnydd yng ngwaith y BBC i hyrwyddo ei bodlediadau a dod â mwy o gynulleidfaoedd i Sounds yn niweidiol i'r farchnad podlediadau chwaraeon yn y DU, gan eu bod yn credu bod BBC Sounds yn ardd furiog gan nad oes gan unrhyw ddarlledwr arall fynediad at y llwyfan.

Dywedodd News Broadcasting eu bod yn credu y gallai'r newidiadau arfaethedig arwain at lithriad fformat, lle byddai'r BBC yn adeiladu 5 Sports Extra fel sianel chwaraeon amser llawn, tra bod 5 Live yn canolbwyntio fwyfwy ar ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes, y byddai'n efelychu arlwy talkSPORT, yn benodol o ran y math o gynnwys y mae'n bwriadu ei ddarlledu a'r chwaraeon prif ffrwd y mae'n bwriadu canolbwyntio arnynt.

Roeddent hefyd yn awgrymu mai ychydig iawn o werth cyhoeddus y byddai'r cynnig i gyd-ddarlledu yn ei ddarparu a'i fod yn ddefnydd aneffeithlon o sbectrwm.

Roeddent yn feirniadol o lefel y manylder yn y cynnig, gan ddadlau bod hyn yn ei gwneud yn anoddach i asesu effaith y cynnig. Roeddent yn awgrymu y dylai'r BBC ystyried darparu gwybodaeth am broffil demograffig gwrandawyr ei bodlediadau chwaraeon (sydd, yn eu barn nhw, heb ei gynnwys yn y Prawf Budd y Cyhoedd). Roeddent hefyd yn awgrymu nad oedd y gyllideb arfaethedig yn swm ansylweddol ac roedd diffyg tryloywder ynghylch lle byddai cynnwys unrhyw bodlediadau chwaraeon newydd a oedd newydd yn cael eu comisiynu yn cael ei ystyried. Fe wnaethant ddweud hefyd nad oedd y gyllideb a glustnodwyd ar gyfer y BBC i hyrwyddo 5 Sports Extra yn cynnwys gallu gwerthfawr y BBC i draws-hyrwyddo ei wasanaethau

Fe wnaethant ddadlau eu bod yn teimlo bod y gwariant ychwanegol i ymestyn oriau darlledu'r orsaf yn groes i strategaeth digidol yn gyntaf y BBC.

Yn gyffredinol, roedd News Broadcasting yn credu y byddai'r newid yn arwain at effeithiau negyddol sylweddol ar radio masnachol ac y byddai'n gwbl anghymesur â gwerth cyhoeddus bychan y cynnig. Roeddent yn dadlau nad oedd y BBC wedi gwneud digon i wahaniaethu ei gynigion oddi wrth ymdrechion blaenorol i ymestyn 5 Sports Extra a gafodd eu gwrthod ar y sail y byddai'r newid yn cael effaith negyddol ar gystadleuaeth talkSPORT a talkSPORT 2.

O ran mesurau lliniaru, fe wnaethant awgrymu mai dull arall fyddai i'r BBC ddarlledu gorsafoedd radio cerddoriaeth, newyddion a chwaraeon annibynnol yn y DU ar BBC Sounds, a fyddai, yn eu barn nhw, yn gwella amrywiaeth darpariaeth y BBC.

Roedd News Broadcasting hefyd yn dadlau y dylai'r broses o symud gwrandawyr o DAB i wasanaethau ar-lein ddigwydd mewn partneriaeth â'r diwydiant a bod y cynnig hwn yn lleihau'r gallu i'r BBC gydweithio â darlledwyr eraill i ddatblygu darpariaeth DAB a rhannu capasiti. Roeddent yn awgrymu y byddai mwy o werth cyhoeddus net cynyddrannol pe bai'r BBC yn trwyddedu ei gapasiti DAB sbâr i weithredwyr radio trydydd parti.

Crynodeb o ymatebion gan y cyhoedd

Cafodd y BBC 3 ymateb gan y cyhoedd i'r ymgynghoriad ar 5 Sports Extra.

Roedd dau o'r ymatebion yn croesawu'r cynnig y byddai 5 Sports Extra yn darlledu mwy o'r podlediadau sydd eisoes ar gael ar Sounds. Roedd un yn dadlau y byddai hefyd yn gwella'r effaith gymdeithasol ar wrandawyr sy'n ymgysylltu â chynnwys cyn digwyddiadau mawr fel yr Ewros neu Gwpan y Byd. Y byddai hyn yn ei wneud yn unigryw o'i gymharu â darparwyr eraill.

Er bod ymatebydd arall yn gefnogol, nid oedd yn cefnogi'r elfen gyd-ddarlledu arfaethedig gan y byddai'n well ganddynt wrando ar gynnwys newydd yn hytrach na gwrando ar 5 Live.

Wrth ymateb i effaith gystadleuol, dywedodd un ymatebydd nad oedd yn credu y byddai'r cynnig yn effeithio ar talkSPORT gan nad oedd podlediadau yn gynnwys byw/nad oeddent yn gallu ymateb i newyddion fel y rhaglenni ar talkSPORT. Gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r BBC yn darlledu negeseuon i atgoffa nad yw podlediadau yn gynnwys byw.

Awgrymodd ymateb arall y dylai'r BBC wneud mwy i gefnogi radio lleol yn hytrach nag ymestyn oriau darlledu gwasanaethau cyhoeddus presennol.

## Atodiad 2: Model

### Data

Mae ein gwaith modelu ar gyfer 5 Sport Extra hefyd yn defnyddio data RAJAR ac Amserlennu'r BBC. Mae hefyd yn cael ei lywio gan Fannau Cyswllt a'n harolwg MTM.

RAJAR yw'r brif ffynhonnell ddata o hyd ar gyfer y defnydd o radio sy'n cael ei ddarlledu yn y DU. Mae'n arolwg ar ffurf dyddiadur sy'n cael ei ategu gan banel goddefol gyda gwrando ar sain yn cael ei adrodd drwy gydol yr wythnos ar gyfer sampl gynrychioliadol fawr o boblogaeth y DU. Defnyddir y data fel sail ar gyfer y refeniw masnachol a gynhyrchir o werthu hysbysebion, i nawdd a 'chymryd drosodd' ar radio darlledu masnachol.

I fod yn bresennol ar ddata RAJAR mae angen i orsaf fodloni meini prawf penodol, rhaid iddi fod yn orsaf radio gyda thrwydded Ofcom, rhaid iddi allu cael fframwaith samplu addas ar waith. Mae trothwy gwrando o 5 munud o leiaf hefyd er mwyn i'r data gael ei gasglu. Nid yw'r rhan fwyaf o ffrydiau ar-lein yn unig yn cael eu trwyddedu gan Ofcom fel gorsafoedd radio ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y data. Mae ffrwd Radio 1 Dance ar BBC Sounds yn enghraifft o wasanaeth BBC nad yw'n cael ei dracio ar wahân yn RAJAR.

Cynhelir y rhan fwyaf o'r modelu yn Microsoft Excel.

### Rhagolygon twf gwrthffeithiol mewn gwrando digidol

Mae ein modelu'n seiliedig ar wrando digidol, hy nid ydym yn cynnwys AM/FM gan na fydd y gorsafoedd newydd yn bresennol ar y gwasanaeth hwnnw. Mae gwrando'n symud o AM/FM i ddulliau digidol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwrando ar Radio llinol bellach yn digwydd drwy ddulliau digidol. Mae ein model o'r sefyllfa wrthffeithiol yn rhagweld y tuedd twf mewn gwrando digidol.

Mae dadansoddiad o ddata RAJAR yn dangos bod gostyngiad o 7.2% wedi bod i wrando digidol ar radio'r BBC rhwng 2022 a 2023, tra bod twf o 12.8% wedi bod mewn radio masnachol. Roedd twf blaenorol o oddeutu 2% mewn gwrando digidol ar BBC Radio. Rydym yn rhagweld y bydd twf o 3.9% ar gyfartaledd yn BBC Radio rhwng 2023 a 2026 ac y bydd radio masnachol yn tyfu 6.1% ar gyfartaledd.


Atchweliad llinol syml yw ein rhagolwg sy'n seiliedig ar ddata RAJAR hanesyddol wedi'u cyfuno ar draws blwyddyn rhwng 2018 a 2023. Rydym yn cynhyrchu'r rhagolwg ar sail grwpiau mawr BBC, Global, Bauer, New UK a radio arall. Nid ydym yn rhagweld twf gorsafoedd unigol. O ystyried hyd cyfyngedig y rhagolwg, nid ydym yn capio'r rhagolwg ar faint y farchnad radio yn gyffredinol. Ni fyddai ein dull gweithredu'n addas ar gyfer rhagolygon tymor hir.

Mae bwlch yn y gyfres RAJAR oherwydd COVID. Yn hytrach na dibynnu ar chwarteri unigol, rydym wedi cyfrifo cyfartaleddau ar gyfer y blynyddoedd yr effeithir arnynt sy'n cynnwys y chwarteri arweiniol a blaenorol.

- Mae cyfartaledd 2020 yn cynnwys Ch4 2019, Ch1 2020 a Ch3 2021
- Mae cyfartaledd 2021 yn cynnwys Ch1 2020, Ch3 2021, Ch4 2021 a Ch2 2022
- Mae cyfartaledd 2022 yn cynnwys Ch2 2022, Ch3 2022 a Ch4 2022

- Mae'r cyfartaleddau'r blynyddoedd eraill yn cynnwys eu chwarteri cyfunol

**Ffigur #: Rhagolwg gwrthffeithiol**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad y BBC*

**Cynnydd ar gyfer gwasanaeth 5 Sports Extra estynedig**

Rydym yn amcangyfrif cynnydd yn sgil gwasanaeth 5 Sports Extra estynedig yn seiliedig ar wythnos enghreifftiol. Cyfrifir yr wythnos hon ar sail amserlen bresennol 5 Sports Extra. Bylchau yn yr amserlen wedi llenwi gydag amcangyfrif o oriau gwrando o chwaraeon nad ydynt yn fyw.

Cam 1: gan ddefnyddio amserlenni 5 Sports Extra ar gyfer blwyddyn galendr 2023, rydym yn cyfrifo'r siawns ar gyfer pob awr roedd 5 Sports Extra yn darlledu.

Cam 2: rydym yn casglu data RAJAR ar gyfer y cyfartaledd gwrando fesul awr ar draws yr un flwyddyn. Mae'n bwysig bod blwyddyn RAJAR yn cyfateb i flwyddyn yr amserlen gan y dylai'r oriau brig o ran gwrandawyr yn ystod y dydd gyd-fynd â'r achos darlledu. Mae hyn yn rhoi manylion oriau sylfaenol.

Cam 3: Ar gyfer oriau gweithredu newydd yr orsaf. Rydym yn cynyddu nifer sy'n gwrando ym mhob awr fel pe bai'n cael ei ddarlledu drwy'r amser ac yn ystyried y cynyddran. Er enghraifft, pe bai gan awr gyfle darlledu o 60% ac yn cynhyrchu 60 awr o wrando, byddai hyn yn cyfateb i 100 awr o wrando pe bai'n darlledu 100% o'r amser neu gynnyddran o 40 awr.

Cam 4: rydym yn pwysoli'r amser cynyddrannol hwnnw i gyfrif am natur y cynnwys newydd sy'n chwaraeon nad yw'n fyw. Ar gyfer hyn, rydym yn defnyddio Pwyntiau Cyffwrdd i gyfrifo poblogrwydd cyfartalog chwaraeon byw yn erbyn cynnwys chwaraeon arall. Dim ond 59.3% o'r amser sy'n cael ei gadw. Cyfanswm y rhain wedyn yw'r oriau a gynyddwyd

Cam 5: Yn olaf, rydym yn rhannu'r oriau a gynyddwyd â'r oriau sylfaenol i ddarparu'r cynnydd.

Nid yw'r cynnydd hwn yn ystyried unrhyw bwysau cystadleuol yn ystod yr oriau hynny, sef y math o gynnwys podlediad neu'r hyn y mae wedi'i amserlennu yn ei erbyn. Er enghraifft, byddem yn disgwyl i gynnwys podlediadau ddenu llai o gynulleidfa pan fydd wedi'i amserlennu yn erbyn cynnwys chwaraeon byw ar wasanaethau eraill naill ai'r BBC neu talkSPORT. Nid yw ychwaith yn cyfrif am enillion gostyngol i oriau darlledu lle mae pob awr ychwanegol yn cyfrannu llai na'r awr flaenorol. Byddai'r naill a'r llall yn gweithredu i ostwng yr amcangyfrif. O ganlyniad, mae'r cynnydd hwn yn debygol o oramcangyfrif y cynnydd oherwydd y newidiadau i 5 Sports Extra.

**Cymryd a dargyfeirio cynulleidfaoedd 5 Sport Extra**

Yn gyffredinol, mae dull y BBC o amcangyfrif lefelau cymryd a dargyfeirio yn cynulleidfaoedd drwy defnyddio cyfran y gwrandawyr. O ystyried bod chwaraeon yn genre sain unigryw a dim ond dau ddarparwr radio chwaraeon sydd gan y BBC a talkSPORT, rydym o'r farn y gallai hyn arwain at fwy o gynulleidfaoedd yn cael eu cymryd a'u dargyfeirio. Fodd bynnag, mae gan ddefnyddwyr chwaeth eang ac felly mae'n annhebygol y bydd yr holl wrando ar orsaf estynedig 5 Sports Extra yn dod o'r gorsafoedd yn y genre chwaraeon. Felly, rydym wedi ystyried nifer o bwyntiau data i ystyried y cynulleidfaoedd sy'n cael eu cymryd a'u dargyfeirio. Mae hyn yn cynnwys ein hymchwil a gomisiynwyd gan MTM, dadansoddiad o deithiau gwrandawyr yn RAJAR a datganiadau a wnaed gan News Broadcasting mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Rydym wedi adolygu canlyniadau'r arolwg a gomisiynwyd gennym gan MTM. Er bod gorsafoedd chwaraeon yn uchel yn y rhestr o orsafoedd lle byddai gwrandawyr yn cael eu cymryd, mae'n dangos y byddai'r rhan fwyaf o'r gwrandawyr yn dod o orsafoedd a rhwydweithiau cerddoriaeth nad ydynt yn darparu sylw chwaraeon. Dim ond 35% o wrandawyr talkSPORT sy'n awgrymu y byddent yn gwrando llai ar talkSPORT, ac roedd cyfran debyg yn dweud y byddent yn cymryd gwrandawyr o orsaf Global Radio. Adroddir mai'r BBC yw'r ffynhonnell fwyaf o wrando.


**Ffigur 31: O ble y daw gwrandawyr ar gyfer gorsaf estynedig 5 Sports Extra**

| Grŵp Radio | Cyfanswm | Gwrandawyr talkSPORT | Dilynwyr chwaraeon |
|---|---|---|---|
| BBC Radio | 45% | 52% | 54% |
| Radio Masnachol | 59% | 72% | 64% |
| Bauer | 27% | 30% | 27% |
| Byd-eang | 34% | 36% | 33% |
| News UK | 25% | 44% | 35% |
| talkSPORT / talkSPORT2 | 18% | 35% | 28% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad meintiol Prawf Budd y Cyhoedd BBC Radio MTM (Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 24 Ionawr a 1 Chwefror 2024) Nodiadau: D5 05 Fe ddywedoch eich bod yn debygol o wrando ar wasanaeth Chwaraeon. O ba orsaf neu gyfryngau eraill fyddech chi'n cymryd yr amser gwrando hwnnw? Nid yw cyfanswm ymatebion sawl bocs yn cyfateb i 100*

Gan ddefnyddio data RAJAR, rydym wedi gallu edrych ar gyrchfannau presennol gwrandawyr wrth newid o 5 Live a talkSPORT.22 Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn dangos bod amrywiaeth o orsafoedd nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon yn gyrchfannau. Ar gyfer 5 Live, y prif gyrchfannau yw BBC Radio 4, BBC Radio 2, BBC Local radio a talkSPORT. Ar gyfer talkSPORT, y prif gyrchfannau yw 5 Live, Radio 2, Greatest Hits Radio a Heart.

**Ffigur 32: Taith y gwrandawyr o BBC 5 Live yn ystod yr wythnos**





*Ffynhonnell: RAJAR*
*Nodiadau: dim ond gorsafoedd gydag o leiaf 20 o arsylwadau y mae'r rhain yn eu cynnwys. 12 mis o ddata hyd at Ch2 2024. Mae'r diwrnod wedi'i rannu'n gyfnodau o 15 munud. Mae'r data'n edrych ar y rheini sy'n gwrando ar BBC 5 Live mewn un slot ac os nad ydynt yn gwrando ar BBC 5 Live, ble maen nhw yn ystod y 15 munud nesaf. Nid yw data'n cynnwys diffodd y radio.*

---

[22] Sylwch fod maint y sampl ar gyfer 5SE5 Sports Extra yn golygu nad oedd yn bosibl edrych ar deithiau ymlaen o'r orsaf honno. Nid yw wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad hwn.

**Ffigur 33: Taith y gwrandawyr o talkSPORT yn ystod yr wythnos**




*Ffynhonnell: RAJAR*
*Nodiadau: dim ond gorsafoedd gydag o leiaf 20 o arsylwadau y mae'r rhain yn eu cynnwys. 12 mis o ddata hyd at Ch2 2024. Mae'r diwrnod wedi'i rannu'n gyfnodau o 15 munud. Mae'r data'n edrych ar y rheini sy'n gwrando ar BBC 5 Live mewn un slot ac os nad ydynt yn gwrando ar BBC 5 Live, ble maen nhw yn ystod y 15 munud nesaf. Nid yw data'n cynnwys diffodd y radio.*

Cyflwynodd News Broadcasting ymchwil i ni yn honni y byddai 73% o wrandawyr talkSPORT yn gwrando ar ail-lansiad o 5 Sports Extra ac y byddai 24% yn gwrando llai ar talkSPORT o ganlyniad[23].

Byddai cyfran y gwrandawyr yn cael ei rhannu tua 60/40 rhwng y BBC a talkSPORT[24]. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dangos yn glir nifer y gwrandawyr o orsafoedd genres eraill. Byddai cynnwys y gorsafoedd hyn yn gwanhau'r effaith ar talkSPORT yn sylweddol. Mae'r gorsafoedd eraill hyn yn debygol o fod yn ail ddewis, ac rydym yn parhau i ystyried bod genre yn debygol o ddenu gwrandawyr.

Gan ystyried yr uchod, rydym wedi cynnal dadansoddiad o'r hyn rydym yn ei ystyried yn ystod gredadwy o amcangyfrifon o ran cymryd a dargyfeirio cynulleidfaoedd o wasanaethau ar wahân i talkSPORT o 25%, 50% a 75%. Mae ein hamcangyfrif canolog o'r effaith ar y farchnad yn seiliedig ar y mesur 50%.

[23]Cyflwyniad News Broadcasting i'r BBC.
[24]Yn cynnwys gwrando ar gynnwys nad yw'n ymwneud â chwaraeon ar BBC 5 Live

**Asesu proffidioldeb**

<u>Refeniw a phroffidioldeb radio masnachol</u>

Cynhyrchodd Radio Masnachol werth £75.5m o refeniw yn 2023. Ac mae'r refeniw wedi bod yn uwch na £700m dros y tair blynedd diwethaf. [25]Darperir dros hanner y refeniw drwy hysbysebion cenedlaethol, ond mae hefyd cyfraniadau sylweddol o Gynnwys â Brand (21%), Hysbysebion lleol (16%) a hysbysebion digidol (10%). Yn ein sefyllfa wrthffeithiol mae hyn yn codi i £754.6m yn 2026 sy'n cael ei ysgogi gan dwf mewn gwrandawyr.

Mae cyfrifon diweddaraf ar gyfer News Broadcasting[26] y cwmni gweithredol ar gyfer gorsafoedd radio News Broadcasting, yn dangos twf mewn refeniw ac elw. Yn 2023, cofnodwyd ychydig o dan £81m mewn refeniw ac ychydig llai na £11.5m EBITDA. Roedd hyn yn llai o elw nag yn 2022 ar ôl adrodd ar golled yn 2021, oherwydd effaith COVID ar hysbysebu a chwaraeon. Dros y ddwy flynedd, yr elw cyfartalog oedd 15%.

Er mwyn sicrhau bod modd cymharu â model grwpiau radio eraill, rydym wedi dibynnu ar ffigurau refeniw lefel diwydiant Radiocentre. Rydym wedi neilltuo refeniw i'r tri phrif grŵp ac 'eraill' ar sail cyfanswm eu amser gwrando fel y'i mesurir gan RAJAR. Mae hwn yn amcangyfrif refeniw is na'r hyn a gafodd ei bostio gan gyfrifon News Broadcasting.

Mae cyfrifiadau elw'n seiliedig ar yr elw o 15% sy'n deillio o'u cyfrifon.

[25] https://www.radiocentre.org/the-audio-market/ad-revenues-and-forecasts/
[26] Cyfrifon wedi'u postio fel talkSPORT Limited